



Gwasanaeth Democraidd
Democratic Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

PWYLLGOR ARCHWILIO
AUDIT COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

10.30am DYDD IAU, 26 MEDI 2013

10.30am THURSDAY, 26 SEPTEMBER 2013

Lleoliad / Location

SIAMBR ARFON/CHAMBER,
SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES,
PENRALLT,
CAERNARFON

Pwynt Cyswllt / Contact Point

BETHAN ADAMS

01286 679020

bethanadams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed: 19-09-13

**PWYLLGOR ARCHWILIO
AUDIT COMMITTEE**

AELODAETH/MEMBERSHIP (19)

Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr/Councillors

Edward Dogan
Chris Hughes
Dilwyn Morgan

Huw Edwards
Charles W Jones
Michael Sol Owen

Aled Ll. Evans
Dafydd Meurig
Gethin G. Williams

Annibynnol/Independent (4)

Y Cynghorwyr/Councillors

Trevor Edwards

Tom Ellis

John Pughe Roberts

Angela Russell

Llais Gwynedd (4)

Y Cynghorwyr/Councillors

Anwen Davies

Aeron M. Jones

R.J. Wright

Sedd Wag / Vacant Seat

Llafur/Labour (1)

Y Cynghorydd/Councillor

Sion W. Jones

Aelod Lleyg/Lay Member

Mr John Pollard

Aelod Ex-officio/Ex-officio Member

Is-Gadeirydd y Cyngor /Vice-Chairman of the Council

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2013, fel rhai cywir.

(copi yma- papur **gwyn**)

5. ADOLYGU CYFANSODDIAD Y CYNGOR

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol (copi yma – papur **pinc**)

6. CYFRIFON TERFYNOL 2012/13

Cyflwyno'r datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2012/13.

a) Cyflwyno'r datganiadau ariannol statudol diwygiedig gan y Pennaeth Cyllid am gymeradwyaeth y pwyllgor (copi yma – papur **aur**)

b)(i) Cyflwyno adroddiad ffurfiol "ISA 260" i'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Ddatganiadau Cyfrifon 2012/13 Cyngor Gwynedd (copi yma – papur **llwyd**)

b)(ii) Awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor a'r Pennaeth Cyllid i arwyddo'r "llythyr cynrychiolaeth" ar ran y Pwyllgor Archwilio, sy'n gyfrifol am lywodraethu yng nghyswllt cymeradwyo datganiadau ariannol statudol y Cyngor (copi yma fel **Atodiad 1** i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru sy'n (b)(i) uchod)

c)(i) Cyflwyno adroddiad ffurfiol "ISA 260" i'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Ddatganiadau Cyfrifon 2012/13 y Gronfa Bensiwn (copi yma – papur **melyn**)

c)(ii) Awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor a'r Pennaeth Cyllid i arwyddo'r "llythyr cynrychiolaeth" ar ran y Pwyllgor Archwilio, sy'n gyfrifol am lywodraethu yng nghyswllt cymeradwyo datganiadau ariannol statudol y Gronfa Bensiwn (copi yma fel **Atodiad 1** i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru sy'n (c)(i) uchod).

7. RHEOLAETH TRYSORLYS 2012/13

Cyflwyno, er gwybodaeth, adroddiad y Pennaeth Cyllid ar ganlyniadau gwir weithgarwch benthyg a buddsoddi'r Cyngor yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2013 (copi yma – papur **gwyn**)

8. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adborth o gyfarfod y Panel ar 3 Medi 2013 (copi yma – papur **glas**)

9. CYNNYRCH YR ADRAN ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 31 Awst 2013 (copi yma – papur **lelog**)

10. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2013/14

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ar y cynnydd ar Gynllun Archwilio Mewnol 2013/14 (copi yma – papur **gwyrdd**)

PWYLLGOR ARCHWILIO 18-07-13

Yn bresennol: Y Cyngorydd Trevor Edwards (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Eddie Dogan, Tom Ellis, Aled Ll. Evans, Aeron M. Jones, Charles W. Jones, Sion W. Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Angela Russell a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau)

Aelod Lleyg: Mr John Pollard

Hefyd yn Bresennol: Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Ffion M. Evans (Rheolwr Cyllid Adnoddau a Chorfforaethol), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi, Roland Thomas (Uwch Dechnegydd Cyllid – Cyfalaf a Rheolaeth), Hawis Jones (Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Nigel Griffiths (Arweinydd Asesiad Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru), Huw Lloyd Jones (Rheolwr Llywodraeth Leol Rhanbarth y Gogledd, Swyddfa Archwilio Cymru) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Anwen Davies, Huw Edwards, John B. Hughes, John P. Roberts, Gethin G. Williams

1. CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ailethol y Cyngorydd Trevor Edwards yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2013/14.

2. IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ailethol y Cyngorydd John Pughe Roberts yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2013/14.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2013, fel rhai cywir.

5. DATGANIAD CYFRIFON 2012/13

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau, Ddatganiad o'r Cyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13 sy'n rhoddi manylion am weithgareddau ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid nad yw'r cyfrifon drafft wedi eu harchwilio hyd yn hyn ac efallai y bydd angen rhai newidiadau iddynt cyn y cyflwynir fersiwn terfynol i'r pwyllgor hwn ar 26 Medi 2013. Gorfodwyd ffurf a chynnwys sylfaenol y datganiadau dan Reoliad 7 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn ogystal â rheoliadau a safonau eraill. Mae nifer o ofnion dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol sy'n seiliedig ar Gôd Ymarfer Cyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn Natganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2012/13. Gan fod y rheoliadau yn mynnu datganiadau ar ffurf safonol, mae cymariaethau gyda chyfrifon cyrff eraill wedi'u hwyluso, ond erbyn hyn mae'r datganiadau'n dechnegol gymhleth ac yn fwy anodd i'w deall.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid y cyflwynwyd adroddiad syml a chryno ynglyn â chyfrifon 2012/13 i'r Cabinet ar 11 Mehefin 2013. 'Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol/rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol/llywodraethu.

Nododd y Pennaeth Cyllid mai'r Pwyllgor Archwilio yw'r "rhaid sy'n gyfrifol am lywodraethu" ar ran y Cyngor a cyn 2009/10 bu'r pwyllgor yn cymeradwyo'r datganiad drafft o'r cyfrifon yn amodol ar archwiliad. Fodd bynnag, mae addasiadau 2010 i'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn rhoddi'r cyfrifoldeb am gymeradwyo ac ardystio'r cyfrifon drafft cyn 30 Mehefin 2013 i'r Swyddog Cyllid Statudol (y Pennaeth Cyllid yng Nghyngor Gwynedd). Erbyn hyn, nid oes rhaid i aelodau etholedig gymeradwyo'r fersiwn drafft o'r datganiad ond fe'i cyflwynir i'r pwyllgor hwn er gwybodaeth ac ystyrir hynny'n ymarfer da.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid ymhellach y byddai'r Datganiad o Gyfrifon ynghyd â phob datganiad ariannol perthnasol arall, yn destun archwiliad blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn dilyn ardystiad ganddo ef ac ystyriaeth gan y pwyllgor Yn ogystal, bydd y cyfrifon ar gael i'w harolygu gan y cyhoedd am gyfnod o 20 diwrnod.

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid a'r Uwch Reolwr Cyllid eglurhad manwl am y gwahanol bolisiau cyfrifo, y gwahanol gyfrifon, datganiadau a'r nodiadau perthnasol. Codwyd cwestiynau gan yr aelodau ar y cyfrifon ac ymatebodd y swyddogion iddynt.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid gyfrifiad gwerth asedau ac ymrwymadau pensiwn y Cyngor fel cyflogwr, ac atgoffwyd aelodau y cyflwynir cyfrifon y Gronfa Bensiwn, fel rhan o'r adroddiad blynyddol, i holl gyflogwyr y gronfa mewn Cyfarfod Blynyddol ar 25 Gorffennaf 2013.

Diolchodd yr Aelod Cabinet Adnoddau i'r holl swyddogion perthnasol am y gwaith ar y cyfrifon.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) 2012/13.

6. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2012/13

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn cyflwyno Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2012/13 er cymeradwyaeth y pwyllgor.

Eglurodd bod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010 yn datgan bod rhaid i'r corff llywodraeth leol gynnal adolygiad o leiaf unwaith y flwyddyn ar effeithiolrwydd ei system o reoli mewnol a rhaid cynnwys datganiad ar reoli mewnol, a baratowyd yn ôl arferion priodol, lle bo'n berthnasol, ynghyd ag unrhyw ddatganiad o gyfrifon y mae'n rhwym arno i'w gyhoeddi. Mae'r SORP a Fframwaith CIPFA/SOLACE yn nodi bod rhaid i awdurdodau lleol Cymru gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol ehangach, sy'n ymgorffori'r Datganiad Rheolaeth Fewnol. Pwrpas y datganiad yw datgan bod yr awdurdod wedi ystyried ei fframwaith lywodraethu ac adrodd bod hwn yn parhau'n ddigonol ac yn parhau i weithredu'n effeithiol, ac i arddangos bod cynlluniau yn eu lle i weithredu lle gwelir unrhyw wendidau yn y trefniadau llywodraethu.

Nododd bod proffil y datganiad yn cynyddu'n barhaus ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiad cenedlaethol o drefniadau llywodraethu, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygiad y datganiad. Bydd swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru yn adrodd ar ganlyniad yr astudiaeth i'r pwyllgor hwn. Rhoddodd eglurhad manwl am yr hyn a ddisgwylir o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Pwysleisiodd ei bod yn hanfodol bod tystiolaeth yn ei le er mwyn cefnogi'r cynnwys cyn cyhoeddi'r ddogfen derfynol. Oherwydd rôl allweddol y pwyllgor yng nghydestun fframwaith lywodraethu'r Cyngor, mae gan y pwyllgor swyddogaeth i herio cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft, cyn argymhell bod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo. Nododd bod cymal ychwanegol yn y Datganiad eleni yn deillio o ofynion Atodiad Rhagfyr 2012, sy'n cyfeirio'n benodol at rôl y Pwyllgor Archwilio yn y broses. Wrth iddynt arwyddo'r Datganiad Llywodraethu, mae'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor yn cadarnhau "*Rydym wedi cael ein cyngori ar oblygiadau canlynol yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Archwilio, a bod y trefniadau yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu*"

Mewn perthynas â'r Fframwaith Lywodraethu, tynnodd sylw at Atodiad Rhagfyr 2012 i ganllawiau CIPFA/SOLACE parthed elfennau allweddol y systemau a phrosesau sy'n rhan o lywodraethu awdurdod. Cymeradwywyd Côd Llywodraethu Lleol y Cyngor gan Fwrdd y Cyngor ar 5 Ebrill 2011 ac mae'n seiliedig ar y chwech egwyddor craidd yn Fframwaith CIPFA/SOLACE.

Parthed adolygiad o effeithlonrwydd y Fframwaith Lywodraethu, nododd y swyddog bod angen i'r Pwyllgor Archwilio gael sicrwydd bod y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir yn Rhan 3 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gweithio fel y dylent. Er mwyn derbyn y sicrwydd hwn, bydd angen i'r pwyllgor ystyried os yw'r gweithgareddau a ddisgrifir yn Rhan 4 o'r Datganiad yn ddigonol i ddod i farn am y trefniadau llywodraethu hyn. Cymeradwywyd y Datganiad Llywodraethu Drafft, yn amodol ar rhai mân addasiadau, gan y Tîm Rheoli Corfforaethol ar 26 Mehefin 2013. Ar gyfer 2013/14, bwriedir i'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, gyfarfod o leiaf yn chwarterol drwy'r flwyddyn ac efallai yn fwy aml ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar adeg paratoi'r Datganiad Llywodraethu, er mwyn ystyried unrhyw waith sydd wedi ei gynnal yn y cyfnod blaenorol i asesu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu. Bydd y Grŵp yn adrodd wedyn i'r Pwyllgor Archwilio.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn ymgorffori Datganiad Rheolaeth Fewnol Cyngor Gwynedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13 a'r cyfnod ers dyddiad y fantolen.

7. COFRESTR O ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella ar gofrestr o adroddiadau archwilio allanol.

Adroddodd y Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd mai un o ofynion Mesur Llywodraeth Cymru yw bod pob adroddiad archwilio allanol i ddod i sylw'r pwyllgor hwn, gyda'r pwyllgor yn cymeradwyo buddion gweithredu'r argymhellion a nodir gan yr archwilwyr allanol. Bydd hyn yn galluogi'r pwyllgor i gadw trosolwg ar weithredu argymhellion yr adroddiadau a rhoddi crynodeb byr i'r Cabinet. Rhoddodd fanylion am enghreifftiau o adroddiadau archwilio allanol.

Nododd y gallai adroddiadau fod yn llwyr berthnasol i Wynedd neu'n adroddiadau cenedlaethol sydd â chyfeiriad ynddynt at Gyngor Gwynedd. Yn ychwanegol at hyn, gofynnodd y Pwyllgor Archwilio i'r Adran Strategol a Gwella gadw cofrestr corfforaethol o adroddiadau archwilio allanol, a'i chyflwyno i'r pwyllgor bob chwe mis. Cyfeiriodd at y Gofrestr o Adroddiadau Archwilwyr Allanol ar wasanaethau'r Cyngor ers Ionawr 2010, sy'n gyfuniad o adroddiadau blynyddol, achlysurol a chenedlaethol lle y cyfeirir at Gyngor Gwynedd. Tynnodd sylw at yr archwiliadau newydd a amlygwyd mewn melyn yn yr atodiad i'r adroddiad a ddaeth i sylw'r Adran ers cyflwyno'r gofrestr i'r pwyllgor hwn ar 14 Chwefror 2013.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys y Gofrestr o Adroddiadau Archwilio Allanol.

8. ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL

Croesawodd y Cadeirydd, Huw Lloyd Jones, Rheolwr Llywodraeth Leol Rhanbarth y Gogledd, Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod.

Diolchodd y Rheolwr am y croeso a chyflwynodd yr Adroddiad Gwella Blynyddol gan gyfeirio'n benodol at dair adran i'r adroddiad sef –

- a) Aseiad o berfformiad y Cyngor yn 2011/12.
- b) Trefniadau ar gyfer hunan-arfarnu perfformiad 2011/12
- c) Trefniadau o ran cynllunio ar gyfer gwelliant yn 2012/13

Nododd mai prif gyfranwyr at yr aseiad perfformiad yw –

- Adroddiad y Cyngor ar berfformiad 2011/12
- Barn SAC a gwaith ar wasanaethau budd-daliadau a digartrefedd
- AGGCC – gofal cymdeithasol
- Estyn – plant a phobl ifanc
- Y Comisiynydd Iaith

Cyfeiriodd at ganfyddiadau'r aseiad perfformiad fel a ganlyn –

a) Bod y perfformiad yn dda ar y cyfan gyda 71.4% o ddangosyddion statudol ac allweddol wedi gwella neu heb newid a bod 65.8% yn well na chyfartaledd Cymru.

b) Pobl bregus.

'Roedd 24.9% o bob 1,000 mewn cartrefi gofal o'i gymharu â 26.7% y llynedd. 'Roedd y ganran yn gwella ond yn waeth na chyfartaledd Cymru ond mae targed i gyrraedd cyfartaledd Cymru mewn dwy flynedd. Adolygwyd 69.6% o gynlluniau gofal pobl hŷn o'i gymharu â 62.7% y llynedd. 'Roedd y ganran yn gwella ond yn is na chyfartaledd Cymru ond y bwriad yw cyrraedd cyfartaledd Cymru erbyn diwedd y flwyddyn.

Nododd mai casgliadau'r asesiad perfformiad yw bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd â blaenoriaeth.

Mewn perthynas â hunanarfarniad o berfformiad 2011/12, nododd y sylwadau canlynol –

- AGGCC – adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr yn ddadansoddiad cywir o berfformiad y gwasanaeth.
- Estyn – hunanarfarniad cyn yr arolygiad yn un cadarn ond –
- Yn dibynnu'n ormodol ar ddangosyddion perfformiad a chynnydd ar brosiectau.
- Diffyg dadansoddiad ansoddol parthed defnyddwyr gwasanaethau, paneli ac arolygon dinasyddion, craffu, adroddiadau arolygwyr ac archwilwyr
- Diffyg cysondeb o ran darparu data gwaelodlin a mesur deilliannau ond atebolrwydd aelodau'r Cabinet, Paneli Cyflawni a Gwella, Trefniadau Craffu a Ffordd Gwynedd.

Nododd mai casgliadau'r hunanarfarniad yw y gallai'r trefniadau llywodraethu newydd gefnogi diwylliant hunanarfarnu ond ni welwyd hyn yn llawn eto yn yr hunanasesiad blynyddol.

Cyfeiriodd at ganfyddiadau cynllunio'r gwelliannau am 2012/13. Nododd bod Cynllun Gwella 2012/13 yn cyfateb â gofynion y Mesur ac 'roedd yr arweinyddiaeth a'r cynllunio ariannol yn gryf, ond gallai'r cynllun fod yn fwy eglur.

Nododd mai casgliadau cynllunio'r gwelliannau yw bod y trefniadau cynllunio ariannol a gwasanaethau'n gadarn ar y cyfan, ond nid yw rhai cynlluniau busnes lefel uchel yn canolbwyntio ar flaenoriaethau ac nid yw'r cyhoedd yn cael gwybodaeth glir amdanynt.

Prif gasgliadau'r adroddiad yw bod y Cyngor yn rheoli ei raglen gwella yn dda ond nid yw'r adroddiadau ar berfformiad mor glir a chynhwysfawr ag y gallent fod.

Codwyd cwestiynau gan yr aelodau ac ymatebodd y Rheolwr iddynt.

Diolchwyd i'r Rheolwr am y cyflwyniad.

9. TREFNIADAU LLYWODRAETHU – ADOLYGIAD O HUNANASESIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR

Croesawodd y Cadeirydd, Nigel Griffiths, Arweinydd Asesiad Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod.

Diolchodd yr Arweinydd am y croeso a chyflwynodd adroddiad ar y Trefniadau Llywodraethu. Nododd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol ers 2010/11 a chynnal adolygiad o'i fframwaith llywodraethu o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio'r trefniadau llywodraethu o fewn y Cyngor er mwyn cyflawni dyletswyddau dan Fesur Llywodraeth Leol. Nododd bod yr adolygiad yn canolbwyntio ar roddi sicrwydd ynglyn â'r hunanasesiad ac yn awgrymu gwelliannau i'r Cyngor ar gyfer adolygiad y Cyngor o'i fframwaith llywodraethu yn 2013/14.

Manylodd ar gryfderau a gwendidau'r adolygiad. Nododd mai casgliad cyffredinol yr adolygiad yw nad oes perchenogaeth corfforaethol o hunanasesiad blynyddol y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu ac nid oes trefniadau cadarn ar waith ar gyfer craffu arno a'i herio.

Nododd mai'r camau nesaf fydd –

- a) Coladu'r canfyddiadau ar gyfer pob Cyngor a'u defnyddio i lunio adroddiad cenedlaethol sy'n edrych ar dueddiadau a themâu cyffredin.
- b) Cyhoeddi Llythyr Asesiad Gwella 1 Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf a fydd yn cynnwys crynodeb byr o'r canfyddiadau a'r cynigion ar gyfer gwella.

Codwyd cwestiynau gan yr aelodau ac ymatebodd yr Arweinydd Asesiad Perfformiad iddynt.

Mewn ymateb i rhai o'r pwyntiau a godwyd gan yr Arweinydd Asesiad Perfformiad, cydnabu'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod trefniadau Cyngor Gwynedd yn debyg i sawl Cyngor arall, ond nad yw trefniadau'r Cyngor ymysg yr ymarfer gorau ac 'roedd yn croesawu rhai o'r agweddau yn yr adroddiad sydd yn amlygu fod angen ymrwymiad corfforaethol er mwyn gwella.

Cymerodd yr Uwch Reolwr y cyfle i atgoffa'r Pwyllgor bod Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu bellach wedi ei sefydlu, fel y cyfeiriwyd ato yn Eitem 6, a bydd hwn yn rhoi cyfle i'r Cyngor i wella ei drefniadau i gynnal hunan-asesiad o'i drefniadau llywodraethu. Er bod angen un datganiad llywodraethu blynyddol, nid yw hynny'n golygu mai unwaith y flwyddyn yn unig y dylid cynnal yr hunan-asesiad - dylai fod yn broses parhaus trwy'r flwyddyn.

Pwysleisiodd yr Uwch Reolwr ei fod yn bwysig fod y Pwyllgor Archwilio yn derbyn adborth rheolaidd gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, ac yn gofyn amdano os nad yw'n cael ei dderbyn.

Diolchwyd i'r Arweinydd am y cyflwyniad.

10. ADOLYGIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU O WASANAETH ARCHWILIO MEWNOL CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad yr Archwiliwr Allanol bod y Côt Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r Safon Archwilio Rhyngwladol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried os yw trefniadau rheolaeth ariannol fewnol y Cyngor yn ddigonol. Gan bod archwilio mewnol yn elfen allweddol o'r system rheolaeth fewnol, cwblheir asesiad blynyddol o'i berfformiad.

Yn dilyn cwblhau'r asesiad, 'roedd yr Archwiliwr Allanol o'r farn bod gan y Cyngor wasanaeth archwilio mewnol effeithiol sy'n cydymffurfio â'r rhan fwyaf o agweddau safonau Côt Ymarfer Archwilio Mewnol CIPFA.

Nodwyd eto eleni bod gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (sef yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg) rai cyfrifoldebau gweithredol sy'n dechnegol anghyson gyda'r safon annibyniaeth, ond, wedi trafodaeth gyda'r Pennaeth Cyllid, bod yr Archwiliwr Allanol yn deall nad yw'r Cyngor am newid y strwythur.

'Roedd y Pennaeth Cyllid yn croesawu'r adroddiad calonogol. Mewn perthynas â'r safon annibyniaeth, nododd bod hwn yn risg oedd yr awdurdod wedi ei dderbyn ers blynnyddoedd ac 'roedd yr archwiliwr allanol erbyn hyn yn derbyn y sefyllfa.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

11. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2013 i ystyried pump archwiliad a dderbyniodd gategori barn C yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2013 sef –

- a) Telerau Contractau – Gwiriadau DBS
- b) Gwiriadau DBS Staff
- c) Cyfarpar gan gyn-aelodau
- ch) Rheoli Newid i Systemau Technoleg Gwybodaeth
- d) Prosesu Data Cyflenwyr Ynni

Gwahoddwyd Uwch Reolwr i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sy'n codi o'r archwiliadau a'r gwaith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiadau archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

Cydnabu'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg i'r cyfarfod fod yn un buddiol iawn ac yn fodd o roddi cyfle i drafod yr archwiliadau a gwyntyllu'r camau a roddwyd ar waith i gryfhau rheolaethau. Nododd i'r dyfodol y byddai'n bosibl ehangu rôl y Gweithgor i ystyried archwiliadau allanol yn ogystal, ble roedd gwendidau wedi eu hadnabod.

PENDERFYNWYD

a) Bod gwaith y Gweithgor i barhau a bod y canlynol i wasanaethu arno y tro nesaf -

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cynghorwyr Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan a Michael Sol Owen.

b) Yn deillio o'r archwiliad cyfarpar gan gyn-aelodau, pwysleisio'r angen i bob aelod dderbyn hyfforddiant Diogelu Gwybodaeth a gwneud cais am sicrwydd bod hyn wedi digwydd.

12. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 30 Mehefin 2013

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2013. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod, cyfeiriodd y swyddog at -

- 12 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 1 adroddiadau eraill (memoranda a.y.)
- 3 archwiliadau dilyniant

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol. 'Roedd hyn yn cynnwys tri adroddiad drafft sydd wedi ei ryddhau a 15 o archwiliadau sy'n mynd rhagddynt.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

System Dyledwyr – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol

Nododd aelod i gwmni allanol redeg Hafan Pwllheli ar un adeg gyda'r Cyngor y derbyn incwm eithaf sylweddol. Erbyn hyn mae'r Cyngor ei hun yn rhedeg yr Hafan a nododd bod nifer y rhai sy'n ei ddefnyddio ynghyd â'r incwm wedi gostwng. Gofynnodd a ddylid ailystyried y sefyllfa ac allanoli rheolaeth yr Hafan unwaith yn rhagor.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid bod sefyllfa'r Hafan yn un eithaf dyrus. Cyfeiriodd at adroddiad monitro cyllideb 2013/14 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 16 Gorffennaf 2013 a oedd yn nodi bod incwm yr Hafan yn isel. Pan benderfynwyd i fewnoli rheolaeth yr Hafan, rhybuddiwyd yr adeg hynny y byddai risg ynghlwm â hynny ond bu'r amseriad yn hynod anffodus. Ar ôl cwmp economaidd 2008, sylwyd bod gostyngiad yn nifer defnyddwyr yr angorfeydd. Gofynnwyd eisoes i'r Adran Economi a Chymuned am adolygiad o'r sefyllfa parthed y ffordd ymlaen a bwriad y Pennaeth yw adrodd yn yr hydref.

Llwyddo'n Lleol

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed nifer y cwmnïau a.y. a dderbyniodd grant a aeth yn fethdalwyr, nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod trefniadau monitro wedi derbyn sylw yn yr archwiliad.

Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden

Cyfeiriodd aelod at archwiliad mewnol a wnaed yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf o drefniadau bancio rhai o'r canolfannau hamdden yng Ngwynedd ac iddo dderbyn categori barn C. Nododd yr adeg hynny bod cryn feirniadaeth ar drefniadau rheoli bancio Canolfan Hamdden Blaenau Ffestiniog ac ymddengys bod y sefyllfa yn parhau i fodoli.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y byddai'n bosibl i'r Gweithgor a sefydlwyd i ystyried yr archwiliadau a dderbyniodd categori barn C, ystyried yr archwiliad hwn.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill i 30 Mehefin 2013 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

13. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2013/14

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2013/14.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 1 Gorffennaf 2013 yn ogystal â'r amser a dreulwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

Statws yr Archwiliad	Nifer
Wedi ei gynllunio	80
Crewyd papurau gwaith	1
Gwaith maes ar y gweill	7
Cwblhawyd gwaith maes	2
Disgwyl adolygiad	4
Adroddiad drafft	4
Adroddiad terfynol	9
Cyfanswm	107

Hysbysodd mai targed perfformiad 2013/14 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun addasiadau unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2014. Nododd bod gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol ar ddiwedd chwarter 1 yn 8.4% ac allan o'r 107 archwiliad unigol, 'roedd 9 wedi eu rhyddhau'n derfynol erbyn diwedd y chwarter. Mae'r perfformiad felly yn is na'r proffil a osodwyd, sy'n achosi peth pryder, ond yn destun adolygiad parhaus er mwyn adfer y sefyllfa cyn diwedd y flwyddyn. 'Roedd colli adnoddau aelodau staff a.y. yn ddiweddar yn un ffactor am hyn. Nododd hefyd bod angen ailedrych ar yr amser a dreulir ar rhai o'r archwiliadau.

Mewn perthynas ag addasiadau i'r cynllun, nododd y swyddog bod un addasiad yn unig i'r cynllun sef ychwanegiad i'r archwiliad o'r Grant Blas am Oes.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2013/14.

14. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y cymeradwywyd Cylch Gorchwyl ar gyfer Archwilio Mewnol, a baratowyd yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2006, gan y Pwyllgor Archwilio ar 27 Medi 2012

Nododd y daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus i rym ar 1 Ebrill 2013, gan ddisodli Côd Ymarfer CIPFA. Un o ofynion y Safonau Archwilio Mewnol newydd yw'r angen i lunio Siarter Archwilio Mewnol yn hytrach na "Cylch Gorchwyl". Mae'r Safonau, yn ogystal â Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol ategol a gyhoeddwyd gan CIPFA, yn manylu ar yr hyn y dylid ei gynnwys mewn Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer Corff Llywodraeth Leol. Mae'r Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol yn nodi bod cymhariaeth

rhwng y Cylch Gorchwyl sy'n ofynnol dan Côt 2006 a Siarter Archwilio Mewnol yn dangos y gwahaniaethau canlynol yn unig –

- a) 'Roedd y Cylch Gorchwyl yn nodi cyfraniad archwilio mewnol i'r adolygiad o effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli gan ei wneud yn angenrheidiol, a galluogi'r Pennaeth Archwilio Mewnol i gyflwyno barn archwilio blynyddol.
- b) Mae'r Safonau yn bennaf yn gofyn am yr un cynnwys ac yn y Cylch Gorchwyl ar wahân i rhai pwyntiau penodol a nodir yn y gofyniad sector cyhoeddus "PSIAS 1000". Rhoddodd fanylion am yr hyn y dylid ei gynnwys mewn Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer Corff Llywodraeth Leol – hyn yn ôl y Safonau a Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd gan CIPFA.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol a chefnogi Archwilio Mewnol i gyflawni ei rôl.

Ar derfyn y cyfarfod, cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith mai hwn fydd cyfarfod olaf o'r Pwyllgor hwn i Gwyn Parry Williams, Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu, gan y bydd yn ymddeol diwedd y mis hwn. Diolchodd iddo am ei wasanaeth ar hyd y blynyddoedd a dymunodd ymddeoliad hapus iddo.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 1.10pm

CYFARFOD	PWYLLGOR ARCHWILIO.
DYDDIAD	26, MEDI, 2013
TEITL	ADOLYGU CYFANSODDIAD Y CYNGOR.
PWRPAS YR ADRODDIAD	GOFYN I'R PWYLLGOR SEFYDLU GWEITHGOR I ADOLYGU'R CYFANSODDIAD.
AWDUR	DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO

1. Wrth adrodd i'r Cyngor llawn ar yr 2^{il} o Fai, 2013 ar ddiwygiadau i'r Cyfansoddiad, fe eglurais fod gwaith ar y gweill dan arweiniad y Gymdeithas sy'n cynrychioli Swyddogion Monitro yng Nghymru, gyda chefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru, i lunio Cyfansoddiad safonol ar gyfer cynghorau unedol Cymru. Yr ysgogiad ar gyfer y gwaith oedd y ffaith bod pob Cyngor yng Nghymru bellach gyda threfn weithrediaeth (Arweinydd a Chabinet), a bod gwahaniaethau sylweddol yn amlygu eu hunain rhwng y gofynion cyfreithiol yng Nghymru o'u cymharu â rhai Lloegr yn sgil deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru.
2. Mae'r Cyfansoddiad safonol bellach yn barod ac mae'n amserol ystyried ei fabwysiadu. Mae'r Cyfansoddiad yn parhau i ganiatau amrywiadau lleol o Gyngor i Gyngor, ond y gobaith yw y bydd yn rhoi gwell cysondeb ar ddehongliadau o'r Cyfansoddiad ar draws Cymru ac y bydd ffurf y ddogfen yn haws i'w deall.
3. Dan y trefniadau newydd, gan y Pwyllgor Archwilio mae'r swyddogaeth o adolygu ac asesu trefniadau'r Awdurdod ar gyfer llywodraethu corfforaethol a gwneud argymhellion ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny. Ystyrir bod Cyfansoddiad y Cyngor a'i gynnwys yn rhan annatod o drefniadau'r Cyngor ar gyfer llywodraethu corfforaethol da, ac mai'r Pwyllgor Archwilio felly yw'r pwyllgor priodol i roi ystyriaeth i'r ddogfen gyfansoddiadol. Y Cyngor Llawn sydd a'r hawl i fabwysiadu y Cyfansoddiad.
4. Mae gwaith manwl i'w wneud i edrych ar fanylion y Cyfansoddiad newydd. Byddai'n haws i'r gwaith hwn gael ei gwblhau gan Weithgor Tasg a Gorffen yn hytrach na'r Pwyllgor llawn.
5. Argymhellir felly bod y Pwyllgor yn codi gweithgor o hyd at saith aelod sydd â diddordeb yn y gwaith i ymgymryd â'r gwaith manwl o ystyried y ddogfen gyfansoddiadol safonol a chynnig pa amrywiadau

lleol i Wynedd sydd yn addas. Nid oes raid i weithgor o'r fath fod ar sail cydbwysedd gwleidyddol ond rwy'n awgrymu y byddai'n fanteisiol yn y pen draw pe gellid cael cynrychiolaeth o wahanol grwpiau ar y gweithgor.

6. O ran amserlen rhagwelir y bydd y gweithgor yn ymgymryd â'i waith ac yn ymgynghori gyda phwyllgorau perthnasol eraill dros y misoedd nesaf gan adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ac yna cyflwyno'r ddogfen gyfansoddiadol newydd i'r Cyngor llawn yn y cyfarfod blynyddol nesaf.

ARGYMHELLIAD.

7. Bod y Pwyllgor yn sefydlu Gweithgor Tasg a Gorffen o hyd at saith aelod i adolygu Cyfansoddiad y Cyngor.

CYFARFOD	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD	26 Medi 2013
TEITL	Cyfrifon Terfynol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 ac Archwiliad perthnasol
PWRPAS	Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none"> • Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad; • Adroddiad 'ISA260' Swyddfa Archwilio Cymru; • Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1).
ARGYMHELLIAD	Derbyn a nodi'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr
AWDUR	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

- 1. CYFRIFON 2012/13**
Bydd aelodau yn cofio cyflwynwyd Datganiad o Gyfrifon 2012/13 (cyn archwiliad) i'r Pwyllgor Archwilio ar 18 Gorffennaf 2013, pryd bu craffu priodol.
- 2. ARCHWILIAD GAN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**
Nodwyd yng nghyfarfod Gorffennaf byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru, a cyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan yr Archwilydd Penodedig (Anthony Barrett) yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru.
- 3. DATGANIADAU ARIANNOL ÔL-ARCHWILIAD AM 2012/13**
Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol ôl-archwiliad o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2012/13. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u amlinellu yn Atodiad 3 i'r adroddiad 'ISA260' gan Swyddfa Archwilio Cymru.
- 4. ARGYMHELLIAD**
Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio ystyried a chymeradwyo'r –

 - Adroddiad 'ISA260' gan Swyddfa Archwilio Cymru;
 - Datganiad o'r Cyfrifon 2012/13 (ôl- archwiliad).
- 5. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH**
Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru) wedi i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo'r uchod.
- 6. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG**
Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Anthony Barrett o Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon.

**DATGANIAD O'R
CYFRIFON
2012/13**

MYNEGAI

	Tudalen
Rhagymadrodd Eglurhaol	2 - 7
Datganiad Cyfrifoldebau	8
Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau	9
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	10
Y Fantolen	11
Datganiad Llif Arian	12
Nodiadau i'r Cyfrifon	13 – 93
Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd a'r Nodiadau	94 – 124
Adroddiad yr Archwilwyr – Cyngor Gwynedd	125 – 126
Atodiad A – Dadansoddiad Cyfrif Incwm a Gwariant	127 – 128
Atodiad B – Y Gronfa Degwm	129
Atodiad C – Cronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan	130
Atodiad Ch – Datganiad Llywodraethu Blynyddol	131 – 143

RHAGYMDRODD EGLURHAOL

Rhagarweiniad

Mae cyfrifon Cyngor Gwynedd am 2012/13 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 9 i 124.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan yr Awdurdod, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae sefyllfa trethiant yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Hwn yw prif gyfrif refeniw y Cyngor. Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisiau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae Awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dengys y sefyllfa trethiant yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.
- **Y Fantolen** - sydd yn gosod allan sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2013.
- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyngor yn ystod 2012/13 at ddibenion refeniw a chyfalaf.
- **Cyfrifon Cronfa'r Degwm a Chronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan.**
- **Cyfrifon a Mantolen Cronfa Bensiwn Gwynedd.**

Cefnogir y cyfrifon hyn gan y Rhagymadrodd yma, y Polisiau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

GWARIANT REFENIW YN 2012/13

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 10 fod gwariant refeniw gros y Cyngor ar lefel 'Cost Gwasanaethau' yn £349m yn ystod 2012/13, gyda'r sefyllfa net yn £212m.
- Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2012/13 i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 11 Mehefin 2013. Cymeradwyodd aelodau'r Cabinet danwariant net gwasanaethau o £64k i'w cario drosodd am y flwyddyn, trosglwyddiad net o £178k i reserfau penodol ac nid oedd unrhyw symudiad yn y Balansau Cyffredinol.

TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, ceir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

	Cyllideb £'000	Gwir £'000	Gwahaniaeth £'000
Gwariant Net ar Weithgareddau	231,493	231,377	(116)
Swm Aderannol i'w gario ymlaen ar ddiwedd blwyddyn	0	64	64
	231,493	231,441	(52)
Ariannwyd gan:-			
Incwm y Dreth Cyngor	(63,426)	(63,374)	52
Cyfran o'r Trethi Annomestig Cenedlaethol	(32,801)	(32,801)	0
Grantiau Llywodraeth Cyffredinol	(135,266)	(135,266)	0
	0	0	0

- Mae'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 9 a 10 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng ‘Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)’ (Tabl 1) i'r fformat Incwm a Gwariant sydd yn adlewyrchu y Strwythur Rheolaethol Adrannol.

Adran	Adroddiad Perfformiad £'000	Addasiad Trawsddodiad £'000	Datganiad Incwm a Gwariant £'000
Adnoddau Dynol	182	(1)	181
Cyllid	1,244	(1)	1,243
Democratiaeth a Chyfreithiol	873	0	873
Gofal Cwsmer	2,457	(1)	2,456
Strategol a Gwella	666	0	666
Addysg	87,387	1,328	88,715
Economi a Chymuned	6,151	287	6,438
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	26,747	(88)	26,659
Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)	11,301	(189)	11,112
Ymgynghoriaeth Gwynedd	1,432	(140)	1,292
Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru	(70)	(22)	(92)
Darparu a Hamdden	5,778	(105)	5,673
Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol	62,607	(55)	62,552
Tim Rheoli Corfforaethol	52	0	52
Corfforaethol	4,197	(185)	4,012
Cronfeydd	513	0	513
Cost Gwasanaethau	211,517	828	212,345
Eraill (Yn cynnwys addasiad Canolog a Chorfforaethol)	19,924	(828)	19,096
Cyfanswm	231,441	0	231,441

* Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at y cyfraniad net i ag o reserfau a'r addasiadau angenrheidiol yn ymwneud ag yswiriant.

- Gweler dadansoddiad fformat safonol llawn Incwm a Gwariant ar dudalen 10.
- Gweler dadansoddiad llawn o symiau adroddwyd ar gyfer penderfyniadau dyrannu adnoddau yn Nodyn 30, tudalen 71.
- Gweler dadansoddiad ar sail Côt Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth (SeRCOP) yn Atodiad A.
- **Eitemau Materol o Incwm a Gwariant**

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- Symudiadau penodol o fewn Darpariaethau (Nodyn 24).
- Cynnydd a gostyngiad mewn grantiau penodol (Nodyn 35) gan gynnwys Grant Cynnal Refeniw, Llwybrau 14-19, Ysgolion 21^{ain} Ganrif, a Grant Cefnogi Pobl.
- Gostyngiad yn yr Enillion a Ddisgwylir ar Asedau'r Cynllun Pensiwn (Nodyn 12 a 42) o ganlyniad i newid i IAS19 sydd yn defnyddio cyfradd ddisgowntio is na'r rhagolygon mewn blynyddoedd blaenorol.

Eitem eithriadol (Darpariaeth i adfer safleoedd tirlenwi)

Mae pob awdurdod lleol sydd yn, neu wedi bod yn, gweithredu safleoedd tirlenwi gydag ymrwymiad cyfreithiol parthed adferiad, ôl-ofalaeth a monitro eu safleoedd am o leiaf 30 mlynedd ar ôl cau a chapio'r safle. Yn dilyn cyhoeddi cyfarwyddiadau technegol yn y maes o'r gofyniad i awdurdodau yma adnabod darpariaeth lawn ar gyfer y gwaith gan sicrhau cysondeb yn y sail cyfrifo, roedd angen ail-ddatgan ffigyrau 2011/12 yng nghyfrifon 2012/13 i adlewyrchu'r holl newidiadau, gan drin y ffigyrau fel 'Eitem Eithriadol' yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr oherwydd natur unwaith ac am byth yr addasiad i ffigyrau 2011/12 (gweler Nodyn 3 Addasiadau Cyfnod Blaenorol am fwy o wybodaeth).

Mae'r eitem eithriadol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (2011/12) yn cydnabod yr amhariad sydd yn berthnasol i'r ymrwymiad uchod, ar y sail na fydd unrhyw fudd economaidd / gwasanaeth dichonol yn cronni i'r awdurdod gan fod mwyafrif y safleoedd tirlenwi bellach wedi cau. Fodd bynnag mae effaith ar ofynion treth o'r amhariad yma yn niwtral.

- **Effaith yr Hinsawdd Economaidd Cyfredol**

Ers 2008/09 bu problemau digynsail yn y sefyllfa ariannol byd-eang. Oherwydd y sefyllfa gyffredinol yma, mae'r Awdurdod wedi addasu ei holl gynlluniau ariannol yn briodol, a chadw lefel darbodus o falansau a reserfau.

GWARIANT CYFALAF YN 2012/13

Yn 2012/13 gwariodd y Cyngor £38m ar gynlluniau cyfalaf. Dengys y tabl canlynol fanylion y gwariant yma ynghyd â sut y'i arianwyd.

CRYNODEB O WARIANT CYFALAF A'I ARIANNU		
2011/12		2012/13
£'000		£'000
259	Adnoddau Dynol	74
8,422	Addysg	6,275
215	Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru	0
0	Cyllid	16
378	Darparu a Hamdden	276
3,206	Economi a Chymuned	5,502
0	Democratiaeth a Chyfreithiol	0
4,345	Gofal Cwsmer	6,966
2,955	Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol	3,802
6,544	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	6,753
8,284	Rheoleiddio	8,633
80	Strategol a Gwella	4
21	Tai Cyngor	24
392	Ymgynghoriaeth Gwynedd	28
1	Corfforaethol	0
35,102		38,353
	ARIANNWYD GAN -	
8,707	Benthyca	10,914
16,108	Grantiau a Chyfraniadau	19,170
2,789	Derbyniadau Cyfalaf	2,344
7,498	Refeniw a Chronfeydd Eraill	5,925
35,102		38,353

- Cynhwysir Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf drwy Statud o £6,451,780 yn y tabl uchod. Ad-dalwyd y gwariant yma i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm gwariant ar Asedau Anghyfredol ac Asedau ar gael i'w gwerthu oedd £31,900,950 fel a ddangosir yn Nodyn 15 a 22 ar dudalennau 48 i 50 a 63.
- Roedd Dyled Benthyciadau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2013 yn £113.9m – gostyngiad o £1.2m (o £115.1m) yn ystod y flwyddyn. Gwnaethpwyd ad-daliadau o £1.3m yn unol â thelerau'r benthyciadau unigol.

Darpariaethau ac Arian wrth Gefn

Yn ychwanegol at y Balans Cyffredinol o £8.0m roedd gan y Cyngor ddarpariaethau (fel a ddiffinir) o £13.1m, reserfau eraill a glustnodwyd o £49.9m a balansau ysgolion o £3.8m, sef cyfanswm o £74.8m. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 10 a 24.

Cronfa Bensiwn

Mae gan y Cyngor (fel cyflogwr) ymrwymiad net yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymadau y Gronfa Bensiwn Gwynedd, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19. Mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans, o gyfran y Cyngor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Mae'r ymrwymiad net yma wedi cynyddu o £40,026,000 i £168,179,000 yn 2012/13. Gweler Nodyn 42 am wybodaeth pellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau y farchnad gynyddu neu lleihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli yr effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau y farchnad yn cael ar y Gronfa Bensiwn.

Cronfa Bensiwn Gwynedd

Dengys cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd (tudalennau 94 i 124) gynydd yn ystod y flwyddyn o £143.9m yn asedau net y Gronfa, ar werth y farchnad, i £1,193.6m. Roedd gwerth llyfr yr Asedau net ar 31 Mawrth 2013 yn £940.3m (2012: £890.1m).

Polisiau Cyfrifo

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg cymeradwy perthnasol ac maent wedi'u egluro yn llawn yn y Polisiau Cyfrifo yn Nodyn 1 o'r Cyfrifon ar dudalen 13.

Newidiadau mewn Polisiau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon

Ni gyflwynwyd unrhyw bolisiau newydd yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* ar gyfer 2012/13.

GWYBODAETH BELLACH

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.gov.uk.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

William E Jones
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679406

neu

Ffion Madog Evans
Rheolwr Cyllid - Adnoddau a Chorfforaethol
01286 679133

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu yn y wasg leol ar yr adeg briodol.

CYNGOR GWYNEDD

DATGANIAD O'R CYFRIFON

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB YR AWDURDOD

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad ei faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r swyddog hwnnw. Cyfrifoldeb yr awdurdod hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

26 Medi 2013

Cadeirydd Pwyllgor Archwilio

CYFRIFOLDEB PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac wedi cydymffurfio â'r Côd Ymarfer.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol ac amserol ac fe gymerwyd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2013 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



18 Medi 2013

Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan yr Awdurdod, wedi eu dadansoddi'n 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant neu leihau trethiant lleol) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Gwarged neu (Ddiffyg) ar Ddarparu Gwasanaethau yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Awdurdod, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sy'n ofynnol eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai i bwrsas gosod treth y cyngor a rhenti. Mae'r Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd yn dangos balans statudol y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o reserfau a glustnodwyd a gyflawnir gan y Cyngor.

Nodyn	Balans Cronfa Gyffredinol £'000	Reserfau Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd £'000	Cyfanswm Balansau Ysgollon £'000	Cyfrif Refeniw Tai £'000	Reserf Derbyniadau Cyfalaf £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio £'000	Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy £'000	Reserfau na ellir eu defnyddio £'000	Cyfanswm Reserfau'r Awdurdod £'000
Balans 31 Mawrth 2011 a ddygwyd ymlaen	(8,194)	(50,789)	(4,486)	(1,727)	(5,198)	(1,217)	(71,611)	(111,662)	(183,273)
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2011/12</u>									
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau	(4,567)	0	0	0	0	0	(4,567)	0	(4,567)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0	0	0	0	0	0	46,762	46,762
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(4,567)	0	0	0	0	0	(4,567)	46,762	42,195
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	9 4,494	0	0	0	1,547	(1,211)	4,830	(4,830)	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd	(73)	0	0	0	1,547	(1,211)	263	41,932	42,195
Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd	216	(264)	48	0	0	0	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2011/12	143	(264)	48	0	1,547	(1,211)	263	41,932	42,195
Balans 31 Mawrth 2012 a ddygwyd ymlaen	(8,051)	(51,053)	(4,438)	(1,727)	(3,651)	(2,428)	(71,348)	(69,730)	(141,078)
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2012/13</u>									
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau	(8,185)	0	0	0	0	0	(8,185)	0	(8,185)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0	0	0	0	0	0	46,412	46,412
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(8,185)	0	0	0	0	0	(8,185)	46,412	38,227
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	9 9,969	0	0	0	1,411	538	11,918	(11,918)	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd	1,784	0	0	0	1,411	538	3,733	34,494	38,227
Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd	10 (1,784)	1,159	625	0	0	0	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2012/13	0	1,159	625	0	1,411	538	3,733	34,494	38,227
Balans 31 Mawrth 2013 a ddygwyd ymlaen	(8,051)	(49,894)	(3,813)	(1,727)	(2,240)	(1,890)	(67,615)	(35,236)	(102,851)

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR – 2012/13

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisiau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae Awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dengys y sefyllfa trethiant yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

2011/12			2012/13			
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net	Nodyn	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
17,342	(7,588)	9,754		16,454	(7,117)	9,337
29,114	(9,954)	19,160		27,911	(9,668)	18,243
10,011	0	10,011		0	0	0
10,911	(6,313)	4,598		14,164	(8,908)	5,256
109,916	(20,321)	89,595		116,792	(26,540)	90,252
18,826	(3,225)	15,601		18,062	(2,432)	15,630
30,368	(12,960)	17,408		30,279	(12,076)	18,203
39,131	(35,031)	4,100		43,205	(37,537)	5,668
55,481	(14,883)	40,598		58,472	(15,348)	43,124
11,841	(10,536)	1,305		12,215	(10,655)	1,560
9,990	(5,158)	4,832		8,991	(4,114)	4,877
228	0	228		195	0	195
343,159	(125,969)	217,190		346,740	(134,395)	212,345
18,588	(401)	18,187	11	18,882	(42)	18,840
6,529	(901)	5,628	12	9,841	(682)	9,159
0	(245,572)	(245,572)	13	0	(248,529)	(248,529)
368,276	(372,843)	(4,567)		375,463	(383,648)	(8,185)
		4,862	26			5,461
		0				0
		41,900	42			40,951
		46,762				46,412
		42,195				38,227

* Mae'n ofynnol ar yr Awdurdod ddarparu ar gyfer y gost o adfer ei safleoedd tirlenwi, oedd yn golygu fod rhaid gwneud addasiad ôl-weithredol yng nghyfrifon 2011/12 ac nid yn 2012/13, fel cydnabyddiaeth o'r amhariad sydd yn berthnasol i'r ymrwymiad. (Gweler hefyd Nodyn 3 Addasiadau Cyfnod Blaenorol am fwy o wybodaeth).

** Adlewyrchu yr addasiad perthnasol i Enillion a Ddisgwyllir ar Asedau'r fel y manylir yn Nodyn 12.

Y FANTOLEN – 31 MAWRTH 2013

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymadau'r Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai ymrwymadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan yr awdurdod. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd (er enghraifft, y Reserf Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddir i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled yn unig). Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ailbrisio), ble nad yw'r symiau ar gael i'w ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel a ddengys ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifeg a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

1 Ebrill 2011 £'000	31 Mawrth 2012 £'000		Nodyn	31 Mawrth 2013 £'000
355,220	363,633	Eiddo, Offer a Chyfarpar	15	368,877
93	93	Asedau Treftadaeth	16	93
298	298	Eiddo Buddsoddi	17	824
107	84	Asedau Gweddilliol	15	734
585	296	Buddsoddiadau Tymor Hir	18	77
4,555	3,898	Dyledwyr Tymor Hir	18	4,191
360,858	368,302	Asedau Tymor Hir		374,796
50,116	35,883	Buddsoddiadau Tymor Byr	18	35,629
2,052	1,607	Asedau ar gael i'w Gwerthu	22	2,905
1,251	1,380	Stoc	19	1,257
27,134	28,699	Dyledwyr Tymor Byr	20	44,872
19,172	17,687	Arian a Chywerthydd Arian	21	13,091
99,725	85,256	Asedau Cyfredol		97,754
(15,554)	(6,904)	Gorddrafft Banc	21	(11,787)
(5,608)	(2,050)	Benthyciadau Tymor Byr	18	(18,131)
(44,343)	(43,041)	Credydwyr Tymor Byr	23	(58,777)
(906)	(2,417)	Darpariaethau Tymor Byr	24	(1,187)
(1,829)	(3,629)	Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o flaen llaw	35	(2,523)
(68,240)	(58,041)	Ymrwymadau Cyfredol		(92,405)
(251)	(202)	Credydwyr Tymor Hir	18	(151)
(14,324)	(12,757)	Darpariaethau Tymor Hir	24	(11,899)
(113,866)	(113,000)	Benthyciadau Tymor Hir	18	(95,811)
(90,421)	(128,153)	Ymrwymiad Pensiwn	42	(168,179)
(49)	(29)	Ymrwymadau Prydlesau Cyllidol	38	(15)
(170)	(298)	Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o flaen llaw	35	(1,239)
(219,081)	(254,439)	Ymrwymadau Tymor Hir		(277,294)
173,262	141,078	Asedau Net		102,851
(71,611)	(71,348)	Reserfau Defnyddiadwy	25	(67,615)
(101,651)	(69,730)	Reserfau na ellir eu defnyddio	26	(35,236)
(173,262)	(141,078)	Cyfanswm Reserfau		(102,851)

DATGANIAD LLIF ARIAN – 2012/13

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chywerthoedd arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Awdurdod yn cynhyrchu a defnyddio arian a chywerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Awdurdod a ariennir trwy incwm grant a threthiant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Awdurdod yn y dyfodol. Mae'r llif arian a gyfyd o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol i ragweld yr hawl sydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian yr Awdurdod yn y dyfodol.

2011/12 £'000		Nodyn	2012/13 £'000
(4,567)	(Gwarged) neu Ddiffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau		(8,185)
(28,421)	Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol	27a	(21,615)
1,267	Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu	27b	856
(31,721)	Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu	27c	(28,944)
20,132	Gweithgareddau Buddsoddi	28	37,293
4,424	Gweithgareddau Ariannu	29	1,130
(7,165)	(Cynnydd) / Lleihad net mewn arian a chywerthoedd arian		9,479
3,618	Arian a chywerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd	21	10,783
10,783	Arian a chywerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd	21	1,304

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO

I.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod yn y flwyddyn ariannol 2012/13 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2013. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2012/13* a'r *Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth 2012/13*, ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) a chyfarwyddiadau statudol a gyhoeddir yn unol â Deddf 2005.

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu'n bennaf yn y Datganiad o'r Cyfrifon, wedi'i addasu gan ailbrisiad rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

Mewn perthynas â pholisi yn ymwneud a chyfalafu gwariant, ein hymarferiad yw gweithredu ar sail natur y gwariant yn hytrach na lefel penodol o wariant.

I.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn cymeryd lle, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y referniw o werthu nwyddau yn cael ei adnabod pan fydd yr Awdurdod yn trosglwyddo'r risgiau arwyddocaol a buddion perchnogaeth i'r prynwr, a pan mae'n debygol y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Awdurdod.
- Bydd referniw o ddarparu gwasanaeth yn cael ei adnabod pan fydd yr Awdurdod yn gallu mesur yn ddibynadwy'r canran sydd wedi ei gwblhau o'r trafodyn ynghyd â'r tebygolrwydd y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Awdurdod.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen pan fod balansau o'r fath yn cael eu cysidro yn faterol berthnasol.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pryd fydd taliadau wedi eu gwneud.
- Bydd llog sy'n cael ei dderbyn o fuddsoddiadau yn ogystal â llog fydd yn daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrifo yn ôl eu trefn fel incwm a gwariant ar sail gyfradd llog effeithiol i'r erfyn cyllidol perthnasol yn hytrach nac i'r llif arian sydd wedi eu sefydlogi neu wedi'i bennu gan y cytundeb.
- Ble mae referniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu dalu allan, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid ysgrifennu'r dyledion lawr a chodi tal allan o gyfrif referniw am yr incwm fydd yn debygol o beidio cael ei gasglu.

I.3 Arian a Chywerthoedd Arian

Caiff unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan yr Awdurdod, y mae modd eu troi'n arian yn rhwydd, gyda risg isel o newid yn eu gwerth, eu categorioedd fel cywerthyddoedd arian a'u cynnwys fel Arian a Chywerthoedd Arian ar y Fantolen. Adnau tymor byr gyda sefydliadau ariannol sydd ar gael ar unwaith ar ddyddiad y fantolen yw'r buddsoddiadau a gynhwysir yn y diffiniad hwn.

I.4 Asedau Dibynnol

Mae ased dibynnol yn codi pan mae digwyddiad ble mae posibilrwydd caiff yr Awdurdod ased ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall digwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod.

Nid yw asedau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen, ond yn hytrach mewn nodyn i'r cyfrifon os yw'n debygol bydd mewnllif o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth. Nid oes gan Gyngor Gwynedd asedau dibynnol.

1.5 Ymrwymiadau Dibynnol

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fod digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran yr Awdurdod ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall digwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod. Ceir ymrwymiad dibynnol yn ogystal pan bod amgylchiadau y gwneir darpariaeth amdanynt fel arfer, ond unai, nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu, ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw ymrwymiadau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen, ond yn hytrach mewn nodyn i'r cyfrifon.

1.6 Corfforaethol a Democrataidd Craidd

Mae'r pennawd Corfforaethol a Democrataidd Craidd yn cynnwys eitemau sydd yn berthnasol i'r Cynrychiolaeth Democrataidd a Rheolaeth a Rheolaeth Corfforaethol. Mae'r Cynrychiolaeth Democrataidd a Rheolaeth yn cynnwys ffurfio polisau corfforaethol a gweithgareddau aelodau tra mae Rheolaeth Corfforaethol yn cynnwys costau sydd yn gysylltiedig â rhedeg yr Awdurdod.

1.7 Buddiannau Gweithwyr

1.7.1 Buddion sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Awdurdod. Gwneir darpariaeth ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb eu cymered cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael eu cario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar raddfeydd cyflog sydd yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol ddilynol, sef y flwyddyn mae'r gweithiwr yn derbyn y budd o'r gwyliau. Mae cost y ddarpariaeth yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ond mae wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad Symudiadau mewn Darpariaethau fel bod cost y gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn y cymerir y gwyliau.

1.7.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae'r rhain yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymdeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn tâl diswyddo gwirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad croniat yn erbyn y llinell Costau Heb eu Dosrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr os yw'r Awdurdod yn amlwg yn ymrwymedig i derfynu cyflogaeth swyddog neu ddsbarth o swyddogion neu yn gwneud cynigion i annog diswyddo gwirfoddol.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai Cronfa'r Cyngor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn hytrach na'r swm wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion pensiynau ychwanegol terfynu a rhoi yn eu lle y debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn.

1.7.3 Buddion Ol-gyflogaeth

Mae gweithwyr yr awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar rhan Adran Addysg Llywodraeth San Steffan.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymf-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Awdurdod.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer y cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymiadau'r buddion yn cael eu hadnabod i'r Awdurdod. Mae'r Cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymiadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu hadnabod yn y Fantolen. Mae'r llinell Gwasanaethau Plant ac Addysg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

1.7.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y Gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig:

Mae ymrwymiadau'r gronfa sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwariad drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.y.b. yn ogystal â thafuniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymiadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 4.5% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i saith cydran:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle mae'r gweithwyr yn gweithio.
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn y blynyddoedd cynt - y debyd yn mynd i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau heb eu Dosrannu.
- Cost Llog – y cynnydd disgwylidig yng ngwerth presennol yr ymrwymiadau yn ystod y flwyddyn fel y maent yn symud flwyddyn yn agosach at amser talu - y debyd yn mynd i linell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Enillion disgwylidig ar asedion - enillion blynyddol buddsoddiadau ar asedion y gronfa a briodolir i'r Awdurdod, yn seiliedig ar gyfradd disgownt yn unol a'r fersiwn diweddaraf IAS19 – gyda'r credyd yn mynd i linell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Enillion a cholledion ar setliadau a chwtogiadau - canlyniad o weithredu i ryddhau'r Awdurdod o'r ymrwymiadau neu ddigwyddiadau sydd yn gostwng gwasanaeth disgwylidig y gweithwyr yn y dyfodol neu ostwng cronid buddion y gweithwyr- yn cael eu debydu neu eu credydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau fel rhan o'r Costau heb eu Dosrannu.
- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddarau ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn.
- Cyfraniadau a delir i'r Gronfa Bensiwn - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymiadau; sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i Gronfa'r Cyngor dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, golygir hyn bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydu a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi yn eu lle'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Gronfa Bensiwn yn

fesur o effaith buddiol i Gronfa'r Cyngor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

1.7.5 Buddion Dewisol

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o'r staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisiau a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

1.8 Digwyddiadau Ôl-fantolen

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ag anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd â amcangyfrif o'r effaith ariannol (lle gellid amcangyfrif y gost) yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

1.9 Eitemau Eithriadol ac Addasiadau Cyfnod Blaenorol

Pan fo eitemau o incwm a gwariant yn faterol, yna caiff eu natur a'u gwerth eu datgelu ar wahân, unai ar wyneb y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, yn ddibynnol ar pha mor arwyddocaol yw'r eitemau i ddealltwriaeth o berfformiad ariannol yr Awdurdod.

Gall yr angen i wneud addasiadau blwyddyn blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad blwyddyn blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisiau cyfrifo yw pan yn ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth mwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

1.10 Offerynnau Ariannol

Offeryn Ariannol yw unrhyw gytundeb sydd yn creu ased ariannol mewn un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti mewn endid arall. Felly, mae'r term offeryn ariannol yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymiadau ariannol.

Mewn cydymffurfiad gyda'r gofynion adolygwyd asedau ac ymrwymiadau ariannol y Cyngor er mwyn eu categoreiddio a phenderfynu ar y driniaeth gywir. Adnabuwyd yr offerynnau canlynol wrth wneud yr adolygiad hwn:

Ymrwymiadau ariannol

- Credydwyr masnachol a chredydwyr eraill.
- Benthyciadau tymor hir gan gynnwys premiwm a disgownts ar setliad cynnar benthyciadau sydd wedi eu gohirio.
- Gwarantau ariannol.

Asedau ariannol

- Adnau banc
- Dyledwyr masnachol
- Benthyciadau derbyniadwy

- Buddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn prasio ei ymrwymadau ariannol ar gost wedi ei amorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Cyfrifir llog i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Oherwydd bod benthyciadau tymor hir y Cyngor i gyd ar gyfraddau sefydlog, telir y llog cronodig am y flwyddyn.

Mae enillion neu golledion sydd yn codi ar ad-daliad cynnar yn cael eu trin fel eu bod yn diddymu'r ymrwymiad ariannol oni bai eu bod yn cwrdd ag amodau caeth lle bo modd trin y trafodyn fel addasiad o amodau'r benthyciad presennol ac addasu gwerth y benthyciad newydd gydag unrhyw enillion neu golledion.

Dosbarthir mwyafrif asedau ariannol y Cyngor fel benthyciadau neu ddyledwyr ac felly eu prasio ar sail cost wedi ei amorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol.

Caiff unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan yr Awdurdod y mae modd eu troi'n arian yn rhwydd gyda risg isel o newid yn eu gwerth, eu categorio fel cywerthyddion arian a'u cynnwys fel Arian a Chywerthydd Arian ar y Fantolen. Adnau tymor byr gyda sefydliadau ariannol sydd ar gael ar unwaith ar ddyddiad y fantolen yw'r buddsoddiadau a gynhwysir yn y diffiniad hwn.

Mesurir Credydwyr a Dyledwyr tymor byr sydd heb gyfradd llog datganedig ar sail swm yr anfoneb wreiddiol. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddyledwyr a chredydwyr masnachol.

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ariannu a Chyfrifo am Gyfalaf) (Cymru) (Diwygiedig) 2007 yn caniatáu i effaith ailddatgan offerynnau ariannol gael ei addasu trwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau. Caiff yr addasiadau canlyniadol eu dangos yn y Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol a'r Reserf Offerynnau Ariannol ar gael i'w gwerthu ar y Fantolen.

Cyn y gofynion newydd yma, lle roedd ail-brynu benthyciadau yn gysylltiedig gydag ail-ariannu neu ail-strwythuro benthyciadau gyda'r un effaith economaidd yn gyffredinol pan welir yn ei gyfanrwydd, polisi y Cyngor oedd adnabod enillion neu golledion dros oes y benthyciad olynol neu gyfnod o 10 mlynedd, pa bynnag sydd fyraf. Mae'r addasiad a ganiateir o dan statud yn golygu bod yr effaith net ar falansau'r Cyngor yn gyfatebol i'r trosglwyddiad o dan y polisi yma.

1.11 Trosiad Arian Tramor

Caiff trafodion mewn arian parod eu trosglwyddo i sterling ar y gyfradd a oedd yn bodoli ar y dyddiad hwnnw. Caiff gwahaniaethau cyfnewid eu cymeryd i ystyriaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff unrhyw falans a ddeler mewn arian tramor ei drosi ar y raddfa ar 31 Mawrth.

1.12 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail cronodol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r awdurdod wedi ei fodloni.

Oherwydd y gofyn i ariannu gwariant cyfalaf fel rhan o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf, nid yw'r grantiau a chyfraniadau sy'n ariannu gwariant cyfalaf sydd wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wir incwm. Felly, mae'r awdurdod yn cyfrifo'r symiau hyn fel a ganlyn:

- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei dderbyn, a bod amodau'n parhau heb eu bodloni ar ddyddiad y Fantolen, yna caiff y grant ei gydnabod fel Derbyniadau Grantiau Cyfalaf ymlaen llaw ar y Fantolen. Unwaith mae'r amod wedi ei fodloni, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei adnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a bod y gwariant sydd i'w ariannu o'r grant neu gyfraniad hwnnw wedi ei wneud ar ddyddiad y fantolen, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf, i adlewyrchu dyrannu adnoddau cyfalaf i ariannu gwariant. Adroddir y trosglwyddiad hwn yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

1.13 Asedau Treftadaeth

Cyflwynodd y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2011/12* newid i'r polisi cyfrifeg sy'n ymwneud â thriniaeth o'r asedau treftadaeth sy'n berchen i'r Cyngor. Asedau diriaethol yw asedau treftadaeth gyda rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technegol, geoffisegol neu amgylcheddol, ac a ddelir gan y Cyngor yn bennaf er diben gwybodaeth addysgol neu gyfraniad i ddiwylliant. Dyma'r categorïau o asedau treftadaeth sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor:

- Llundiau a Phaentiadau
- Teyrnydlysau Dinesig
- Casgliadau Llyfrgell/Archifau
- Casgliadau Amgueddfeydd ac Oriolau
- Adeiladau Hanesyddol a Henebion Cofrestredig
- Parciau a Gwarchodfeydd Natur Leol

Cyflogodd y Cyngor brisiwr allanol (cwmni Bonhams) ym mis Mawrth 2012 i ddarparu amcangyfrifon o brisiadau o'i deyrnydlysau dinesig a'i lluniau a phaentiadau. Mae unrhyw eitem dros y trothwy de-minimus o £10,000 yn cael ei ddangos ar wahân yn y cyfrifon gyda'r eitemau eraill wedi eu cyfod o fewn teyrnydlysau dinesig a lluniau a phaentiadau. Er mwyn cysondeb, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar sail yr un trothwy de-minimus i ddibenion prisio Asedau Treftadaeth ag i weddill ei asedau tymor hir - gweler polisi 1.19.

Nid oes polisi corfforaethol penodol ynghylch caffaeliad, cadwraeth, rheolaeth a gwarediad lluniau a phaentiadau ymhellach na'r anghenion cyffredinol oddi fewn y Rheolau Gweithredu Ariannol yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn ystyried bod gan yr asedau treftadaeth hyn oes amhenderfynadwy a gwerth gweddilliol uchel; ac o'r herwydd, nid yw'r Cyngor yn ei ystyried yn briodol i ddibrisio'r asedau. Bydd yr asedau treftadaeth a gynhwysir yn y cyfrifon yn cael eu hasesu'n flynyddol am unrhyw amhariad.

Mae Archifau, Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Gwynedd yn cadw arteffactau treftadaeth a chofnodion archif yn ei gasgliadau a'i archifau. Mae gan Gwasanaeth Amgueddfa Gwynedd bolisi caffael a gwaredu, a chadwraeth mewn perthynas ag arteffactau treftadaeth a chofnodion archifol.

Nid yw cost neu brisiad pendant bob tro yn hawdd i'w gael am y rhan helaethaf o'r eitemau yn y casgliad arteffactau ac archifau, a hyd yn oed pe byddai modd eu prisio, byddai'r gost yn uchel o'i gymharu â'r budd ychwanegol a fyddai'n tarddu ohono, oherwydd y nifer o asedau a ddelir a'r diffyg yng ngwerthoedd cymharol ar y farchnad. Mae ymgeisio i brisio asedau treftadaeth sydd wedi eu caffael yn hanesyddol yn codi nifer o bryderon cysyniadol. Mae prisio asedau treftadaeth yn cael ei gymhlethu ymhellach gan natur nifer o'r asedau. Anaml maent yn cael eu gwerthu, ac o'r herwydd maent yn aml yn cael eu prisio yn llawer uwch o ganlyniad, er enghraifft -

- i'w cysylltiad â pherson, digwyddiad neu gasgliad;
- y nifer cyfyngedig o brynwyr;
- nid oes llawer o asedau o'r unffurf ar y farchnad;
- gwybodaeth anghyflawn am yr eitemau a werthir.

Yn wahanol i nifer o asedau masnachol felly, anaml y ceir marchnad sy'n galluogi cael prisiad cymharol o wrthrychau cyffelyb. O ganlyniad, mae cael prisiadau cywir ar gyfer nifer o asedau treftadaeth bron yn amhosibl. Tra byddai'n bosib rhoi cost ar gyfer eitemau a bwrcaswyd o fewn y flwyddyn ariannol, mae'r gost hanesyddol yn prysur golli ystyr a gwerth, nid yn unig o ganlyniad i symudiad prisiau cyffredinol ble nad oes marchnad am eitemau cyffelyb, ond hefyd o ganlyniad i newid barn ar briodoliad.

Mae'r Cyngor yn berchen ar nifer o adeiladau rhestredig sydd o fewn y categori Tir ac Adeiladau. Gan fod y rhain yn asedau gweithredol i'r Cyngor, penderfynwyd peidio eu hail-gategoreiddio fel Asedau Treftadaeth. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw henebion ac adeiledd. Mae rhai o'r henebion wedi eu prisio ond mae eu gwerth yn is na'r trothwy de-minimus, ac felly, heb eu cydnabod yn y cyfrifon, tra bod henebion ac adeiledd eraill heb eu prisio gan fod y Cyngor o'r farn nad oes gwir werth y farchnad i'r ased. Byddai'r gost o feddiannu'r wybodaeth yn anghymesur o'i gymharu â'r budd i ddefnyddwyr y Datganiad o'r Cyfrifon y Cyngor – mae'r *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* presennol yn caniatáu eithriad o'r math yma.

Mae rhai Parciau a Gwarchodfeydd Natur Leol, ynghyd â Gwarchodfeydd Adar, Fforestydd ac Arfordiroedd eisoes wedi eu cynnwys yn y cyfrifon fel Asedau Cymunedol. Ond mae gwerth y mwyafrif ohonynt o dan y trothwy de-minimus, a gwnaed y penderfyniad i gadw categori'r asedau hyn fel Asedau Cymunedol. Diffinnir Asedau Cymunedol fel asedau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cadw yn fythol barhaus a cheir cyfyngiadau ar eu gwarediad.

1.14 Stoc a Chontractau Tymor Hir

Dylai stociau a gwaith mewn llaw ymddangos ar y fantolen ar sail yr isaf o gost hanesyddol neu wir werth, yn unol â darpariaethau'r Còd Ymarfer. Oherwydd ymarferoldeb prif systemau stoc y Cyngor, mae mwyafrif y stoc yn ymddangos yn y cyfrifon ar sail cost cyfartalog. Nid yw'r gwahaniaeth o'r sail prisio yn faterol.

1.15 Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer ennill rhent ac/neu adbrisiant cyfalaf yn unig. Nid yw'n cwrdd â'r diffiniad os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw ar gael i'w werthu.

1.16 Prydlesau

Caiff prydlesau eu dosbarthu'n brydlesi cyllidol pan fo'r holl risgiau a buddion sy'n deillio o berchnogaeth o'r eiddo, offer neu gyfarpar yn cael eu trosglwyddo i'r prydlesai. Caiff bob prydles arall eu dosbarthu'n brydlesi gweithredol.

Yr Awdurdod fel Prydlesai:

Caiff symiau a ddelir dan brydlesi cyllidol eu hadnabod yn wreiddiol, ar ddechrau'r brydles, ar werth teg (neu, os yn is, gwerth presennol y lleiafswm taliadau prydles), gydag ymrwymiad cyfatebol am rwymedigaeth y brydles i'r prydleswr. Caiff taliadau'r brydles eu dosrannu rhwng cost ariannol (i'w gynnwys yn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr) a chost a roir yn erbyn ymrwymiad y brydles i'w leihau. Caiff yr ased perthnasol ei drin yn unol â'r polisiau arferol, a caiff ei ddibrisio fel sy'n briodol.

Caiff taliadau prydlesau gweithredol eu dangos yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost i'r gwasanaeth perthnasol ar sail dibrisiad llinol dros gyfnod y brydles.

Yr Awdurdod fel Prydleswr:

Ar hyn o bryd, nid oes gan yr Awdurdod unrhyw Brydlesi Cyllidol ble mae'r Awdurdod yn brydleswr.

Caiff incwm rhent o eiddo sydd wedi ei ganiatáu trwy brydles gweithredol ei gydnabod ar sail llinol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a caiff yr ased ei ddangos ar y Fantolen.

1.17 Asedau Gweddilliol

Caiff Asedau Gweddilliol yr Awdurdod eu dangos ar wahan ar y Fantolen. Gwerth teg yr asedau hyn sy'n cael ei ddangos, sy'n seiliedig ar eu gwerth defnydd presennol.

1.18 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

Yr unig gostau a adewir heb eu dyrannu yw costau rheolaeth corfforaethol a chostau cefnogol nad oes rhaid eu dosrannu yn ôl darpariaethau'r Còd Ymarfer. Mae'r dosraniad yn cydymffurfio gyda'r Còd Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth (SeRCOP) 2012/13.

1.19 Asedau Tymor Hir

Adolygir gwerth asedau'r Cyngor a gofnodir ar fasdata'r Gwasanaeth Eiddo o leiaf bob 5 mlynedd. Mae hyn yn unol â'r Còd a'r Datganiadau Egwyddorion Prisio Asedau a Nodiadau Arweiniad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig. Mae'r gwerthusiad cyflawn diwethaf yn effeithiol o'r 1af Ebrill 2010.

Dangosir Tir ac Adeiladau ar sail gwerth teg neu gost ail-adeiladu dibrisiedig (DRC) ar gyfer eiddo arbenigol.

Dangosir Eiddo Buddsoddi ar sail gwerth teg.

Defnyddir cost hanesyddol (a ddibrisiwyd) ar gyfer Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Mae Asedau is adeiladwaith a chymunedol yn ymddangos ar bris hanesyddol.

Cynhwysir Asedau heb eu cwblhau ar sail cost hanesyddol tan gwblheir y gwaith, pan eu prisir yn unol â'r polisiau cyfrifo a'u trosglwyddo i'r categori asedau perthnasol.

Defnyddir isafswm at ddibenion prisio o £20,000 ar gyfer tir ac adeiladau gweithredol y Cyngor a £5,000 ar gyfer eitemau unigol o Gerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Fe ychwanegir gwariant ar asedau newydd a chyfredol yn flynyddol, gan wedyn ystyried os ydy'r gwariant yma wedi cynhyrchu cynnydd mewn gwerth i'r ased. Os oes cynnydd mae hyn yn cael ei adlewyrchu drwy'r Reserf Ail Brisio; os nad oes cynnydd mae'n dilyn fod amhariad i werth yr ased (gweler isod ar gyfer dull cyfrifo am amhariad). Yn benodol ar gyfer Asedau o'r math Tir ac Adeiladau ac Asedau Cymunedol ble ceir gwariant yn y flwyddyn o dros £100,000 ar ased unigol, mae Rheolwr Eiddo Corfforaethol (M.R.I.C.S) y Cyngor yn adolygu'r asedau ac yn ail brisio unrhyw un sydd ei angen.

Amhariad a Dibrisiant

Amhariad

Amhariad yw treuliant budd economaidd sydd yn benodol i ased. Yn unol â Safon Adrodd Rhyngwladol 36 mae'r Cyngor yn adolygu eu hasedau bob blwyddyn i adnabod unrhyw amhariad neu leihad mewn gwerth oherwydd treuliant buddiannau economaidd. Yn ogystal, caiff gwerth gweddilliol ac oes fuddiol yr asedau eu hadolygu'n flynyddol, a'u haddasu ble'n briodol.

Pan mae colledion amhariad yn cael eu adnabod, maent yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

- Ble mae balans o gynnydd positif ar gyfer pris ased o fewn y Reserf Ailbriso, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn y balans (hyd at swm y cynnydd cronedig)
- Pan nad oes balans ar y Reserf Ailbriso neu balans annigonol, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Dibrisiant

Prif elfen IAS 16 yw y dylid dibrisio adeiladau oni bai eu bod yn cael eu prisio bob blwyddyn. Yn ogystal, dylid dibrisio bob rhan o eiddo, offer a chyfarpar ar wahân os yw eu cost yn arwyddocaol o ystyried cyfanswm cost yr eitem. Dylid sefydlu trothwy isafswm, yn seiliedig ar yr effaith sylweddol tebygol ar y datganiadau ariannol, fel bod bob ased o dan y trothwy yn cael eu diystyru i bwrsap cydrannu. (£1.63m yw'r trothwy ar gyfer 2012/13, sef 1% o werth yr holl adeiladau). Y dosraniad sydd yn cael ei ystyried ar gyfer yr elfen sydd ddim yn dir, dros y trothwy de- minimus ydi:

- a) offer a chyfarpar a gwasanaethau peirianeg, ac
- b) adeiledd

Mae'r mwyafrif o adeiladau'r Cyngor (dros 75%) yn cael eu prisio ar sail Cost Ail-adeiladu Dibrisiedig (DRC), a ddatblygir ar y dull cydrannol, ac adlewyrchir y gwahanol elfennau ym manylion y cyfrifiadau. Fodd bynnag, yn gynwysedig yn yr uchod mae adeiladau gydag eitemau sylweddol o offer a chyfarpar sydd ag oes fuddiol byr e.e. boileri ac offer gwresogi pyllau nofio a chanolfannau hamdden. Adnabyddir yr elfennau hyn drwy addasu oes fuddiol yr adeilad i gymeryd oes fyrrach yr elfennau i ystyriaeth.

Yn seiliedig ar adolygiad o natur a'r math o adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor, daethpwyd i'r canlyniad nad oes gan weddill yr adeiladau eitemau sylweddol o offer a chyfarpar na gwasanaethau peirianeg sydd angen eu cydrannu ar wahan.

Dibrisir Asedau ar sail eu gwerth ar y fantolen i'w ysgrifennu i ffwrdd fel a ganlyn:

- (i) Dibrisir Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar dros eu bywyd amcangyfrifedig (3 – 10 mlynedd)
- (ii) Dibrisir Is-adeiladwaith dros 40 mlynedd
- (iii) Ysgrifennir Gwariant Refeniw i'w ariannu o Gyfalaf drwy Statud i lawr yn y cyfnod yr ymddangosant
- (iv) Ni ddibrisir Tir
- (v) Dibrisir Adeiladau dros eu bywyd amcangyfrifedig (amrywiol)
- (vi) Ni ddibrisir Eiddo Buddsoddi, Asedau heb eu Cwblhau nac Asedau Sydd Ar Gael i'w Gwerthu

Ni ddibrisir ym mlwyddyn y caffaeliad.

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg)(Cymru)(fel y'i diwygiwyd) 2008 [OS 2008/588 (W.59)] yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud darpariaethau darbodus ar gyfer adbrynu dyledion. Mae'r Gweinidogion Cymreig wedi cyhoeddi Canllawiau ar Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (MRP) ac mae gofyn i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i Ganllawiau o'r fath yn unol ag adran 21 (1B) Deddf Llywodraeth Leol 2003.

Dyma'r pedwar opsiwn MRP sydd ar gael:

- Opsiwn 1: Y Dull Rheoleiddio
- Opsiwn 2: Y Dull CFR
- Opsiwn 3: Y Dull Oes Asedau
- Opsiwn 4: Y Dull Dibrisiad

D.S.: Nid yw hyn yn cau allan dulliau darbodus eraill.

MRP yn 2012/13: Gellir defnyddio opsiynau 1 a 2 dim ond ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi nad yw o'r Cyfrif Refeniw Tai (Non-HRA) a ariennir o fenthyciad (ystyr 'wedi'i gefnogi' yma yw costau cyllido a gaiff eu cefnogi drwy Grant Cefnogi Refeniw y Llywodraeth Ganolog). Mae'r dulliau o wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer gwariant cyfalaf Non-HRA heb ei gefnogi yn cynnwys Opsiynau 3 a 4 (gellir defnyddio 3 a 4 ar gyfer gwariant cyfalaf Non-HRA wedi'i gefnogi yn ogystal, os yw'r Cyngor yn penderfynu gwneud hynny).

Cyflwynir y Datganiad MRP i'r Cyngor cyn dechrau blwyddyn ariannol 2012/13. Pe bai cynnig i ddiwygio telerau'r Datganiad MRP gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor ar yr adeg honno.

Bydd y Cyngor yn defnyddio Opsiwn 1 yng nghyswllt gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a ariennir o fenthyciad, ac Opsiwn 3 yng nghyswllt gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a ariennir o fenthyciad.

Bydd yr MRP yng nghyswllt lesau a chynlluniau PFI a brynwyd ar y Fantolen dan y Côd Ymarfer Cyfrifeg sy'n seiliedig ar yr IFRS yn cyd-fynd â'r ad-daliad prifswm blynyddol ar gyfer yr ymrwymiad gohiriedig cysylltiedig.

Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r polisi yma yn flynyddol yng ngoleuni'r Cynllun Rheoli Asedau.

Yn unol â'r Cod Ymarfer, telir am wariant cyfalaf ar gyfer Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor sydd i'w gyllido o refeniw drwy ei ddosbarthu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

1.20 Costau heb eu Dosrannu

Mae'r mwyafrif o'r gwasanaethau cefnogol canolog yn cael eu dyrannu i'r rhaniad gwasanaeth yn unol â Côt Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth (SeRCOP) 2012/13. Mae'r eitemau sydd yn cael eu heithrio o'r driniaeth yma yn cael eu diffinio fel Costau heb eu dosrannu, a'r ddau brif maes yw:-

- Costau Budd-dal Ymddeol (costau cyn wasanaeth, setliad a chwtogiad)
- Costau o elfennau o gyfleusterau TG ac asedau eraill nad ydynt yn cael eu defnyddio.

1.21 Darpariaethau

Mae'r Cyngor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymadau penodol sy'n debygol neu'n sicr o godi ond ni ellir ar hyn o bryd eu pennu'n gywir. Gwneir darpariaethau hefyd ar gyfer dyledion sydd yn annhebyg o gael eu talu. Ysgrifennir dyledion drwg i ffwrdd yn erbyn y gwasanaeth perthnasol. Mae'r Cyngor yn dosbarthu'r darpariaethau hyn fel ymrwymadau tymor hir neu dymor byr fel sy'n briodol yn ddibynnol ar natur bob darpariaeth.

1.22 Reserfau

Yn unol â darpariaeth Deddf Llywodraeth Leol 1988, mae'r Cyngor yn cynnal un Gronfa Gyffredinol sydd yn cynrychioli arian wrth gefn yr Awdurdod. Fodd bynnag, ceir hefyd nifer o Reserfau Penodol cyfalaf a refeniw a glustnodwyd

Cedwir rhai reserfau i reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy yr Awdurdod.

1.23 Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf Drwy Statud

Mae Deddfwriaeth yn caniatáu peth gwariant i gael ei gategoreiddio fel cyfalaf i bwrpas ariannu er nad yw yn creu ased sydd yn cael ei gario ar y Fantolen. Bwriad hyn yw galluogi'r gwariant i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf yn hytrach nag ei roi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a fyddai'n cael effaith ar y Dreth Cyngor am y flwyddyn. Defnyddir cost hanesyddol fel sail prisio ar gyfer y fantolen ac ysgrifennir hwn i lawr o fewn blwyddyn.

1.24 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW, y cynhwysir TAW neu'n ei dderbyn fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant cyfalaf a refeniw.

1.25 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir cyfrifon y Cyngor ar sail cronni yn unol â'r Côt Ymarfer Cyfrifwaith. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm yn berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, p'run a'u os yw'r taliadau a'r derbyniadau wedi eu talu neu eu derbyn a'i peidio yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

1.26 Pensiynau

Mae'r Safon Adrodd Rhyngwladol (IAS) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol yng Nghymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion IAS19.

1.27 Dyrannu Llog Derbyniadwy

Mae'r Awdurdod yn buddsoddi arian dros ben am gyfnodau o dros nos hyd at ddwy flynedd a thelir y llog i Gronfa Gyffredinol y Sir, Cronfa Bensiwn Gwynedd, Cronfa'r Degwm ac ymddiriedolaethau eraill ar sail eu balansau dyddiol a'r gyfradd llog a enillir.

1.28 Costau Benthycia

Nid yw'r Awdurdod yn cyfalafu costau benthycia sy'n perthyn i gaffaeliad, gwneuthuriad na chynhyrchiad ased cymwysedig fel a ganiateir yn y Côt.

Cyfrifir am log sydd yn daladwy ar fenthyciadau allanol yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo ar sail sy'n adlewyrchu effaith economaidd gyflawn y benthyciad.

1.29 Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill

Yng nghyfrifon yr Awdurdod, caiff buddiannau mewn cwmnïau ac endidau eraill eu hadrodd fel asedau ariannol ar gost gwreiddiol, llai unrhyw ddarpariaeth am gollledion.

1.30 Asedau Cyfredol ar gael i'w gwerthu

Er mwyn i ased gael ei gydnabod fel Ased ar gael i'w werthu, mae'n ofynnol i'r ased fod ar gael i'w werthu yn syth yn ei gyflwr presennol, mae'n rhaid i'r gwerthiant fod yn hynod o debygol, rhaid i'r ased gael ei farchnata a'r gwerthiant gael ei gwblhau o fewn blwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad. Caiff yr ased ei gydnabod ar yr isaf o'i werth i'w gario neu werth teg (gwerth y farchnad) llai costau gwerthu wrth aiddosbarthu.

1.31 Gwaredu Asedau

Pan mae ased yn cael ei waredu, mae gwerth yr ased yn y Fantolen yn cael ei ysgrifennu ffwrdd i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw a cholled wrth waredu. Mae derbyniadau (os oes rhai) yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu golled wrth waredu (e.e. cael ei glustnodi yn erbyn gwerth yr ased

ar adeg y gwaredu). Mae unrhyw gynnydd wedi eu recordio ar gyfer yr ased yn y Reserf Ailbriso yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

1.32 Derbyniadau Cyfalaf

Pan werthir Asedau gan yr Awdurdod mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'r defnydd y gellir ei wneud o'r derbyniadau cyfalaf.

Gellir defnyddio 100% o'r holl dderbyniadau cyfalaf sydd yn perthyn i Gronfa'r Cyngor ac nid yw'n angenrheidiol bellach i roi canran o'r derbyniad o'r neilltu. Cedwir y derbyniadau yn y Reserf Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy hyd nes defnyddir yr adnoddau i gyllido gwariant cyfalaf.

1.33 Cyfrifo am gostau'r Cynllun Ymrwymiad i Ostwng Carbon

Mae'r awdurdod yn rhan o'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Ymrwymiad i Ostwng Carbon (CRC). Mae'n ofynnol i awdurdodau sy'n rhan o'r cynllun bwrcasu ac ildio lwfansau, wedi'r digwyddiad ar hyn o bryd, ar sail allyriadau h.y. cynhyrchiad carbon deuocsid wrth ddefnyddio ynni. Roedd Cyngor Gwynedd yn is na'r trothwy perthnasol yn 2012/13.

1.34 Costau'n ymwneud â Hawliadau Cyflogau Anghyfartal

Mae darpariaeth wedi ei gynnwys yng Nghyfrifon yr Awdurdod yn ymwneud â chostau Hawlio Tâl Cyfartal ac yn adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r gost debygol ar 31 Mawrth 2013.

1.35 Cynllun Lwfans Tirlenwi

Mae'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi yn gweithredu o dan Rheoliadau Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004. Clustnodir targed blynyddol i Awdurdodau Lleol o'r uchafswm o wastraff prydadwy bwrdeistrefol y gellir ei anfon i'w tirlenwi. Am bob tunnell o wastraff prydadwy bwrdeistrefol a anfonir i'w tirlenwi sy'n uwch na'r targed, gall yr Awdurdod Lleol fod yn agored i ddirwy o £200 y dunnell. Nid yw'n gynllun "cap and trade" gan nad yw'r lwfansau tirlenwi yn fasnachadwy yng Nghymru. Am y rheswm yma, nid yw lwfansau tirlenwi yn cael eu cydnabod fel ased ar y Fantolen. Roedd Cyngor Gwynedd o fewn ei lwfans tirlenwi yn 2012/13.

1.36 Cynlluniau PFI

Mae Cynlluniau PFI yn gytundebau i dderbyn gwasanaethau, ble mae'r eiddo, offer a chyfarpar er mwyn darparu'r gwasanaeth dan gyfrifoldeb y contractwr PFI. Mae Prosiect GwyrAD yn gynllun PFI a dechreuwyd ar y dasg o'i adeiladau yn 2012/13 gyda'r gwaith yn dod yn weithredol ar 1af Hydref 2013. Gwaith trin ydyw ar gyfer gwastraff bwyd a ddiolir yn y tarddle drwy ddefnyddio technoleg Treulio Anaerobig (Anaerobic Digestion). Bydd hyn yn gymorth i'r Awdurdod gyrraedd ei dargedau ailgylchu a gweithio o fewn ei lwfansau tirlenwi o Wastraff Dinesig Bioddiraddadwy (GDB).

1.37 Gweithrediadau wedi eu Cyd-reoli ac Asedau wedi eu Cyd-reoli

Gweithrediadau a reolir ar y cyd yw gweithgareddau y mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â mentrwyr eraill sy'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahan. Mae'r Awdurdod yn cydnabod yr asedau mae'n ei reoli ynghyd â'r ymrwymadau ar ei Fantolen, gan ddebydu a chredydu'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gyda'r gwariant a ddioddefir a'r cyfran incwm a enillir o weithgaredd y gweithrediad.

Mae asedau wedi eu cyd-reoli yn eitemau o eiddo, offer a chyfarpar a reolir ar y cyd gan yr Awdurdod a mentrwyr eraill. Nid yw'r fenter ar y cyd yn golygu sefydlu endid ar wahan. Mae'r Awdurdod yn cyfrifo am ei gyfran ef yn unig o'r asedau a gyd-reolir, yr ymrwymadau a'r costau a gyfyd ar ei ran ei hun neu ar y cyd ag eraill mewn perthynas â buddiannau yn y fenter ar y cyd a'r incwm a enillir o'r fenter.

1.38 Cydnabod Refeniw o Drafodion Digyfnewid

Caiff asedau a refeniw sy'n deillio o drafodion digyfnewid eu cydnabod, yn unol â gofynion IAS 20 Cyfrifo Grantiau'r Llywodraeth a Datgelu Cymorth y Llywodraeth, ag eithrio lle dehonglir neu addasir i gyd-fynd â'r sector cyhoeddus, yn y Côt a / neu IPSAS 23, "Refeniw o Drafodion Digyfnewid (Trethi a Throsglwyddiadau).

Trafodion Trethi

Caiff asedau a refeniw sy'n deillio o drafodion trethi eu cydnabod yng nghyfnod y digwyddiad trethadwy, cyn belled â bod yr asedau yn bodloni'r diffiniad o ased ac yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cael eu cydnabod fel ased.

Trafodion Anhrethadwy

Caiff asedau a refeniw sy'n deillio o drafodion trosglwyddo eu cydnabod yn y cyfnod pan fydd y trefniant trosglwyddo'n orfodol. Nid yw gwasanaethau mewn nwyddau'n cael eu cydnabod. Pan fo trosglwyddiad yn ddarostyngedig i amodau sydd, os na chant eu gwireddu, yn gofyn am ddychweliad yr adnoddau a drosglwyddwyd, mae'r Awdurdod yn cydnabod yr ymrwymiad hyd nes gwireddir yr amod.

Sail Mesur Dosbarthiadau Mawr o Refeniw o Drafodion Digyfnwid

Mesurir Refeniw Trethiant ar y gwerth enwol o arian a chywerthoedd arian.

Caiff asedau a refeniw sy'n deillio o ganlyniad i drosglwyddiad eu mesur ar werth teg yr asedau a gydnabyddir ar ddyddiad y gydnabyddiaeth:

- Caiff asedau ariannol eu mesur yn ôl eu gwerth enwol oni bai bod gwerth amser arian yn sylweddol, yn yr achos hynny, defnyddir gwerth presennol, wedi ei gyfrifo'n defnyddio cyfradd disgownt sy'n adlewyrchu'r risg annatod o ddal yr ased;
- Caiff asedau anariannol eu mesur yn ôl eu gwerth teg, sy'n cael ei bennu drwy gyfeirio at werthoedd marchnad gweladwy neu gan werthusiad annibynnol gan aelod o'r proffesiwn prisio. Caiff derbyniadau eu cydnabod pan fydd trefniant trosglwyddo gorfodol mewn lle, ond nad oes arian nac asedau eraill wedi eu derbyn.

NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Ni gyflwynwyd unrhyw bolisiau newydd yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* ar gyfer 2012/13.

NODYN 3 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL

Oherwydd amgylchiadau penodol mae'n ofynnol i addasu a / neu ail-ddatgan rhai ffigyrau o fewn ein cyfrifon am gyfnod blaenorol i sefyllfa 2012/13. Fe welir isod y pedwar mater sydd yn perthyn i gyfrifon 2011/12 sydd angen addasiad fel a ganlyn:

(a) Darpariaeth ar gyfer ôl-ofalaeth Safleoedd Tirlenwi

Mae'n ofynnol ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru i adnabod darpariaethau sydd yn berthnasol i adfer, ôl-ofalaeth a monitro o safleoedd tirlenwi ar sail gyson. Mae Mantolen 31 Mawrth 2012 wedi ei ail-ddatgan i adlewyrchu'r newid, ynghyd â'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2011/12. Mae gan yr awdurdod yma 3 safle tirlenwi, sydd i gyd yn rhan o'r gofyniad yma - sef Safle Cilgwyn yng Ngharmel, Safle Ffridd Rasmus yn Harlech a Safle Llwyn Isaf yng Nghlynnog.

Mae'r tablau isod yn adlewyrchu'r addasiadau cyfnod blaenorol sydd yn berthnasol i'r prif Ddatganiadau o'r Cyfrifon 2011/12 ac hefyd i'r Nodiadau i'r Cyfrifon perthnasol.

Effaith yr addasiadau safleoedd tirlenwi ar Ddatganiad Symudiad mewn Reserfau 2011/12

	Fel ddatganwyd yn flaenorol 2011/12				Ailddatgan				Wedi ailddatgan 2011/12			
	Balans Cronfa Gyffredinol	Cyfanswm Reserfau Defnyddiawy	Reserfau na ellir eu defnyddio	Cyfanswm Reserfau'r Awdurdod	Balans Cronfa Gyffredinol	Cyfanswm Reserfau Defnyddiawy	Reserfau na ellir eu defnyddio	Cyfanswm Reserfau'r Awdurdod	Balans Cronfa Gyffredinol	Cyfanswm Reserfau Defnyddiawy	Reserfau na ellir eu defnyddio	Cyfanswm Reserfau'r Awdurdod
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans 31 Mawrth 2011 a ddygwyd ymlaen	(8,194)	(71,611)	(111,662)	(183,273)	0	0	0	0	(8,194)	(71,611)	(111,662)	(183,273)
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau	(14,409)	(14,409)	0	(14,409)	9,842	9,842	0	9,842	(4,567)	(4,567)	0	(4,567)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(14,409)	(14,409)	46,762	32,353	9,842	9,842	0	9,842	(4,567)	(4,567)	46,762	42,195
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	14,336	14,672	(14,672)	0	(9,842)	(9,842)	9,842	0	4,494	4,830	(4,830)	0
Mae'r tabl isod yn crynhoi y symudiad yng ngwerth teg yr eiddo buddsoddi yn ystod y flwyddyn:

	2011/12 £'000	2012/13 £'000
Balans 1 Ebrill	298	298
<u>Ychwanegiadau:</u>		
Pryniannau	0	0
Adeiladwaith	0	0
Gwariant dilynol	0	0
Gwarediadau	0	0
Elw / colled net o addasiadau gwerth teg	0	0
<u>Trosglwyddiadau:</u>		
i/o Asedau ar gael i'w gwerthu	0	20
i/o Eiddo, Offer a Chyfarpar	0	506
Newidiadau Eraill	0	0
Balans 31 Mawrth	298	824

NODYN 18 – OFFERYNNAU ARIANNOL

(a) Offerynnau Ariannol - Dosbarthiadau

Diffinnir offeryn ariannol fel unrhyw gytundeb sydd yn creu ased ariannol mewn un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti mewn endid arall. Nid yw trafodion nad ydynt yn cael eu cyfnewid, megis rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r llywodraeth, yn arwain at offerynnau ariannol.

Rhwymedigaethau Ariannol

Mae Rhwymedigaeth Ariannol yn golygu dyletswydd i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y Cyngor, a gellir ei chynrychioli drwy ddyletswydd gytundebol i gyflwyno arian parod neu asedau ariannol, neu ddyletswydd i gyfnewid rhwymedigaethau ac asedau ariannol gydag endid arall sydd o bosib yn anffafriol i'r Cyngor.

Mae rhwymedigaethau ariannol y Cyngor nad ydynt yn ddeilliannol yn ystod y flwyddyn yn cael eu mesur ar gost wedi'i amorteiddio, ac maent yn cynnwys:

- benthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a benthycwyr masnachol
- gorddrafft gyda Barclays Bank plc
- taliadau masnach am gynnyrch a gwasanaethau a dderbyniwyd

Asedau Ariannol

Mae Ased Ariannol yn golygu hawl i fuddion economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Cyngor. Fe'i cynrychiolir gan arian parod neu offerynnau eraill neu hawl cytundebol i dderbyn arian parod neu ased ariannol arall. Mae'r asedau ariannol a ddaliwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn cael eu rhannu i'r pedwar dosbarth a ganlyn.

Benthyciadau a derbyniadau (asedau ariannol â thaliadau sefydlog neu benodedig, sydd heb eu rhestru mewn marchnad weithredol) yn cynnwys:

- arian parod
- cyfrifon banc
- adneuon cyfnod penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu
- benthyciadau i awdurdodau lleol eraill
- buddsoddiadau wedi'u hamharu ym manciau Gwlad yr Iâ
- derbyniadau masnach am gynnyrch a gwasanaethau a gyflenwyd

Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu (sydd wedi'u rhestru ar farchnad weithredol), sy'n cynnwys:

- cronfeydd marchnadoedd ariannol a chynlluniau buddsoddi cyfunol eraill
- tystysgrifau adneuon a ddyroddir gan fanciau a chymdeithasau adeiladu
- biliau a giltiau'r trysorlys a ddyroddir gan Lywodraeth y DU

Asedau a ddelir ar werth teg drwy elw a cholled, yn cynnwys:

- biliau a giltiau'r trysorlys a ddyroddir gan Lywodraeth y DU
- buddsoddiad ecwiti mewn cwmni gwastraff lleol

(b) Offerynnau Ariannol – Balansau

Mae'r rhwymedigaethau a ddatguddir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

Rhwymedigaethau Ariannol	Tymor Hir		Tymor Byr	
	31 Mawrth 2012 £'000	31 Mawrth 2013 £'000	31 Mawrth 2012 £'000	31 Mawrth 2013 £'000
Benthyciadau ar gost wedi'i amortieiddio:				
Prifswm a fenthycwyd*	113,000	95,811	1,341	17,437
Llog a gronwyd	0	0	709	694
Gwarantau ariannol ar gost wedi'i amortieiddio				
Cyfanswm Benthyciadau	113,000	95,811	2,050	18,131
Benthyciadau ar gost wedi'i amortieiddio				
Gorddrafft banc	0	0	6,904	11,787
Cyfanswm Arian a ordynnwyd	0	0	6,904	11,787
Rhwymedigaethau ar gost wedi'i amortieiddio:				
Dyledion masnachol	202	151	0	0
Prydlesau cyllidol	29	15	0	0
Cyfanswm Rhwymedigaethau tymor hir	231	166	0	0
Rhwymedigaethau ar gost wedi'i amortieiddio:				
Dyledion masnachol	0	0	40,394	56,913
Prydlesau cyllidol	0	0	20	14
Cynhwyswyd mewn Credydwy'r**	0	0	40,414	56,927
Cyfanswm y Rhwymedigaethau Ariannol	113,231	95,977	49,368	86,845

* Mae'r benthyciadau tymor byr ar 31 March 2013 yn cynnwys benthyciad o £16,200,000 sydd yn gallu cael ei alw ar gyfer ad-daliad ym mis Gorffennaf 2013. Er hynny, oherwydd y cyfraddau llog isel cyfredol maen annhebyg i ddigwydd.

** Mae llinell credydwy'r tymor byr ar y Fantolen yn cynnwys £1,850,000 (£2,627,000 ar 31 Mawrth 2012) o gredydwy'r nad ydynt yn cyfateb i'r diffiniad o rwymedigaeth ariannol. Gweler nodyn 23 am wybodaeth bellach.

Mae'r asedau ariannol a ddatguddir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

Aседau Ariannol	Tymor Hir		Tymor Byr	
	31 Mawrth 2012 £'000	31 Mawrth 2013 £'000	31 Mawrth 2012 £'000	31 Mawrth 2013 £'000
Benthyciadau a Derbyniadau: Prifswm ar gost wedi'i amorteiddio	17	17	35,000	35,000
Llog cronnus	0	0	324	214
Buddsoddiadau wedi'i amharu	219	0	559	415
Buddsoddiadau ar gael i'w gwerthu: Prifswm ar gost wedi'i amorteiddio	60	60	0	0
Cyfanswm Buddsoddiadau	296	77	35,883	35,629
Benthyciadau a Derbyniadau: Arian	0	0	57	61
Cywerthydd Arian ar gost wedi'i amorteiddio	0	0	17,630	13,030
Cyfanswm Arian a Chywerthoedd Arian	0	0	17,687	13,091
Benthyciadau a Derbyniadau: Derbyniadau Masnach	3,898	4,191	10,814	12,520
Cynhwyswyd mewn Dyledwyr*	3,898	4,191	10,814	12,520
Cyfanswm Asedau Ariannol	4,194	4,268	64,384	61,240

* Mae llinell tymor byr dyledwyr ar y Fantolen yn cynnwys £32,352,000 (£17,885,000 ar 31 Mawrth 2012) o ddyledwyr nad ydynt yn cwrdd â'r diffiniad o ased ariannol. Gweler nodyn 20 am wybodaeth bellach.

Benthyciadau Meddal - Balansau

Mae gan Awdurdodau Lleol yr hawl i roi benthyciadau am resymau polisi yn hytrach na fel offerynnau ariannol, ac fe all y benthyciadau yma fod yn ddi-log neu ar gyfraddau is na chyfraddau cyffredinol y farchnad. Pan mae benthyciadau yn cael eu dyroddi ar gyfradd is na chyfradd y farchnad maent yn cael eu hadnabod fel “Benthyciadau Meddal”.

Mae gwerth teg y benthyciadau meddal yma yn llai na chyfanswm yr arian a fenthyciwyd. Mae gwerth teg benthyciad, sy'n cael ei roi yn ddi-log neu ar gyfradd is na chyfradd gyffredinol y farchnad, yn cael ei amcangyfrif fel gwerth presennol yr holl dderbyniadau arian a dderbynnir yn y dyfodol wedi ei ddisgowntio yn defnyddio cyfradd marchnad gyffredinol ar gyfer offeryn cyffelyb. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm a fenthycir a gwerth teg y benthyciad yn cael ei gynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant. Mae Cod Ymarfer 2012/13 yn gosod gofynion cyfrifeg a datgeliad penodol ar gyfer benthyciadau meddal. Yn ystod 2012/13 fe adnabu Cyngor Gwynedd y 'benthyciadau meddal' canlynol:

- Taliadau Gohiriedig am dderbyniad taliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.13 = £2,533,622)
- Benthyciadau Ceir a Beic i weithwyr (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.13 = £905,408)

Daethpwyd i benderfyniad nad yw'r ychydig o fenthyciadau “meddal” sydd gan y Cyngor yn ymofyn datgeliad ar wahân gan eu bod yn de minimus.

(c) Offerynnau Ariannol – Enillion a Cholledion

Mae'r enillion a'r colledion a nodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas â'r offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:

	Rhwymedigaethau Ariannol	Asedau Ariannol	Cyfanswm 2012/13
	Costau'r rhwymedigaethau wedi'u hamorteiddio	Benthyciadau a Derbyniadau	
	£'000	£'000	£'000
Costau Llog	6,714	0	6,714
Colledion Amhariad	0	16	16
Llog taladwy a ffioedd tebyg	6,714	16	6,730
Incwm y llog	0	(682)	(682)
Incwm y llog a'r buddsoddiad (Enillion) / colledion net y flwyddyn	0	(682)	(682)
	6,714	(666)	6,048

(d) Offerynnau Ariannol – Gwerthoedd Teg

Mae asedau ariannol a ddynodir fel benthyciadau a dyledwyr a'r holl rwymedigaethau ariannol nad ydynt yn ddeilliannol yn cael eu prasio yn y fantolen ar sail cost wedi'u hamorteiddio. Amcangyfrifwyd eu gwerthoedd teg drwy gyfrifo gwerth net presennol y llif arian oedd yn weddill o dan y contract ar 31 Mawrth 2013, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau a ganlyn:

- mae benthyciadau'r PWLB wedi'u disgowntio ar y cyfraddau llog a gyhoeddwyd ar gyfer benthyciadau newydd cyfradd sicrwydd a drefnwyd ar 31 Mawrth.
- mae benthyciadau a buddsoddiadau tymor hir eraill wedi'u disgowntio ar gyfraddau'r farchnad ar gyfer offerynnau cyffelyb ar 31 Mawrth.
- ni chydnyddir ad-daliadau cynnar nac amhariadau.
- rhagdybir bod gwerth teg offerynnau tymor byr, gan gynnwys dyledion masnach a derbyniadau yn cyfateb yn agos i'r swm cario.

- yn achos rhwymedigaethau wedi'u gohirio (megis pryddlesau ariannol) mae'r awdurdod yn tybio bod y swm cario yn amcangyfrif rhesymol o'r gwerth teg.

	Gwerth i'w gario	Gwerth teg	Gwerth i'w gario	Gwerth teg
	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth
	2012	2012	2013	2013
	£'000	£'000	£'000	£'000
Rhwymedigaethau Ariannol:				
Benthyciadau	(115,050)	(165,565)	(113,942)	(170,997)
Lesau cyllidol	(49)	(49)	(29)	(29)
Dyledion masnachol	(40,596)	(40,596)	(57,064)	(57,064)
Cyfanswm Rhwymedigaethau Ariannol	(155,695)	(206,210)	(171,035)	(228,090)
Asedau Ariannol:				
Buddsoddiadau tymor hir	296	296	77	77
Buddsoddiadau tymor byr	35,559	35,883	35,415	35,629
Derbyniadau masnachol	14,712	14,712	16,711	16,711
Cyfanswm Asedau Ariannol	50,567	50,891	52,203	52,417

Mae gwerth teg y rhwymedigaethau tymor hir yn uwch na'r swm cario gan fod portffolio benthyciadau'r awdurdod yn cynnwys nifer o fenthyciadau sydd â chyfradd llog taladwy sy'n uwch na'r cyfraddau llog sydd ar gael ar gyfer benthyciadau cyffelyb ar ddyddiad y Fantolen.

Roedd portffolio buddsoddi'r Cyngor ar ddyddiad y Fantolen yn cynnwys bron iawn ond adneon cyfnod penodol gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, adneon cyfrifon ar alw / ar rybudd a buddsoddiadau Cronfeydd Marchnad Arian. Roedd dyddiad aeddfedu'r buddsoddiadau hyn oll o fewn cyfnod o 12 mis i ddyddiad y Fantolen. Mae gwerth un o'r buddsoddiadau hyn wedi cael ei amharu.

Yn ystod 2008/09, roedd y Cyngor wedi adneuo £4m gyda Heritable Bank, banc wedi'i gofrestru yn y DU dan Gyfraith yr Alban. Rhoddwyd y cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr ar 7 Hydref 2008. Amlinellwyd yn yr adroddiad cynnydd credydwy'r a gyhoeddwyd gan y gweinyddwyr Ernst and Young, dyddiedig 17 Ebrill 2009, y byddai credydwy'r yn adennill 80c yn y £ erbyn diwedd 2013, gyda'r taliad difidend cyntaf o 15c yn y £ yn cael ei dalu yn ystod haf 2009. Dyma oedd y sail ar gyfer cau cyfrifon 2008/09. Hyd 31 Mawrth 2013, mae'r Cyngor wedi adennill £3,105,729 gan y gweinyddwyr a bellach mae'r gweinyddwyr yn disgwyl adennill 88c yn y £ erbyn dechrau 2014. Yn seiliedig ar y wybodaeth hon, mae'r gostyngiad yng ngwerth y cyfrifon yn seiliedig ar adennill 88c yn y £.

Mae'r canrannau a dderbyniwyd hyd yn hyn fel a ganlyn:

Dyddiad	%
Gorffennaf 2009	16.13
Rhagfyr 2009	12.66
Mawrth 2010	6.19
Gorffennaf 2010	6.27
Hydref 2010	4.14
Ionawr 2011	4.71
Ebrill 2011	6.25
Gorffennaf 2011	4.05
Hydref 2011	4.18
Ionawr 2012	3.32
Ebrill 2012	3.79
Awst 2012	2.85
Ionawr 2013	2.71
Cyfanswm 31 Mawrth 2013	77.25

Rhagwelir y bydd mwy o ad-daliadau ac y bydd gwerthiant terfynol o'r asedau yn digwydd ar ôl i'r sefyllfa cael ei derfynu yn nechrau 2014. Felly, wrth gyfrifo'r amhariad, mae'r Cyngor wedi gwneud y tybiaethau canlynol ynghylch amseriad yr adenillion dilynol:

Dyddiad	%
Gorffennaf 2013	2.00
Ionawr 2014	8.80
Cyfanswm	10.80

Mynegir yr adenillion fel canran o gais yr Awdurdod i'r gweinyddiaeth, sy'n cynnwys y llog a gronnwyd hyd at 6 Hydref 2008.

Mae gwerth teg y rhan berthnasol o'r swm a adnewwyd yn unol â'r dyddiad disgwylir ad-daliad wedi'i gynnwys dan y buddsoddiadau tymor byr a thymor hir yn y tablau uchod. Canlyniad cyfrifo'r gwerth teg oedd cynnydd o £19,272 yn yr amhariad o £1,135,535 a gyfrifwyd erbyn 31 Mawrth 2012. Cyfrifwyd cynnydd o £35,535 yn y llog damcaniaethol. Mae cyfran berthnasol o gynnydd yn yr amhariad £2,723 a'r llog damcaniaethol (£4,597) wedi'i ddynodi i'r Gronfa Bensiwn. Mae'r ddau addasiad wedi'u cynnwys o fewn Incwm Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Wrth gwrs, gallai'r gwir golled erbyn dechrau 2014 fod yn fwy neu'n llai na'r golled bosib a amcangyfrifir uchod, ac efallai yn sylweddol llai gan gofio fod amcangyfrifon swyddogol y gweinyddwyr o gwmnïau sydd mewn trafferthion yn hynod geidwadol. Fodd bynnag, amcangyfrifir yr amhariad yn unol â'r dehongliad cytunedig o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2013.

(e) Offerynnau Ariannol - Risgiau

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Rheoli Trysorlys (ac addasiadau dilynol) CIPFA ac yn cydymffurfio â'r *Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities* (diwygwyd y ddau yn Nhachwedd 2011).

Fel rhan o fabwysiadu'r Cod Rheoli Trysorlys, mae'r Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth Rheoli Trysorlys cyn i bob blwyddyn ariannol newydd gychwyn. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r paramedrau ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig i Offerynnau Ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu Ymarferion Rheoli Trysorlys sy'n manylu ar y trefniadau ymarferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hynny.

Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn unol ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol. Pwysleisia'r Arweiniad hwn y dylid rhoi blaenoriaeth i sicrwydd a hylifedd, yn hytrach na chynnyrch. Mae Strategaeth Trysorlys y Cyngor, ynghyd â'i Arferion Rheoli Trysorlys yn seiliedig ar chwilio am y raddfa uchaf posib o adenillion yn seiliedig ar y lefelau cymesuredd o sicrwydd a hylifedd.

Mae hyn yn cynnwys y prif risgiau a ganlyn:

- *Risg Credyd:* Y posibilrwydd y bydd un parti mewn offeryn ariannol yn methu â chyflawni rhwymedigaethau ei gontract, gan beri colled i'r parti arall.
- *Risg Hylifedd:* Y posibilrwydd na fydd y Cyngor yn gallu codi digon o arian i ddiwallu'r ymrwymiad ariannol sydd ynghlwm ag Offerynnau Ariannol.
- *Risg y Farchnad:* Y posibilrwydd y bydd gwerth offeryn yn anwadal oherwydd newidiadau i'r cyfraddau llog, prisiau'r farchnad ac ati.

Risg Credyd: Buddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn rheoli risg credyd drwy sicrhau bod ei holl fuddsoddiadau'n cael eu gwneud gyda sefydliadau sydd ag ansawdd credyd uchel, fel y nodir yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys. Mae'r rhain yn cynnwys endidau masnachol gydag isafswm statws credyd o A-, ac awdurdodau lleol eraill heb statws credyd. Gan gydnabod nad yw statwsau credyd bob amser yn medru rhagweld diffyg dalu, mae'r Cyngor hefyd yn ystyried mesurau eraill gan gynnwys cyfnewid diffyg dalu credyd a phrisiau ecwiti wrth ddewis sefydliadau masnachol ar gyfer buddsoddi.

Bydd uchafswm o £20m o'r holl bortffolio yn cael ei osod ar y swm o arian y gellir ei fuddsoddi gydag un gwrthbarti unigol. Mae'r Cyngor hefyd yn gosod uchafswm cyfanswm buddsoddiad grŵp ar gyfer sefydliadau sy'n rhan o'r un grŵp bancio. Ni ellir buddsoddi mwy na chyfanswm o £40m am gyfnod hwy nag un flwyddyn.

Ni ellir cynnig asesiad cyffredinol o ba mor agored yw'r Cyngor i risg credyd mewn perthynas â'i uchafswm o £35.4m gan fod y risg o fethu talu'r llog neu ad-dalu'r prif swm yn neilltuol i bob sefydliad unigol. Dengys profiad diweddar mai prin iawn yw'r achosion pan fo endidau o'r fath yn methu cyflawni'u hymrwymadau. Mae'r risg o fethu adfer arian yn perthyn i holl adneuon y Cyngor, ond ar 31 Mawrth 2013 nid oedd unrhyw dystiolaeth y byddai'r risg yn debygol o gael ei wireddu.

Nid yw'r Cyngor yn dal gwarant gyfochrog yn erbyn unrhyw fuddsoddiadau.

Yn y tabl isod ceir crynodeb o werth risg credyd portffolio buddsoddi'r Cyngor fesul cyfradd credyd:

Cyfradd Credyd	Tymor Byr	
	31 Mawrth 2012 £'000	31 Mawrth 2013 £'000
AAA	5,000	5,000
AA+	0	0
AA	0	0
AA-	47,630	10,000
A+	0	5,000
A	0	28,030
A-	0	0
Cyfanswm Buddsoddiadau	52,630	48,030

Nid yw'r dadansoddiad uchod yn cynnwys gwerth cario (ar ôl amhariad) buddsoddiad y Cyngor yn Heritable Bank (amcangyfrifir i fod yn £415,528 ac sydd wedi ei drin yn rhan (d) uchod).

Derbyniadau Masnachol

Mae gan y Cyngor nifer o ddyledwyr tymor hir gan gynnwys benthyciadau ceir a beiciau i weithwyr a morgeisi i aelodau'r cyhoedd. Ystyrir y benthyciadau ceir fel risg isel oherwydd y gallu i ddiddymu'r ad-daliadau o gyflogau'r gweithwyr, trefniadau trosglwyddo cytbwys gydag awdurdodau lleol eraill, trefniadau penodol ar gyfer methdalwyr a threfniadau adennill dyled arferol ar gyfer unrhyw weithwyr sydd yn gadael cyflogaeth Llywodraeth leol. Mae'r morgeisi yn risg isel oherwydd bod y Cyngor yn dal arwystl cyntaf dros yr eiddo a forgeisiwyd.

Etifeddwyd nifer fach a gwerth bach o fenthyciadau tymor hir i gwmnïau a sefydliadau lleol gan y cyn-cynghorau. Dim ond un o'r benthyciadau hyn sy'n parhau'n ddyledus ac mae'r hanes ad-dalu yn ardderchog.

Mae'r Cyngor wedi lansio Cronfa Benthyciadau Busnes i fusnesau bychan a chanolig o ran maint yng Ngwynedd. Mae'r cyfraddau llog a gyfyd ar fenthyciadau o'r fath yn gyfesur â'r risg credyd uwch sy'n ymglymedig â'r math yma o fenthyciadau.

Risg Hylifedd

Mae gan y Cyngor fynediad parod i fenthyciadau ar gyfraddau ffafriol o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac awdurdodau lleol eraill, ac ar gyfraddau uwch gan fanciau a chymdeithasau adeiladu. Nid oes unrhyw risg ymddangosiadol y bydd y Cyngor yn methu codi cyllid i gwrdd â'i ymrwymïadau. Er hyn, mae risg y bydd yn rhaid i'r Cyngor adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg lle mae'r cyfraddau llog yn anffafriol. Rheolir y risg hwn drwy gynnal amrediad o fenthyciadau gyda chyfraddau sefydlog a sicrhau nad yw mwy na 25% o fenthyciadau'r Cyngor yn aeddfedu mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi dadansoddiad o aeddfedrwydd gwerth enwol dyled y Cyngor:

Amser tan aeddfedrwydd (blynnyddoedd)	31 Mawrth 2012	31 Mawrth 2013
Llai na flwyddyn	1,341	1,237
Dros 1 ond llai na 2	1,203	1,123
Dros 2 ond llai na 5	3,020	4,490
Dros 5 ond llai na 10	6,970	5,904
Dros 10 ond llai na 20	23,661	25,572
Dros 20 ond llai na 30	34,594	31,369
Dros 30 ond llai na 40	0	0
Dros 40	27,352	27,353
Dyddiad ansicr*	16,200	16,200
Cyfanswm	114,341	113,248

* Mae gan y Cyngor £16.2m o fenthyciadau "Lender's option, borrower's option" (LOBO) lle bo'r opsiwn gan y benthyciwr i gynnig codiad yn y gyfradd; bydd gan y Cyngor hawl wedyn i dderbyn y gyfradd newydd neu ad-dalu'r benthyciad heb gosb. Oherwydd y cyfraddau llog isel cyfredol, nad yw'n debyg i'r benthyciwr ymarfer ei opsiwn, ond os yw hyn yn digwydd bydd y Cyngor yn debyg i ad-dalu'r benthyciad. Mae'r dyddiad aeddfedrwydd felly yn ansicr.

Risg y Farchnad : Risg Cyfraddau Llog

Mae'r Cyngor yn agored i risgiau sy'n codi o symudiadau yn y cyfraddau llog ar ei benthyciadau a buddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effeithiau cymhleth ar y Cyngor. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn arwain at yr effeithiau a ganlyn:

- benthyciadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r gwariant llog yn cynyddu.
- benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr ymrwymïadau benthycy yn disgyn.
- benthyciadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r incwm llog sydd yn cael ei gredu yn cynyddu.
- benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr asedau yn disgyn.

Nid yw buddsoddiadau a nodir fel “benthyciadau a derbyniadau” a benthyciadau a ddelir yn cael eu cario ar werth teg, ac felly ni fydd newidiadau i’w gwerth teg yn effeithio ar yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae’r newidiadau yn y llog sy’n daladwy ac yn ddyledus ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfraddau cyfnewidiol yn cael eu nodi ar y Gwarged neu’r Diffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau. Caiff symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog a ddynodir fel “ar gael i’w gwerthu” eu hadlewyrchu yn yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Mae Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn ceisio lleihau’r risgiau hyn drwy osod uchafswm ar y symiau net sy’n agored i gyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol. Ar 31 Mawrth 2013 roedd 100% o’r prif symiau net a fenthycwyd (h.y. dyled net o fuddsoddiad) yn agored i gyfraddau sefydlog a 0% i gyfraddau cyfnewidiol.

Petai’r holl gyfraddau llog wedi bod 1% yn uwch neu lai (gyda’r elfennau newidiol eraill oll yn ddisymud), yr effaith ariannol fyddai:

	1% yn uwch £'000	1% yn llai £'000
Cynnydd yn y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau cyfradd newidiol	0	0
Cynnydd yn y llog sy'n daladwy ar fuddsoddiadau cyfradd newidiol	257	(144)
Effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	257	(144)
Lleihad yng ngwerth teg yr asedau buddsoddiad cyfradd sefydlog	0	0
Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0
Lleihad yng ngwerth teg benthyciadau / rhwymedigaethau cyfradd sefydlog*	(22,090)	22,090

*Dim effaith ar y Gwarged na’r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau nag ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Risg y Farchnad : Risg Pris

Mae prisiau marchnad buddsoddiadau’r Cyngor mewn bondiau cyfradd sefydlog a’i unedau mewn cynlluniau buddsoddi cyfunol yn cael eu llywodraethu gan y cyfraddau llog cyffredinol a rheolir y risg marchnad sy’n gysylltiedig â’r offerynnau hyn ar y cyd â’r risg cyfraddau llog.

Nid yw’r Cyngor yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti ac felly nid yw’n agored i risg pris. Mae’r Cyngor yn berchennog cyfranddaliadau mewn Cwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol (LAWDC). Mae’r gweithgareddau perthnasol wedi eu mewnnoli, a’r cwmni yn cael ei ddirwyn i ben ac felly wedi cael ei ddynodi fel ased sydd ar gael i’w gwerthu a’i ddatgan ar werth teg ar Y Fantolen. Derbyniwyd setliad rhannol am werth teg y cyfranddaliadau yn ystod 2008/09 a 2009/10 ac mae’r balans yn parhau’n ddyledus. Ni all y broses yma cael ei gwblhau yn derfynol nes mae materion treth benodol a perthnasol wedi eu datrys gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Risg y Farchnad : Risg y Gyfnewidfa Dramor

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau na rhwymedigaethau ariannol mewn arian tramor. Felly nid yw’n agored i golledion o ganlyniad i symudiadau niweidiol mewn cyfraddau cyfnewid.

NODYN 19 – STOC

2011/12 £'000	2012/13 £'000
1,380	1,257
Stoc a Gwaith mewn llaw	
1,380	1,257

NODYN 20 – DYLEDWYR TYMOR BYR

	Dyledwyr NET o amhariad	
	31 Mawrth	31 Mawrth
	2012	2013
	£'000	£'000
Llywodraeth Cymru	10,186	20,606
Cyrff Llywodraeth Ganolog Eraill	4,534	6,276
Awdurdodau Lleol Eraill	2,530	3,875
Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol	2,190	2,315
Corfforaethau a Masnachu Cyhoeddus	15	32
Treth Cyngor	1,892	1,773
Endidau Eraill ac Unigolion	7,352	9,995
Cyfanswm	28,699	44,872

NODYN 21 – ARIAN A CHYWERTHOEDD ARIAN

Mae arian yn cynnwys arian parod ac arian ar adnau yn ôl y galw. Bydd arian parod hefyd yn cynnwys gorddrafft gan fanciau y mae'n rhaid eu had-dalu yn ôl y galw, sy'n greiddiol i reolaeth arian yr awdurdod.

Mae balansau a ddisgrifir fel 'Chywerthydd Arian' yn cael eu diffinio fel buddsoddiadau byrdymor, hylifol iawn, y gellir eu troi yn symiau arian parod, ac nad oes llawer o risg iddynt newid yn eu gwerth.

Mae balans net yr Arian a Chywerthydd Arian yn cynnwys yr elfennau a ganlyn ar ddyddiad y Fantolen:

	31 Mawrth	31 Mawrth
	2012	2013
	£'000	£'000
Arian mewn llaw	15	14
Cyfrif Banc Cyfredol	42	47
Cyfrif Galw	17,630	13,030
	<hr/> 17,687	<hr/> 13,091
Gorddrafft Banc	(6,904)	(11,787)
	<hr/> 10,783	<hr/> 1,304

Er mwyn uchafu'r adenillion o Fuddsoddiadau Tymor Byr ac Adneuron Banc, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian sydd dros ben yn eu cyfrifon banc yn y tymor byr ynghyd âg unrhyw arian sydd dros ben yng nghyfrifon banc Gronfa Bensiwn Gwynedd. Telir rhaniad priodol o'r llog a enillir i'r Gronfa Bensiwn a rhennir unrhyw golledion ar fuddsoddiadau gyda'r Gronfa Bensiwn yn yr un modd. Oherwydd natur y trefniadau banc nid yw'r arian sydd dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor ac felly mae rhan o'r Buddsoddiadau Tymor Byr (Nodyn 18) a'r Cyfrif Galw a Chronfeydd Marchnad Arian a ddangosir uchod yn cynrychioli arian sydd wedi ei fuddsoddi ar ran y Gronfa Bensiwn ar ddyddiad y fantolen. Oherwydd y ffaith fod y buddsoddiadau yn enw Cyngor Gwynedd maent yn ymddangos yn eu cyfanrwydd ar y Fantolen. £7.4m (£3.4m ar 31 Mawrth 2012) oedd elfen Buddsoddiadau Tymor Byr ac Adneuron Banc y Gronfa Bensiwn.

NODYN 22 – ASED AU AR GAEL I'W GWERTHU

	2011/12	2012/13
	£'000	£'000
Balans 1 Ebrill	2,052	1,607
<u>Asedau newydd eu dosbarthu fel rhai ar gael i'w gwerthu:</u>		
Eiddo, Offer a Chyfarpar	0	1,602
Gwariant yn y flwyddyn	23	2
Colledion ailbriso	0	0
Enillion ailbriso	0	0
Colledion Amharu	(23)	(2)
<u>Asedau wedi eu tynnu allan o'r dosbarth sydd ar gael i'w gwerthu:</u>		
Eiddo, Offer a Chyfarpar	0	(60)
Asedau wedi eu gwerthu	(445)	(244)
Trosglwyddo o anghyfredol i cyfredol	0	0
Balans 31 Mawrth	1,607	2,905

NODYN 23 – CREDYDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth	31 Mawrth
	2012	2013
	£'000	£'000
Llywodraeth Cymru	1,992	567
Cyrff Llywodraeth Ganolog Eraill	6,865	6,699
Awdurdodau Lleol Eraill	6,956	19,787
Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol	646	847
Corfforaethau a Masnachu Cyhoeddus	212	192
Treth Cyngor	1,031	905
Endidau Eraill ac Unigolion	25,339	29,780
Cyfanswm	43,041	58,777

NODYN 24 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyngor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymadau penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir rheiny yn Nodyn 10.

Mae'r manylion isod wedi eu rhannu'n ddarpariaethau tymor byr (o fewn 12 mis) a darpariaethau tymor hir (dros 12 mis). Fodd bynnag, cynhelir adolygiad cyfnodol ar lefel darpariaeth yr eitemau perthnasol.

	Balans ar 1 Ebrill 2011 £'000	Balans ar 31 Mawrth 2012 £'000	(Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad £'000	Defnydd yn y flwyddyn £'000	Balans ar 31 Mawrth 2013 £'000
<u>Darpariaethau Tymor</u>					
<u>Byr</u>					
Darpariaeth Safle Gwastraff	(906)	(2,383)	(1,160)	2,383	(1,160)
Erail	0	(34)	(20)	27	(27)
	<u>(906)</u>	<u>(2,417)</u>	<u>(1,180)</u>	<u>2,410</u>	<u>(1,187)</u>
<u>Darpariaethau Tymor</u>					
<u>Hir</u>					
Gwasanaethau Cymdeithasol	(27)	0	0	0	0
Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl	(117)	0	0	0	0
Ad-daliad Trosglwyddiadau Treth y Cyngor	(297)	(250)	0	0	(250)
Adolygiad Tâl	(1,935)	(2,188)	0	0	(2,188)
Darpariaeth Safle Gwastraff	(11,734)	(9,608)	(257)	1,160	(8,705)
Darpariaeth Achosion Trydydd Parti	0	(535)	0	90	(445)
Darpariaeth Yswiriant MMI	0	0	(198)	0	(198)
Erail	(214)	(176)	0	63	(113)
	<u>(14,324)</u>	<u>(12,757)</u>	<u>(455)</u>	<u>1,313</u>	<u>(11,899)</u>
Cyfanswm	(15,230)	(15,174)	(1,635)	3,723	(13,086)

Darpariaeth Ad-daliad Trosglwyddiadau Treth y Cyngor - Darpariaeth cysylltiedig â'r colledion yn deillio o drosglwyddiadau eiddo o Dreth y Cyngor i Drethi Annomestig Cenedlaethol.

Darpariaeth Adolygiad Tâl – darpariaeth mewn perthynas ag achosion a hawliadau cyflog cyfartal yn erbyn y Cyngor.

Darpariaeth Safleoedd Tirlenwi – ar gyfer gofynion gwaith capio ac ôl-ofal holl safleoedd gwaredu gwastraff y Cyngor.

Darpariaeth Achosion Trydydd Parti – mewn perthynas ag achosion a hawliadau trydydd parti yn erbyn y Cyngor.

Darpariaeth M.M.I. (Yswiriant Municipal Mutual) – darpariaeth gan fod yr Awdurdod yn agored i ymrwymiad yswiriant yn ymwneud â threfniadau yswiriant ei Awdurdodau blaenorol ac Yswiriant Municipal Mutual.

Darpariaethau Eraill – Mân faterion yw'r darpariaethau unigol eraill.

NODYN 25 – RESERFAU DEFNYDDIADWY

Mae'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau yn manylu ar y symudiad yn reserfau defnyddiadwy'r Awdurdod.

NODYN 26 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

1 Ebrill 2011 £'000	31 Mawrth 2012 £'000		31 Mawrth 2013 £'000
56,977	50,736	Reserf Ailbrisia	44,043
60	60	Reserf Offerynnau Ariannol ar Gael i'w Gwerthu	60
139,665	152,154	Cyfrif Addasu Cyfalaf	163,466
(993)	(1,015)	Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	(959)
42	8	Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig	6
(90,421)	(128,153)	Reserf Pensiynau	(168,179)
(3,679)	(4,060)	Cyfrif Absenoldeb Cronedig	(3,201)
101,651	69,730	Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio	35,236

Reserf Ailbrisia

Mae'r Reserf Ailbrisia yn cynnwys enillion wnaed gan yr Awdurdod yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar. Gostyngir y balans pan gaiff asedau gydag enillion cronedig eu:

- ailbrisia i lawr neu eu amharu a bod yr enillion yn cael eu colli.
- defnyddio i ddarparu gwasanaethau a bod yr enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiant, neu
- gwaredu a'r enillion yn cael eu cyflawni.

Dim ond enillion ailbrisia sydd wedi eu cronni ers 1 Ebrill 2007, sef dyddiad creu y Reserf, sy'n cael eu cynnwys yn y Reserf. Caiff unrhyw enillion sydd wedi eu cronni cyn y dyddiad yma eu cynnwys ym malans y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

2011/12 £'000		2012/13 £'000
56,977	Balans 1 Ebrill	50,736
689	Ailbrisia asedau i fyny	1,057
(5,551)	Ailbrisia asedau i lawr a cholledion amharu	(6,518)
(4,862)	Gwarged neu ddiffyg wrth ailbrisia asedion	(5,461)
(1,062)	Gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant hanesyddol	(911)
(317)	Elw cronedig ar asedion a werthwyd	(321)
(1,379)	Swm i'w sgwennu i ffwrdd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	(1,232)
50,736	Balans 31 Mawrth	44,043

Reserf Offerynnau Ariannol ar gael i'w Gwerthu

Mae'r Reserf Offerynnau Ariannol ar gael i'w Gwerthu yn cynnwys yr enillion wnaed gan yr Awdurdod o ganlyniad i gynnydd yng ngwerth ei fuddsoddiadau sydd unai â phris marchnad a ddyfynnwyd, neu sydd heb daliadau penodol neu sefydlog. Gostyngir y balans pan mae buddsoddiadau gydag elw cronedig yn cael eu:

- ailbrisia i lawr neu eu amharu a'r elw'n cael ei golli
- gwerthu a'r elw'n cael ei gyflawni.

2011/12 £000	2012/13 £000
60	60
0	0
0	0
0	0
60	60

Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn amsugno y gwahaniaethau amser sy'n codi oherwydd y gwahaniaethau mewn trefniadau cyfrifeg am ddefnyddio asedau tymor hir a chyllido y prynu, adeiladu a gwella yr asedau o dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda'r gost o brynu, adeiladu a gwella gan bod dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddio yn cael ei gyfrifo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda thrafodion cysoni yn y Reserf Ailbrisiu i drawsnewid y ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Mae'r Cyfrif yn cael ei gredydu gyda'r swm wedi ei neilltuo gan yr Awdurdod fel cyllid i brynu, adeiladu a gwella asedau.

Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi ac enillion wedi eu hadnabod ar asedau rhoddi sydd heb eu treulio eto gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisiu wedi cronni ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y creuwyd y Reserf Ailbrisiu i gofnodi enillion o'r fath.

Mae Nodyn 9 yn dangos manylion yr holl drafodion o fewn y Cyfrif, ond am y rhai sydd yn cael eu cynnwys yn y Reserf Ailbrisiu.

2011/12 £'000		2012/13 £'000
149,676	Balans 1 Ebrill	152,154
(10,011)	Addasu Balans Agoriadol	0
139,665	Ail ddatgan Balans Agoriadol	152,154
<u>Gwrthdroi eitemau sydd yn berthnasol i wariant cyfalaf sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u>		
(17,005)	Dibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol	(18,167)
(4,679)	Gwariant Refeniw wedi'w ariannu o Gyfalaf drwy Statud	(6,452)
(549)	Addasiad i falansau asedau anghyfredol wrth werthu	(491)
1,062	Trosglwyddo o'r Reserf Ailbrisio Cyfalaf	911
<u>Ariannu Cyfalaf a gyfeiriwyd yn y flwyddyn:</u>		
3,489	Derbyniadau Cyfalaf	2,345
16,108	Grantiau a Chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i ariannu cyfalaf	19,170
5,797	Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	5,692
7,497	Gwariant Cyfalaf wedi ei gyfeirio yn y flwyddyn i'r Gronfa Gyffredinol	7,574
1,347	Derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd / Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth	730
(578)	Eraill - ad-daliad benthyciadau i drydydd parti	0
152,154	Balans 31 Mawrth	163,466

Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol

Sefydlwyd y Cyfrif Addasiadau i Offerynnau Ariannol (FIAA) ar 1 Ebrill 2007 pan fabwysiadwyd Safonau Adrodd Ariannol 25, 26 a 29 gan y Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (SORP 2007). Mae'r balans yn y cyfrif FIAA ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cynrychioli'r swm y dylai fod wedi'i godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn unol ag arferion cyfrifo cywir o dan y Cod Ymarfer, ond y mae Darpariaethau Statudol yn caniatáu neu'n gorfodi iddynt gael eu gohirio dros flynyddoedd dilynol.

Mae'n ofynnol i bob premiwm a disgownt o ganlyniad i ddiwedd benthyciadau o 1 Ebrill 2006 ymlaen gael eu codi'n llawn ar Incwm a Gwariant. Lle bo'r trafodion yn cwrdd â'r diffiniad o gyfaddasiad mae unrhyw breimiwm neu ddisgownt yn cael ei ychwanegu at werth cario'r benthyciad, ac yn cael ei amorteiddio i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros oes y benthyciad newydd. Mae cyfaddasiad yn digwydd pan nad yw telerau'r ddyled newydd yn "sylweddol wahanol" i rai'r hen ddyled.

Caiff premiymau a disgowntiau sy'n berthnasol i drafodion a ddigwyddodd cyn 1 Ebrill 2006 eu dosbarthu'n rhai sydd yn grog a rhai nad ydynt yn grog. Mae premiymau a disgowntiau crog yn rhai na ellir eu cysylltu gyda benthyciad sy'n parhau. Caiff y rhain eu dileu'n llawn fel addasiad i Falansau'r Gronfa Gyffredinol a Ddygir Ymlaen ar 1 Ebrill 2007.

Yn achos premiymau neu ddisgowntiau crog, neu'r rhai sy'n perthyn i ddyledion sydd wedi'u dileu, mae Darpariaethau Statudol yn bodoli sy'n anwybyddu darpariaethau'r Cod Ymarfer. Caiff y taliadau a godir eu gwrthdroi yn y Datganiad o'r Symudiad yn y Reserfau a chaiff premiymau a disgowntiau eu hamorteiddio i Refeniw dros gyfnod o flynyddoedd. Lle nad yw premiymau a disgowntiau yn grog, neu lle maent yn gysylltiedig â thrafodion sy'n cwrdd â meini prawf cyfaddasu benthyciad, nid yw'r darpariaethau statudol yn ymwneud â'r Gronfa Gyffredinol yn gymwys.

Gall premiymau sydd wedi'u hamorteiddio o dan ddarpariaethau statudol gael eu codi ar y Gronfa Gyffredinol, naill ai dros weddill oes y benthyciad gwreiddiol neu dros oes y benthyciad newydd, p'run bynnag yw'r cyfnod hwyaf. Rhaid i ddisgownt gael ei gredu i'r Gronfa Gyffredinol naill ai dros 10 mlynedd neu dros oes y benthyciad gwreiddiol, p'un bynnag yw'r cyfnod byrraf.

Mae'r trafodion a adlewyrchir yn yr FIAA ar gyfer 2012/13 fel a ganlyn:

2011/12 £000		2012/13 £000
(993)	Balans 1 Ebrill	(1,015)
45	Cyfran o breimiymau sy'n berthnasol i flynyddoedd blaenorol sydd yn gynwysiedig ym malansau'r Gronfa Gyffredinol yn unol â gofynion statudol	46
(67)	Credyd gohiriedig am dderbyniad taliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal	10
(1,015)	Balans 31 Mawrth	(959)

Reserf Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig

Mae'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig yn dal yr enillion cydnabyddedig sy'n deillio o werthu asedau anghyfredol, nad oes taliad ariannol wedi ei wneud amdanynt eto. Yn unol â threfniadau statudol, nid yw'r Awdurdod yn trin yr enillion hyn fel rhai y gellir eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf newydd hyd nes y derbynnir yr arian amdanynt. Unwaith mae'r setliad ariannol yn digwydd, mae'r symiau yn cael eu trosglwyddo i'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf.

2011/12 £000		2012/13 £000
42	Balans 1 Ebrill	8
(26)	Addasu Balans Agoriadol	0
(8)	Ad-dalu Prifswm Morgeisi Hawl i Brynu	(2)
8	Balans 31 Mawrth	6

Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r rhwymedigaeth yn diweddar i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion wedi ei hennill cael eu ariannu fel y mae'r Awdurdod yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu yn y diwedd talu pensiwn ble mae'n bennaf gyfrifol. Mae balans debyd y Reserf Pensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enilledig gan gyn weithwyr a gweithwyr presennol ble mae'r Awdurdod wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

2011/12 £000		2012/13 £000
(90,421)	Balans 1 Ebrill	(128,153)
(41,900)	Enillion/Colledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymadau Pensiwn	(40,951)
(13,445)	Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gweddill neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(17,214)
17,613	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	18,139
(128,153)	Balans 31 Mawrth	(168,179)

Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy Gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymeryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

2011/12 £000		2012/13 £000
(3,679)	Balans 1 Ebrill	(4,060)
(381)	Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	859
(4,060)	Balans 31 Mawrth	(3,201)

NODYN 27a – DATGANIAD LLIF ARIAN : ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

2011/12 £'000		2012/13 £'000
(11,195)	Dibrisiant	(11,430)
(15,819)	Amhariad ac ailbriso i lawr	(6,735)
(1,700)	(Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwy	(15,958)
2,490	Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwy	16,063
129	Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Stoc	(123)
4,168	Ymrwymiad pensiwn	925
(867)	Gwerth i'w gwario ar asedau anghyfredol a werthwyd	(813)
(5,627)	Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau	(3,544)
(28,421)		(21,615)

NODYN 27b – DATGANIAD LLIF ARIAN : ADDASIADAU AM EITEMAU CYNWYSEDIG YN Y GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU SYDD YN WEITHGAREDDAU BUDDSODDI NEU ARIANNU

2011/12 £'000		2012/13 £'000
1,267	Elw o werthiant eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	856
1,267		856

NODYN 27c – DATGANIAD LLIF ARIAN : GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

Mae'r llif arian o weithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

2011/12 £'000		2012/13 £'000
(859)	Llog dderbyniwyd	(792)
6,249	Llog a dalwyd	5,989

NODYN 28 – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

2011/12 £'000		2012/13 £'000
31,838	Prynu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	31,733
4,774	Taliadau eraill am weithgareddau buddsoddi	6,638
(1,917)	Derbyniadau o werthu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	(934)
(14,563)	Derbyniadau o fuddsoddiadau tymor byr a thymor hir	(144)
20,132	Llif arian net o weithgareddau buddsoddi	37,293

NODYN 29 – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU ARIANNU

2011/12 £'000		2012/13 £'000
88	Taliadau ariannol i leihau'r ymrwymiad sy'n ddyledus yn ymwneud â Phrydlesau Cyllidol	20
4,336	Ad-daliadau benthyciadau tymor byr a thymor hir	1,110
4,424	Llif arian net o weithgareddau ariannu	1,130

NODYN 30 – SYMIAU ADRODDWYD AR GYFER PENDERFYNIADAU DYRANNU ADNODDAU

Mae'r dadansoddiad o incwm a gwariant fesul gwasanaeth a ddengys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn unol â'r hyn sydd wedi ei bennu gan y Côt Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth. Fodd bynnag, caiff y penderfyniadau ynghylch dyraniad adnoddau eu gwneud gan Fwrdd y Cyngor ar sail adroddiadau cyllideb sydd wedi eu dadansoddi ar draws adrannau. Caiff yr adroddiadau hyn eu paratoi ar sail wahanol i'r polisiâu cyfrifo ddefnyddiwyd yn y datganiadau ariannol. Yn benodol:

- nid oes costau'n berthnasol i wariant cyfalaf (gan bod dibrisiant, ail-brisiad a cholledion amhariad sy'n uwch na'r balans ar y Reserf Ailbrisio ac amorteiddiadau yn cael eu rhoi'n erbyn y gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr)
- mae costau buddion ymddeol yn seiliedig ar lif arian (taliad cyfraniadau pensiwn y cyflogwr) yn hytrach na chost buddion gwasanaeth cyfredol wedi eu cronni'n y flwyddyn
- cyllidebir am wariant ar rai gwasanaethau cefnogol yn ganolog, ac ni chaiff ei rannu allan i'r Adrannau.

Dengys y cysoniad hwn y berthynas rhwng y ffigyrau yn y dadansoddiad o wariant ac incwm Adrannol a'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ogystal â dangos y berthynas rhwng y dadansoddiad o wariant ac incwm Adrannol a'r dadansoddiad goddrychol o'r Gweddill neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n gynwysiedig yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2012/13	Gwariant			Cyfanswm	Incwm		Cyfanswm	Gwariant
SYMAU ADRODDWYD AR GYFER PENDERFYNIADAU DYRANNU ADNODDAU	Gweithwyr	Eraill	Cefnogaeth Ganolog	Gwariant	Ffioedd ac Eraill	Grantiau a Chyfraniadau Llywodraeth	Incwm	Net
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Adnoddau Dynol	2,938	390	1	3,329	(71)	(40)	(111)	3,218
Cyllid	5,191	1,103	1	6,295	(1,638)	(1,066)	(2,704)	3,591
Democratiaeth a Chyfreithiol	2,180	930	6	3,116	(631)	(316)	(947)	2,169
Gofal Cwsmer	5,000	3,031	8	8,039	(1,096)	(63)	(1,159)	6,880
Strategol a Gwella	3,434	3,118	7	6,559	(22)	(2,391)	(2,413)	4,146
Addysg	73,114	34,891	189	108,194	(6,736)	(21,667)	(28,403)	79,791
Economi a Chymuned	4,748	8,092	15	12,855	(4,024)	(5,600)	(9,624)	3,231
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	16,365	18,982	5	35,352	(8,966)	(4,311)	(13,277)	22,075
Rheoleiddio	5,923	8,610	0	14,533	(3,901)	(4,077)	(7,978)	6,555
Ymgynghoriaeth	2,875	826	(433)	3,268	(2,491)	(204)	(2,695)	573
Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth a Gogledd Cymru	0	0	(85)	(85)	(145)	0	(145)	(230)
Darparu a Hamdden	25,392	(5,945)	1	19,448	(3,706)	(774)	(4,480)	14,968
Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol	14,508	48,787	5	63,300	(11,015)	(10,816)	(21,831)	41,469
Cyfanswm eitemau o dan Reolaeth Adrannol	161,668	122,815	(280)	284,203	(44,442)	(51,325)	(95,767)	188,436
Corfforaethol	482	15,875	24,591	40,948	(354)	(41,060)	(41,414)	(466)
Tim Rheoli Corfforaethol	607	190	0	797	0	(38)	(38)	759
Cyfanswm eitemau o dan Reolaeth Adrannol a Gwasanaethau Cefnogol Canolog	162,757	138,880	24,311	325,948	(44,796)	(92,423)	(137,219)	188,729
Eitemau o fewn cost net gwasanaethau, dim o dan reolaeth adrannol:								
Costau Cyfalaf	0	22,788	0	22,788	0	0	0	22,788
Eitemau o dan reolaeth adrannol, dim yn cost net gwasanaethau:								
Cyfraniadau i Gronfeydd	(329)	(1,667)	0	(1,996)	0	0	0	(1,996)
Defnydd o Gronfeydd	0	0	0	0	2,824	0	2,824	2,824
Cost Net Gwasanaethau	162,428	160,001	24,311	346,740	(41,972)	(92,423)	(134,395)	212,345
Gwariant Gweithredol Arall								
Praeseptau a Lefiau	0	18,882	0	18,882	0	0	0	18,882
(Gwarged)/Colledion ar waredu Asedau Anghyfredol	0	0	0	0	(42)	0	(42)	(42)
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi								
Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg	0	6,730	0	6,730	0	0	0	6,730
Cost Llog Pensiynau ac Enillion a Ddisgwyllir ar Asedau	0	0	3,111	3,111	0	0	0	3,111
Llog ac Incwm ar Fuddsoddiadau	0	0	0	0	(682)	0	(682)	(682)
Treth ac Incwm Grant Amhenodol								
Y Dreth Cyngor	0	0	0	0	(63,374)	0	(63,374)	(63,374)
Incwm Net y Dreth Ddi-Annedd	0	0	0	0	(32,801)	0	(32,801)	(32,801)
Grantiau Llywodraeth - Refeniw	0	0	0	0	0	(136,566)	(136,566)	(136,566)
Grantiau a Chyfraniadau - Cyfalaf	0	0	0	0	(504)	(15,284)	(15,788)	(15,788)
(Gweddill)/ Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	162,428	185,613	27,422	375,463	(139,375)	(244,273)	(383,648)	(8,185)

2011/12	Gwariant			Cyfanswm	Incwm		Cyfanswm	Gwariant
SYMAU ADRODDWYD AR GYFER PENDERFYNIADAU DYRANNU ADNODDAU	Gweithwyr	Eraill	Cefnogaeth Ganolog	Gwariant	Ffioedd ac Eraill	Grantiau a Chyfraniadau Llywodraeth	Incwm	Net
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Adnoddau Dynol	3,187	315	1	3,503	(101)	0	(101)	3,402
Cyllid	5,162	1,151	1	6,314	(1,703)	(988)	(2,691)	3,623
Democratiaeth a Chyfreithiol	3,426	1,156	2	4,584	(1,260)	(99)	(1,359)	3,225
Gofal Cwsmer	4,783	3,054	1	7,838	(1,358)	(8)	(1,366)	6,472
Strategol a Gwella	2,666	3,768	2	6,436	(909)	(2,952)	(3,861)	2,575
Addysg	71,818	28,375	89	100,282	(7,567)	(13,386)	(20,953)	79,329
Economi a Chymuned	4,981	5,877	15	10,873	(4,079)	(3,061)	(7,140)	3,733
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	16,377	19,398	51	35,826	(8,947)	(4,756)	(13,703)	22,123
Rheoleiddio	6,365	8,483	217	15,065	(4,532)	(3,484)	(8,016)	7,049
Ymgynghoriaeth	2,842	1,072	(379)	3,535	(3,258)	0	(3,258)	277
Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth a Gogledd Cymru	0	0	(424)	(424)	0	0	0	(424)
Darparu a Hamdden	26,507	(7,052)	1	19,456	(3,280)	(817)	(4,097)	15,359
Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol	13,697	46,305	5	60,007	(14,030)	(5,833)	(19,863)	40,144
Cyfanswm eitemau o dan Reolaeth Adrannol	161,811	111,902	(418)	273,295	(51,024)	(35,384)	(86,408)	186,887
Corfforaethol	1,684	(19,770)	59,911	41,825	(3,300)	(37,926)	(41,226)	599
Tim Rheoli Corfforaethol	645	239	0	884	(32)	(35)	(67)	817
Cyfanswm eitemau o dan Reolaeth Adrannol a Gwasanaethau Cefnogol Canolog	164,140	92,371	59,493	316,004	(54,356)	(73,345)	(127,701)	188,303
Eitemau o fewn cost net gwasanaethau, dim o dan reolaeth adrannol:								
Costau Cyfalaf	0	30,034	0	30,034	0	0	0	30,034
Eitemau o dan reolaeth adrannol, dim yn cost net gwasanaethau:								
Cyfraniadau i Gronfeydd	(329)	(2,550)	0	(2,879)	0	0	0	(2,879)
Defnydd o Gronfeydd	0	0	0	0	1,732	0	1,732	1,732
Cost Net Gwasanaethau	163,811	119,855	59,493	343,159	(52,624)	(73,345)	(125,969)	217,190
Gwariant Gweithredol Arall								
Praeseptau a Lefiau	0	18,588	0	18,588	0	0	0	18,588
(Gwarged)/Colledion ar waredu Asedau Anghyfredol	0	0	0	0	(401)	0	(401)	(401)
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi								
Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg	0	6,747	0	6,747	0	0	0	6,747
Cost Llog Pensiynau ac Enillion a Ddisgwyllir ar Asedau	0	0	(218)	(218)	0	0	0	(218)
Llog ac Incwm ar Fuddsoddiadau	0	0	0	0	(901)	0	(901)	(901)
Treth ac Incwm Grant Amhenodol								
Y Dreth Cyngor	0	0	0	0	(61,353)	0	(61,353)	(61,353)
Incwm Net y Dreth Ddi-Annedd	0	0	0	0	(28,327)	0	(28,327)	(28,327)
Grantiau Llywodraeth - Refeniw	0	0	0	0	0	(141,003)	(141,003)	(141,003)
Grantiau a Chyfraniadau - Cyfalaf	0	0	0	0	(792)	(14,097)	(14,889)	(14,889)
(Gweddill)/ Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	163,811	145,190	59,275	368,276	(144,398)	(228,445)	(372,843)	(4,567)

NODYN 31 – GWASANAETHAU ASIANTAETH

Mae'r Cyngor yn gweithredu ar sail asiant i ddarparu rhai gwasanaethau, ac hefyd yn gweinyddu Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

O ran yr Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, y prif weithgareddau yw cynnal a rheoli'r rhwydwaith cefnffyrdd sydd yn ymestyn i 1,174 cilomedr yn ardal Partneriaeth Cyngorau Gogledd a Chanolbarth Cymru ar ran Cynulliad Cymru. Bu cynnydd yn nhrefodion incwm a adennillir yn ystod y flwyddyn i £51.26m yn 2012/13 (£36.37m yn 2011/12), o ganlyniad i uniad Asiantaeth y Gogledd gydag Asiantaeth y Canolbarth.

Yn ystod 2012/13 bu i Gyngor Gwynedd weithredu fel asiant fel rhan o gynllun newydd Llywodraeth Cymru, sef 'Troï Tai'n Gartrefi', sef rhoi benthyciadau di-log i berchnogion adeiladau gwag er mwyn defnyddio'r adeiladau eto, i'w gwerthu neu eu rhoi ar rent. Yn ystod 2012/13 rhoddwyd benthyciadau gwerth £50,000 ar gyfer tai yng Ngwynedd.

NODYN 32 – LWFANSAU AELODAU

Talwyd y lwfansau a threuliau canlynol i aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn:

2011/12		2012/13
£'000		£'000
1,131	Lwfansau	1,215
58	Treuliau	64
1,189		1,279

NODYN 33 – TALIADAU I SWYDDOGION

Mae 7A (1) (b) o Reoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Newidiad) 2010, yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar gyfer rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sydd gyda cyflog o rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy ac hefyd gyfraniadau pensiwn y cyflogwr ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gwnaed y taliadau canlynol i uwch swyddogion yr Awdurdod:

Taliadau		2011/12		Uwch Swyddogion	Taliadau		2012/13	
Cyflog £	Erail £	Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr £	Cyfanswm £		Cyflog £	Erail £	Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr £	Cyfanswm £
108,264	173	23,169	131,606	Prif Weithredwr	108,264	0	23,710	131,974
83,121	658	17,788	101,567	Cyfarwyddwr Corfforaethol	86,040	0	18,843	104,883
83,121	311	17,788	101,220	Cyfarwyddwr Corfforaethol	86,040	0	18,843	104,883
83,121	0	17,788	100,909	Cyfarwyddwr Corfforaethol	86,040	0	18,843	104,883
72,200	13	15,451	87,664	Pennaeth Addysg	73,856	0	16,174	90,030
65,169	21	13,946	79,136	Cyf Statudol/Pennaeth Gwas Cym,Tai a Hamdden	71,002	0	15,549	86,551
68,452	76	14,649	83,177	Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeisdrefol	70,970	0	15,542	86,513
65,169	99	13,946	79,214	Pennaeth Adnoddau Dynol	67,716	0	14,830	82,546
65,169	153	13,946	79,268	Pennaeth Cyllid	67,716	0	14,830	82,546
65,169	88	13,946	79,203	Pennaeth Economi a Chymuned	67,716	0	14,830	82,546
65,169	122	13,946	79,237	Pennaeth Gofal Cwsmer	67,716	0	14,830	82,546
64,919	48	13,893	78,860	Pennaeth Rheoleiddio	67,716	0	14,830	82,546
65,169	120	13,946	79,235	Pennaeth Strategol a Gwella	67,716	0	14,830	82,546
60,111	252	12,864	73,227	Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd	60,332	0	13,213	73,545
52,135	32	11,157	63,324	Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol *	54,173	0	11,864	66,037
71,923	66	15,392	87,381	Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol **	29,307	0	2,110	31,417

* Nid yw'r taliad i Bennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol uchod yn cynnwys £7,043 a dalwyd mewn perthynas â'i rôl fel Swyddog Etholiadol yr Awdurdod.

** Adlewyrchu sefyllfa'r swydd hyd at ddiwedd Awst 2012.

Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyngor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ag eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo a dalwyd mewn 2 achos yn 2012/13 a 4 achos yn 2011/12. Ni fyddai'r swyddi yma'n ymddangos isod heblaw'r costau diswyddo dalwyd yn y flwyddyn unigol.

Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:						
Nifer yn 2011/12			Nifer yn 2012/13			
Ysgolion	Erail	Cyfanswm	Ysgolion	Erail	Cyfanswm	
6	1	7	£60,000 - 64,999	8	2	10
5	0	5	£65,000 - 69,999	5	0	5
0	0	0	£70,000 - 74,999	1	1	2
2	2	4	£75,000 - 79,999	2	0	2
0	0	0	£80,000 - 84,999	0	0	0
0	1	1	£85,000 - 89,999	0	0	0
1	1	2	£90,000 - 94,999	1	0	1

Yn cynnwys 2 swyddog Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

NODYN 34 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Awdurdod wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

2011/12		2012/13
£'000		£'000
314	Ffioedd ar gyfer Gwasanaeth Archwilio Allanol	313
111	Ffioedd ar gyfer hawliadau a dychweliadau grant	112
425		425

Mae 'Ffioedd ar gyfer Gwasanaeth Archwilio Allanol' yn cynnwys ffioedd archwilio o £8,300 perthnasol i'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig,, a £2,300 ar gyfer y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

NODYN 35 – INCWM GRANT

Mae'r Cyngor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2012/13:

	Nodyn	2011/12 £'000	2012/13 £'000
Wedi eu Credydu i Dreth ac Incwm Amhenodol			
Grant Cytundebau Canlyniadau (Grantiau'r Llywodraeth heb eu Clustnodi)	13	1,303	1,300
Grant Cynnal Refeniw (Grantiau'r Llywodraeth heb eu Clustnodi)	13	139,700	135,266
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf gan y Llywodraeth			
Grant Cyfalaf Cyffredinol		2,447	2,461
Adfywio Ffisegol Gogledd Cymru		2,224	2,998
Ysgolion 2 Iain Ganrif		0	3,213
ERDF - Cydgyfeiriant		1,113	2,393
Arall		8,313	4,219
	13	14,097	15,284
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf arall	13	792	504
Cyfanswm		155,892	152,354
Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau			
Llywodraeth Cymru -			
Grant Rheolaeth Gwastraff Cynaliadwy		4,020	3,920
Grant Cefnogi Pobl (SPG & SPRG)*		3,344	5,334
Grant Ôl 16 (Addysg)		4,075	4,295
Llwybrau 14-19 (Addysg)**		986	4,212
Grant Cyfnod Sylfaen (Addysg)		3,693	3,881
Grant Tocynnau Teithio Rhad		2,187	2,040
Arall		15,499	18,771
		33,804	42,453
Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall			
Adran Gwaith a Phensiynau		37,075	38,363
Arall		8,707	11,608
		45,782	49,971
Grantiau a Chyfraniadau eraill		2,125	1,778
		81,711	94,202

* Grant Cefnogi Pobl – bu trosglwyddiad cyfrifoldebau gan Lywodraeth Cymru i Gyngor Gwynedd o 1 Awst 2012.

** Grant cynlluniau ar gyfer hyrwyddo partneriaeth 14-19 i roi sylw i hyblygrwydd cwricwlwm / sgiliau. Mae Gwynedd yn gweinyddu y Grant Llwybrau 14-19 (Addysg) ar ran 6 Awdurdod Gogledd Cymru.

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion sydd eto i'w hadnabod fel incwm gan fod amodau wedi eu glynu i'r grantiau sy'n golygu efallai y bydd rhaid dychwelyd yr arian neu'r eiddo i'r rhoddwr. Mae'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2012 £'000	31 Mawrth 2013 £'000
Derbyniadau Grant Ymlaen Llaw		
<u>Tymor Hir</u>		
Grantiau a Chyfraniadau Refeniw :-		
Grantiau Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)	0	499
Grantiau Tai	0	495
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf :-		
Grantiau Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)	298	245
Cyfanswm Tymor Hir	298	1,239
<u>Tymor Byr</u>		
Grantiau a Chyfraniadau Refeniw :-		
Grantiau Addysg	1,577	1,248
Grantiau Economi a Chymuned	978	503
Grantiau Tai	738	263
Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol	41	183
Grantiau Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)	36	13
Grantiau Strategol a Gwella	31	1
Grantiau Darparu a Hamdden	31	49
Grantiau Gofal Cwsmer	2	0
Grantiau Ymgynghoriaeth	59	42
Grantiau Priffyrdd a Bwrdeistrefol	0	3
	3,493	2,305
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf :-		
Grantiau Economi a Chymuned	47	79
Grantiau Tai	86	139
Grantiau Darparu a Hamdden	3	0
	136	218
Cyfanswm Tymor Byr	3,629	2,523
Cyfanswm	3,927	3,762

NODYN 36 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyngor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyngor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyngor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Awdurdod.

Llywodraeth Cymru a Chanolog

Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol yr Awdurdod - mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol, mae'n darparu'r mwyafrif o'r ariannu drwy grantiau ac yn pennu termau nifer o'r trafodaethau sydd gan yr Awdurdod o fewn partïon eraill (e.e. treth y Cyngor, budd-daliadau tai). Ceir dadansoddiad goddrychol o'r grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru ac adrannau eraill y Llywodraeth yn Nodyn 30 sy'n adrodd ar benderfyniadau dyrannu adnoddau. Mae'r sefyllfa perthnasol ar 31 Mawrth i'w gael yn Nodyn 35.

Aelodau

Mae gan aelodau'r Cyngor reolaeth uniongyrchol dros bolisiau ariannol a gweithredol y Cyngor. Ceir cyfanswm y lwfansau a dalwyd i aelodau yn ystod 2012/13 yn Nodyn 32.

Mae'r Awdurdod yn penodi aelodau i rai cyrff elusennol neu wirfoddol neu maent wedi datgan cysylltiad â mudiadau, cyrff ac awdurdodau cyhoeddus. Mae dadansoddiad o'r taliadau a'r balansau ar 31 Mawrth 2013 wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2012/13 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£9,299,205	£1,007,101	(£3,148,100)

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyngor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a'r balansau ar 31 Mawrth 2013 wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2012/13 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£1,066,422	£113,668	(£5,915)

Swyddogion

Mae Uwch Swyddogion (fel a ddiffinir) wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, diddordeb neu berthynas (fel y diffinir) mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyngor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a'r balansau ar 31 Mawrth 2013 wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2012/13 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£3,746,843	£115,178	(£154,431)

Cyrff Cyhoeddus Eraill

Mae'r Awdurdod yn gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Ceir manylion o'r trafodaethau gyda'r Gronfa Bensiwn yn Nodyn 42 ar dudalennau 85 i 90 a Chyfrifon y Gronfa Bensiwn ar dudalennau 94 i 124.

Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru (CBAC)

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£583,849	£1,785	-

Endidau a Reolir neu Ddylanwadir yn Sylweddol arnynt gan yr Awdurdod

Sefydlwyd Cwmni Cynnal Cyf. yn 1996 i ddarparu gwasanaethau cefnogi addysg dan gytundeb i ysgolion unigol ac i awdurdodau addysg lleol yn ogystal â gwasanaethau arolygu ysgolion i Estyn. Mae'r Cwmni yn gyfyngedig dan warant ac fe gyfyngir ymrwymiad y Cyngor i £1. Dim ond tuag at hyrwyddo ei amcanion gellid defnyddio incwm y cwmni. Gellir cael copïau o'r datganiadau ariannol gan Gwmni Cynnal Cyf., Plas Llanwnda, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH. Mae'r taliadau a'r balansau ar 31 Mawrth 2013 i Gwmni Cynnal ar gyfer gwasanaethau i ysgolion yn ystod 2012/13 fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£2,856,546	£22,342	(£29,319)

Sefydlwyd Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf. fel Cwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol yn 1994. Roedd y Cwmni yn gweithredu dau safle rheoli gwastraff yn Ynys Môn a Gwynedd a oedd ar les gan yr Awdurdodau Lleol. Roedd elfen sylweddol o weithgareddau y cwmni yn ymwneud â chontractau â'r ddau Awdurdod Lleol. Yn dilyn newid yn y ddeddfwriaeth, penderfynodd y ddau Gyngor i ddod â'r Cwmni i ben yn ystod 2007/08 a gwneud y gwaith yn fewnol. Trosglwyddwyd yr asedau ac ymrwymadau gweithredol a'r gweithwyr i'r Cyngor ym mis Ionawr 2008. Rhennir yr asedau a'r ymrwymadau eraill rhwng y ddau Gyngor pan mae'r Cwmni yn cael ei diddymu. Nid yw'r cyfrifon terfynol y Cwmni wedi cael eu cwblhau eto ond ail-brisiwyd y buddsoddiad ar y fantolen i adlewyrchu amcangyfrif o'i gwir werth pan fydd y rhaniad asedau terfynol yn digwydd. Derbyniwyd £1,183,580 fel rhan o'r setliad yn ystod 2008/09, £800,000 yn ystod 2009/10 ac mae'r taliad terfynol o £60,000 yn parhau'n ddyledus.

NODYN 37 – GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dengys y tabl isod gyfanswm gwariant cyfalaf am y flwyddyn (yn cynnwys gwerth yr asedau hynny gaffaelwyd drwy brydlesi cyllidol), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Os yw'n fwriad ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol trwy godi tâl yn referniw fel defnyddir asedau gan yr Awdurdod, yna byddai hyn yn arwain at gynnydd yn y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), mesurydd gwariant cyfalaf hanesyddol yr Awdurdod sydd heb ei ariannu eto. Dadansoddir y GCC yn yr ail ran o'r nodyn hwn.

1 Ebrill 2011 £'000	31 Mawrth 2012 £'000		31 Mawrth 2013 £'000
357,770	365,715	Asedau Anghyfredol ac Asedau ar gael i'w gwerthu	373,433
77	0	Buddsoddiadau Tymor Hir	0
578	0	Dyledwyr Tymor Hir	0
(56,977)	(50,736)	Reserf Ailbriso	(44,043)
(139,665)	(152,154)	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	(163,466)
530	0	Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol (yn berthnasol i Asedau Anghyfredol)	0
162,313	162,825	Gofyn Cyllido Cyfalaf	165,924

Mae'r symudiadau am y flwyddyn yn cael eu egluro fel a ganlyn:

2010/11	2011/12		2012/13
£'000	£'000		£'000
162,263	162,313	Gofyn Cyllido Cyfalaf I Ebrill	162,825
		Addasiadau i'r ffigwr agoriadol -	
11,840		Cyfalafu cyfraniad at ddarpariaeth ol-ofalaeth tirlenwi	0
	(607)	Dad-adnabod gwariant cyfalaf parthed buddsoddiadau a debenturon sydd yn berthnasol i'r cynghorau dosbarth blaenorol	0
		Buddsoddiadau Cyfalaf yn y flwyddyn -	
6,576	5,835	Tir ac Adeiladau	9,817
15,979	9,767	Isadeiladwaith	13,737
2,745	5,246	Cerbydau, Offer a Chyfarpar	3,402
7	15	Asedau Cymunedol	20
227,096	9,535	Asedau heb eu cwblhau	4,923
0	23	Asedau ar gyfer gwerthu	2
5,076	4,679	Wedi'w ariannu o gyfalaf drwy statud	6,452
0	257	Cyfalafu cyfraniad at ddarpariaeth ol-ofalaeth tirlenwi	257
(220,096)	(3,489)	Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddwyd	(2,345)
(28,962)	(16,108)	Grantiau Llywodraeth a chyfraniadau eraill	(19,170)
205	(7,498)	Gwariant cyfalaf yn erbyn referniw	(7,574)
(5,647)	(5,797)	Darpariaeth referniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	(5,692)
		Symiau gwirfoddol ychwanegol a neilltuwyd :	
(14,769)	(1,346)	Darpariaeth referniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth	(730)
162,313	162,825	Gofyn Cyllido Cyfalaf 31 Mawrth	165,924

NODYN 38 – PRYDLESAU

Yr Awdurdod fel Prydlesai

Prydlesau Cyllidol

Mae gan y Cyngor nifer o geir ac offer drwy brydlesi cyllidol. Caiff yr Asedau a gaffaelwyd drwy'r Prydlesau hyn eu dangos fel Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen gyda'r gwerth net canlynol:

31 Mawrth 2012		31 Mawrth 2013
£'000		£'000
234	Eiddo, Offer a Chyfarpar	71
234		71

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i dalu isafswm ar y prydlesau hyn sy'n cynnwys setliad o'r ymrwymiad tymor hir am y budd yn yr eiddo gaffaelwyd gan yr Awdurdod a chostau cyllido a fydd yn daladwy gan

yr Awdurdod yn y dyfodol tra mae'r ymrwymiad yn parhau'n ddyledus. Mae'r lleiafswm taliadau prydles fel a ganlyn:

31 Mawrth 2012 £'000		31 Mawrth 2013 £'000
	Ymrwymadau Prydles Gyllidol (gwerth presennol net o'r lleiafswm y taliadau prydles):	
20	cyfredol	14
29	ddim yn gyfredol	15
2	Costau cyllido sy'n daladwy'n y dyfodol	1
51	Lleiafswm y taliadau prydles	30

Mae'r lleiafswm taliadau prydles yn daladwy dros y cyfnodau canlynol:

	Lleiafswm Taliadau Prydles		Ymrwymadau Prydlesau Cyllidol	
	31 Mawrth 2012 £'000	31 Mawrth 2013 £'000	31 Mawrth 2012 £'000	31 Mawrth 2013 £'000
	Dim mwy na blwyddyn	22	15	20
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd	29	15	29	15
	51	30	49	29

Yn 2012/13, gwnaethpwyd lleiafswm taliadau prydles o £23,528 (2011/12 - £90,240) gan yr Awdurdod mewn perthynas â'r asedau hynny a ddeli'r fel prydlesau cyllidol.

Prydlesau Gweithredol

	31 Mawrth 2012 £'000	31 Mawrth 2013 £'000
Dim mwy na blwyddyn	240	250
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd	52	44
Mwy na pum mlynedd	0	0
	292	294

Y gwariant a godwyd ar y gwasanaethau o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn cysylltiad â'r prydlesau yma oedd:

	2011/12 £'000	2012/13 £'000
Lleiafswm taliadau prydles	492	613
Rhenti amodol	0	0
	492	613

Yr Awdurdod fel Prydleswr

Prydlesau Cyllidol

Nid oes gan Cyngor Gwynedd unrhyw Brydlesi Cyllidol ble mae'r Awdurdod yn Brydleswr.

Prydlesau Gweithredol

Mae'r Awdurdod yn prydlesu eiddo o dan brydlesi gweithredol i'r dibenion canlynol:

- i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned, megis cyfleusterau chwaraeon, gwasanaethau twristiaeth a chanolfannau cymuned
- i bwrpas datblygiad economaidd i ddarparu adeiladau addas a fforddiadwy i fusnesau lleol.

Y lleiafswm taliadau prydles derbyniadwy na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

	31 Mawrth 2012 £'000	31 Mawrth 2013 £'000
Dim mwy na blwyddyn	459	428
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd	885	847
Mwy na pum mlynedd	2,251	2,221
	3,595	3,496

Nid yw'r lleiafswm taliadau derbyniadwy yn cynnwys rhent sydd yn amodol ar ddigwyddiad gymeryd lle ar ôl i'r prydles ddechrau, er enghraifft, addasiadau yn dilyn adolygiad rhent. Yn 2012/13 £930,137 oedd y lleiafswm taliadau prydles derbyniadwy gan yr Awdurdod (£892,890 yn 2011/12).

NODYN 39 – COLLEDION AMHARIAD

Mae Nodyn 15 a 22 yn dangos y symudiad fesul dosbarth o asedau sydd wedi ei gynnwys yn y Gwarged neu Golled ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ac i Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

NODYN 40 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Mae'r nifer o becynnau terfynu gwaith sydd yn cynnwys cyfanswm y gost fesul band a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gost yn y tabl isod yn adlewyrchu'r gost berthnasol i'r cyflogwr yn hytrach na gwir gost y taliadau i'r unigolion:

(a)	(b)		(c)		(d)		(e)	
Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig)	Nifer diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill		Nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost		Cyfanswm cost y pecynnau terfynu gwaith ymhob band	
£	2011/12	2012/13	2011/12	2012/13	2011/12	2012/13	2011/12	2012/13
	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	£'000	£'000
0 - 20,000	47	45	0	0	47	45	258	224
20,001 - 40,000	10	8	0	0	10	8	295	207
40,001 - 60,000	7	2	0	0	7	2	347	95
60,001 - 80,000	2	1	0	0	2	1	137	70
80,001 - 100,000	1	1	0	0	1	1	82	87
100,001 - 150,000	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	67	57	0	0	67	57	1,119	683

NODYN 41 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan Capita Teachers' Pensions ar ran Adran Addysg Llywodraeth San Steffan. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i Athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Awdurdod yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau.

Mewn egwyddor cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Er hynny, mae'r cynllun heb ei ariannu ac mae'r Adran dros Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w talu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Awdurdod yn gallu adnabod ei rhan o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad o'r Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2012/13 talodd y Cyngor £5.98m (£5.90m yn 2011/12) am gost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 13.75% (13.69% yn 2011/12) o dâl pensiynadwy athrawon. Yn ychwanegol at hyn mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a dyfarnir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Yn 2012/13 roedd hyn yn £1m (£0.96m yn 2011/12), ac yn cynrychioli 2.29% (2.30% yn 2011/12). Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a'u cynhwysir yn Nodyn 42.

NODYN 42 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ar ôl cyflogaeth. Er nad yw'r buddion yma yn cael eu talu hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ar ôl cyflogaeth:

- a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion a ddiffinnir a phensiwn cyflog terfynol, sy'n golygu bod yr Awdurdod a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio ymrwymadau'r gronfa gyda'r asedau a fuddsoddir.
- b) **Trefniadau ar gyfer dyfarniad buddiannau ar ôl ymddeol wrth ymddeol yn fuan.** Trefniant buddion a ddiffinnir heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymadau wrth wneud y dyfarniad. Er hynny, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiwnau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Trafodion sydd yn Perthyn i Fuddion ar ôl Cyflogaeth

Mae'r Cyngor yn adnabod cost y buddion ymddeol yng nghost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan mae'r buddion yn cael eu talu. Fodd bynnag, mae'r gost sydd rhaid ei ddangos yn erbyn Treth y Cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn. Felly, mae gwir gost buddion ar ôl cyflogaeth/ymddeol yn cael eu gwrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau:

Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Cynllun Pensiwn Cyngor Gwynedd		Cynllun Pensiwn Cronfa Gaeedig Gwynedd		Cyfanswm	
	31	31	31	31	31	31
	Mawrth	Mawrth	Mawrth	Mawrth	Mawrth	Mawrth
	2012	2013	2012	2013	2012	2013
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwariant ar Wasanaethau						
Cost Gwasanaeth Cyfredol	13,434	13,907	0	0	13,434	13,907
Cost Gwasanaeth y Gorffennol	68	67	0	0	68	67
Setliadau a Chwtogiadau	161	129	0	0	161	129
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi						
Cost Llog	22,500	21,628	2,349	2,097	24,849	23,725
Enillion disgwyliedig ar Asedau'r Cynllun	(23,578)	(19,580)	(1,489)	(1,034)	(25,067)	(20,614)
Cyfanswm Buddion ar ôl Cyflogaeth a dalwyd yn y gwaged neu ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau Buddion ar ôl Cyflogaeth eraill a dalwyd yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr						
(Enillion) a Cholledion Actiwariaid	37,883	40,177	4,017	774	41,900	40,951
Cyfanswm Buddion ar ôl Cyflogaeth a dalwyd yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr						
Gwrthdroad o'r taliadau net a dalwyd yn y Gwaged neu Ddiffyg am Ddarpariaeth Buddion ar ôl Cyflogaeth yn unol â'r Cod	(32,855)	(38,189)	(4,877)	(1,837)	(37,732)	(40,026)
Gwir gyfanswm pensiynau a dalwyd o'r Balans y Gronfa Gyffredinol yn ystod y flwyddyn						
Cyfraniadau Cyflogwr i'r Cynllun	17,613	18,139	0	0	17,613	18,139

Mae effaith gronol yr enillion a cholledion actiwariaid sy'n cael ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i 31 Mawrth 2013, yn £115,209,396 (£114,175,060 i 31 Mawrth 2012).

Yr asedau a'r ymrwymïadau ar gyfer Buddion ar ôl Cyflogaeth

Cysoni gwerth presennol ymrwymïadau'r cynllun (ymrwymïad buddion a ddiffinnir):

	Cynllun Pensiwn Cyngor Gwynedd 31 Mawrth		Cynllun Pensiwn Cronfa Gaeedig Gwynedd 31 Mawrth		Cyfanswm 31 Mawrth	
	2012	2013	2012	2013	2012	2013
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
I Ebrill	(407,128)	(447,643)	(44,618)	(45,606)	(451,746)	(493,249)
Cost Gwasanaeth Cyfredol	(13,434)	(13,907)	0	0	(13,434)	(13,907)
Cost Llog	(22,500)	(21,628)	(2,350)	(2,097)	(24,850)	(23,725)
Cyfraniadau gan Aelodau	(4,602)	(4,654)	0	0	(4,602)	(4,654)
Enillion a (Cholledion) Actiwariïaid	(14,047)	(65,076)	(2,516)	(2,093)	(16,563)	(67,169)
Cost Gwasanaeth y Gorffennol	(68)	(67)	0	0	(68)	(67)
Colledion ar Gwtogiad	(161)	(129)	0	0	(161)	(129)
Ymrwymïadau a dileuwyd ar Setliadau	0	0	0	0	0	0
Amcangyfrif o'r Buddion Heb eu Hariannu a Dalwyd	983	977	798	762	1,781	1,739
Amcangyfrif o'r Buddion Dalwyd	13,314	11,837	3,080	3,112	16,394	14,949
31 Mawrth	(447,643)	(540,290)	(45,606)	(45,922)	(493,249)	(586,212)

Cysoni gwerth teg asedau'r cynllun:

	Cynllun Pensiwn Cyngor Gwynedd 31 Mawrth		Cynllun Pensiwn Cronfa Gaeedig Gwynedd 31 Mawrth		Cyfanswm 31 Mawrth	
	2012	2013	2012	2013	2012	2013
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
I Ebrill	338,234	345,096	23,093	20,000	361,327	365,096
Enillion A ddisgwyliid ar yr Asedau	23,577	19,580	1,488	1,034	25,065	20,614
Cyfraniadau gan Aelodau	4,602	4,654	0	0	4,602	4,654
Cyfraniadau gan y Cyflogwr	15,815	16,484	0	0	15,815	16,484
Cyfraniadau mewn perthynas â Buddion Heb eu Hariannu	983	977	798	762	1,781	1,739
Enillion a (Cholledion) Actiwariïaid	(23,818)	24,815	(1,501)	1,319	(25,319)	26,134
Asedau a dosbarthwyd ar Setliadau	0	0	0	0	0	0
Buddion Heb eu Hariannu a Dalwyd	(983)	(977)	(798)	(762)	(1,781)	(1,739)
Buddion Dalwyd	(13,314)	(11,837)	(3,080)	(3,112)	(16,394)	(14,949)
31 Mawrth	345,096	398,792	20,000	19,241	365,096	418,033

Penderfynir ar enillion a ddisgwyllir ar asedau'r cynllun drwy ystyried yr enillion a ddisgwyllir eu cael ar yr asedau sy'n tanlinellu'r polisi buddsoddi cyfredol. Mae'r cynnyrch a ddisgwyllir ar y buddsoddiadau llog sefydlog yn seiliedig ar gynnyrch adbryniant gros fel ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r enillion a ddisgwyllir ar fuddsoddiadau cyfranddaliadau yn adlewyrchu cyfradd o enillion hir dymor gwirioneddol a brofwyd yn y marchnadoedd perthnasol.

Yn ystod y flwyddyn roedd y gwir golled ar asedau'r cynllun yn £46,846,670 (2011/12: cynnydd o £215,654).

Hanes y Cynllun

	Cynllun Pensiwn Cyngor Gwynedd 31 Mawrth		Cynllun Pensiwn Cronfa Gaeedig Gwynedd 31 Mawrth		Cyfanswm 31 Mawrth	
	2012	2013	2012	2013	2012	2013
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth Teg yr Asedau	345,096	398,792	20,000	19,241	365,096	418,033
Gwerth Presennol yr Ymrwymadau	(447,643)	(540,290)	(45,606)	(45,922)	(493,249)	(586,212)
Diffyg y Gronfa	(102,547)	(141,498)	(25,606)	(26,681)	(128,153)	(168,179)

	Cynllun Pensiwn Cyngor Gwynedd 31 Mawrth			Cynllun Pensiwn Cronfa Gaeedig Gwynedd 31 Mawrth		
	2009	2010	2011	2009	2010	2011
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth Teg yr Asedau	251,001	364,463	338,233	20,729	25,046	23,093
Gwerth Presennol yr Ymrwymadau	(359,854)	(617,490)	(407,128)	(45,757)	(55,407)	(44,619)
Diffyg y Gronfa	(108,853)	(253,027)	(68,895)	(25,028)	(30,361)	(21,526)

Mae'r ymrwymadau yn dangos faint o fuddion ymddeol sydd gan yr awdurdod i'w dalu yn yr hirdymor. Mae cyfanswm y diffyg, sef £168.18m, yn effeithio'n sylweddol ar werth net yr awdurdod fel y nodir yn y Fantolen.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau statudol ar gyfer ariannu'r diffyg yn golygu bod sefyllfa'r awdurdod yn parhau i fod yn iach:

- bydd y diffyg yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei adennill drwy gynyddu'r cyfraniadau, fel y asesir gan actiwari'r cynllun, dros weddill oes gwaith y gweithwyr (h.y. cyn bod y taliadau yn ddyledus).
- mae angen ariannu buddiannau dewisol pan fo angen talu'r gwir bensiynau.

Disgwyllir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gan y Cyngor, fod yn £16.4m yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2014.

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymïadau

Mae'r ymrwymïadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwariïaid drwy ddefnyddio'r dull taflunio uned, sef amcangyfrif o'r pensiynau fydd yn daladwy mewn blynyddoedd yn ddibynnol ar dybiaethau am nifer marwolaethau, lefel cyflogau a.y.b. Mae ymrwymïadau Cynllun Pensiwn Gwynedd a'r Buddion Dewisol wedi cael ei asesu gan Hymans Robertson, sef cwmni actiwariïaid annibynnol gyda'r amcangyfrifon cynllun Pensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y gwerthusiad actiwariïaid llawn ddiweddaraf fel ar 31 Mawrth 2010. Dyma'r prif dybiaethau maent wedi eu defnyddio yn eu cyfrifiad:-

	31 Mawrth 2012	31 Mawrth 2013
	%	%
Cyfradd Chwyddiant	2.5	2.8
Cyfradd Chwyddiant Cyflogau	4.8	5.1
Cyfradd Chwyddiant Pensiynau	2.5	2.8
Cyfradd dychweliad ar Asedau	5.6	4.5
Cyfradd ar gyfer gostwng ymrwymïadau'r cynllun	4.8	4.5
Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol - am wasanaeth cyn Ebrill 2008	50	50
am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008	75	75
Cyfradd Enillion Tymor Hir a Ddisgwylir ar asedau'r cynllun:		
Cyfranddaliadau	6.2	4.5
Bondiau	3.3	4.5
Eiddo	4.4	4.5
Arian	3.5	4.5
Tybiaethau Marwolaeth	Blynyddoedd	Blynyddoedd
Hyd oes pensiynwyr cyfredol am 65 oed -		
Dynion	20.5	20.5
Merched	23.0	23.0
Hyd oes pensiynwyr y dyfodol pan yn 65 oed -		
Dynion	23.3	23.3
Merched	25.6	25.6

Mae'r asedau sy'n cael eu dal gan y Gronfa wedi'u rhannu rhwng y categorïau canlynol, fel cyfran o'r cyfanswm:

	31 Mawrth 2012	31 Mawrth 2013
	%	%
Cyfranddaliadau	78	77
Bondiau	13	13
Eiddo	8	8
Arian	1	2
Cyfanswm	100	100

Hanes o'r profiad o enillion a cholledion

Gall yr enillion neu golledion actiwariaid a adnabyddir fel symudiadau yn y Reserf Pensiwn gael eu dadansoddi i'r categorïau canlynol, a'u mesur fel canran o'r asedau neu'r diffygion ar 31 Mawrth bob blwyddyn:

	Cynllun Pensiwn Cyngor Gwynedd					Cynllun Pensiwn Cronfa Gaeedig Gwynedd				
	31 Mawrth					31 Mawrth				
	2009	2010	2011	2012	2013	2009	2010	2011	2012	2013
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Gwahaniaeth rhwng yr enillion disgwylidig ar yr asedau a'r gwir enillion	-34.7	23.0	-14.2	-6.9	6.2	-38.2	25.1	-2.0	-7.5	6.9
Profiad enillion a cholledion ar yr ymrwymadau	0.2	0.1	-30.3	1.0	0.0	0.4	-0.7	-6.8	2.7	0.0

O ganlyniad i faterion amseriad a'r ffaith fod adroddiad yr Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, mae gwahaniaeth o £83,205 yn 2012/13 rhwng ffigyrau diffyg yn y Gronfa yn ôl yr actiwari i gymharu gyda'r Ymrwymiad yn perthyn i Gynllun Pensiwn buddiannau wedi eu diffinio yn y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymadau Pensiwn ac felly wedi ei gynnwys yn y ffigwr Ymrwymiad perthnasol i Gynllun Pensiwn buddiannau diffiniedig ar y Fantolen.

NODYN 43 – YMRWYMIADAU DIBYNNOL

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fod digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran yr Awdurdod ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall digwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod.

Mae'r sefyllfa isod yn berthnasol i amgylchiadau'n ymwneud â tri ymrwymiad dibynnol penodol:

- Sefyllfa mewn perthynas â Hawliadau Cyflog Cyfartal - mae darpariaeth yn gynnwysiedig yng Nghyfrifon yr Awdurdod sydd yn adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r costau tebygol ar 31 Mawrth 2013. Bydd y gwir sefyllfa terfynol ar ymrwymiad yn dibynnu ar ganlyniad yr hawliad sydd heb ei setlo.
- Gofynion capio ac ôl-ofalaeth safleoedd tirlenwi yr Awdurdod – mae'r ddarpariaeth sydd yn gynnwysiedig yn y cyfrifon yn seiliedig ar amgylchiadau presennol a gwybyddus, yn ychwanegol i ragolygon perthnasol. Er hynny, mae'n bosib y bydd y gwir gost terfynol yn wahanol i'r costau cyfredol a amcangyfrifir at y dyfodol.

- Mae'r Awdurdod yn agored i ymrwymiad yswiriant posib sy'n berthnasol i drefniadau yswiriant ei gyn-awdurdodau, sef, Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Arfon, Cyngor Dosbarth Dwyfor, Cyngor Dosbarth Meirionnydd, a therfyniad Cronfa Municipal Mutual Insurance (M.M.I) ar 30 Medi 1992.

Gwnaeth M.M.I. gynllun o drefniant gyda'i gredydwr, ble, os oedd cyllid M.M.I. yn annigonol i gyfarfod hawliadau yn y dyfodol, yna byddai cymal adfachu'n cael ei sbarduno (sef Cynllun o Drefniant) a allai effeithio hawliadau a dalwyd ers 1992-93, llai £50,000 fesul awdurdod sydd yn gredydwr. Ar 13 Tachwedd 2012 daeth cyfarwyddwr y Cwmni i'r casgliad y dylid gweithredu amodau'r Cynllun o Drefniant a rhoddwyd rhybudd o hynny i Weinyddwr y Cynllun a'r Cwmni. Mae'r penderfyniad yn ddi-allow'n ôl.

Mae'r Gweinyddwr wedi cadarnhau yn Ebrill 2013 fod lefi cychwynnol o 15% o daliadau a wnaethpwyd ers 30 Medi 1992 yn daladwy gan yr awdurdodau a disgwylir y bydd angen talu'r lefi yma yn ystod 2013/14. Fodd bynnag, yn unol â'r cynllun bydd modd codi lefi pellach os na fydd y lefi gwreiddiol yma yn ddigonol ar gyfer ymrwymadau M.M.I. yn y tymor hirach. Mae'r potensial o ymrwymiad ychwanegol wedi ei gydnabod ac wedi ei adlewyrchu yn lefel ein darpariaeth. Uchafswm amcangyfrif cyfredol yr ymrwymiad sy'n berthnasol i'r awdurdod hwn yw hyd at £1 miliwn.

NODYN 44 – YMDDIRIEDOLAETHAU

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel yr unig ymddiriedolwr ar gyfer 172 o gymynroddion megis cronfeydd gwobrau ysgolion a chronfeydd cysuron a gwelliannau i nifer o Sefydliadau'r Cyngor.

Fel yr unig ymddiriedolwr mae'r Cyngor yn dal yr eiddo ar gyfer bob ymddiriedolaeth ond nid yw'n penderfynu ar ei ddefnydd. Ymhob achos nid yw'r cyllid yn cynrychioli asedion y Cyngor ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn y Fantolen.

2012/13	Incwm £'000	Gwariant £'000	Asedion £'000	Ymrwymadau £'000
Ymddiriedolaethau Gwasanaethau Cymdeithasol	74	11	403	42
Ymddiriedolaethau Addysg	49	20	854	672
Cronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan	6	2	146	25
Y Gronfa Degwm	17	12	561	42
	146	45	1,964	781

2011/12	Incwm £'000	Gwariant £'000	Asedion £'000	Ymrwymadau £'000
Ymddiriedolaethau Gwasanaethau Cymdeithasol	6	32	340	42
Ymddiriedolaethau Addysg	48	21	834	681
Cronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan	7	1	141	25
Y Gronfa Degwm	17	13	562	50
	78	67	1,877	798

Mae gwybodaeth bellach ar Ymddiriedolaeth FMG Morgan a'r Gronfa Degwm yn Atodiadau B a C i'r cyfrifon hyn.

NODYN 45 – CYFRIF REFENIW TAI

Penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylai holl dai Cyngor yng Nghymru gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Nid oedd digon o adnoddau gan Gyngor Gwynedd i gyflawni'r SATC o fewn yr amserlen angenrheidiol, ac felly trosglwyddwyd stoc tai Cyngor Gwynedd i gyd i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig gafodd ei ffurfio yn benodol at y pwrpas hwn. Trosglwyddodd y stoc tai i Gartrefi Cymunedol Gwynedd ar 12 Ebrill 2010. Nid oes unrhyw incwm na gwariant yn perthyn i'r Cyfrif Refeniw Tai yn 2012/13 nac yn 2011/12. Fodd bynnag, mae balans y Cyfrif Refeniw Tai yn parhau ar y Fantolen, yn unol â'r gofynion statudol, i'w drosglwyddo yn ystod 2013-14 i Gyngor Gwynedd yn amodol ar ganiatad gan Lywodraeth Cymru.

2011/12		2012/13
£'000		£'000
1,727	Balans ar y Cyfrif Refeniw Tai ar 1 Ebrill	1,727
1,727	Balans ar y Cyfrif Refeniw Tai ar 31 Mawrth	1,727

NODYN 46 - EITEM EITHRIADOL (DARPARIAETH I ADFER SAFLEOEDD TIRLENWI)

Mae pob awdurdod lleol sydd yn, neu wedi bod yn, gweithredu safleoedd tirlenwi gydag ymrwymiad cyfreithiol parthed adferiad, ôl-ofalaeth a monitro eu safleoedd am o leiaf 30 mlynedd ar ôl cau a chapio'r safle. Mae'n ofynnol ar awdurdodau i adnabod darpariaeth lawn ar gyfer y gwaith yma gan sicrhau cysondeb yn y sail cyfrifo, felly roedd angen ail-ddatgan ffigurau 2011/12 yng nghyfrifon 2012/13 i adlewyrchu'r holl newidiadau (gweler Nodyn 3 Addasiadau Cyfnod Blaenorol am fwy o wybodaeth).

Mae'r eitem eithriadol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (2011/12) yn cydnabod yr amhariad sydd yn berthnasol i'r ymrwymiad uchod, ar y sail na fydd unrhyw fudd economaidd / gwasanaeth dichonol yn cronni i'r awdurdod gan fod mwyafrif y safleoedd tirlenwi bellach wedi cau. Fodd bynnag mae effaith ar ofynion treth o'r amhariad yma yn niwtral.

NODYN 47 – CYNLLUNIAU MENTER CYLLID PREIFAT (PFI)

Mae Prosiect GwyrriAD yn gynllun Menter Cyllid Preifat (PFI) a dechreuwyd ar y dasg o'i adeiladau yn 2012/13 gyda'r gwaith yn dod yn weithredol ar 1af Hydref 2013. Gwaith trin ydyw ar gyfer gwastraff bwyd a ddiolir yn y tarddle drwy ddefnyddio technoleg Treulio Anaerobig (Anaerobic Digestion). Bydd hyn yn gymorth i'r Awdurdod gyrraedd ei dargedau ailgylchu a gweithio o fewn ei lwfansau tirlenwi o Wastraff Dinesig Bioddiraddadwy.

NODYN 48 - CYD-BWYLLGORAU

Yn ystod 2012/13, roedd Cyngor Gwynedd yn rhan o bump cyd-bwyllgor, sef cyd-weithio mewn meysydd penodol rhwng Awdurdodau Lleol. Mae'n ofynnol i gyfrifon ar wahân gael eu cynhyrchu ar gyfer cyd-bwyllgorau. Y pump cyd-bwyllgor perthnasol i Wunedd yw:

- Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)
- Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd
- Trafnidiaeth Integredig yng Ngogledd Cymru (TAITH)
- Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TRaCC)
- Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC)

Penderfyniad pob Cyngor cysylltiedig oedd i adrodd mewn nodyn yn eu cyfrifon ar yr elfen ariannol fel yn berthnasol i'w Cyngor unigol. I bwrpas Cyngor Gwynedd, fe adlewyrchir fel a ganlyn:

Cyd-Bwyllgor	Cyngor Arweiniol (o ran yr ochr Gyllid)	Cynghorau sydd yn rhan o'r Cyd-bwyllgor	Cyfran Gwynedd %	Gwerth Cyfran Gwynedd (Cyfrif Incwm a Gwariant) £'000
Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig	Cyngor Gwynedd	Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn	61.4%	722
Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd	Cyngor Gwynedd	Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn	50.0%	359
TAITH	Cyngor Sir y Fflint	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir y Fflint Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	16.6%	31
TRaCC	Cyngor Sir Ceredigion	Cyngor Sir Ceredigion Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Powys	33.3%	42
PTGGGC	Cyngor Sir y Fflint	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir y Fflint Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn	20.0%	169

Yn ôl y Côd Ymarfer CIPFA perthnasol, mae'n ofynnol bod gwariant gros a net a thrafodion incwm yr Awdurdodau priodol yn cael eu adlewyrchu'n oddrychol yn y cyfrifon.

Fodd bynnag, er mwyn ceisio gwella cysondeb mewn safonau adrodd rhwng awdurdodau'n yr ardal hon, yr hyn sydd wedi ei benderfynu rhwng yr wyth awdurdod lleol yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru yw bod yr awdurdod arweiniol yn adlewyrchu'r sefyllfa gros a net llawn yn ei gyfrifon, gyda'r awdurdodau cyfrannol eraill yn adlewyrchu'r sefyllfa net yn unig. Ymhob amgylchiad, mae cyfrifon yr awdurdodau lleol yn adlewyrchu'r gwir sefyllfa cyfraniadau net.

Gellir gweld cyfrifon y cyd-bwyllgorau unigol ar wefannau y cynghorau sydd yn arwain ar y gwasanaeth cyllid a chyfrifeg.

CYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2012/13

31 Mawrth 2012 £'000	Nodiadau	31 Mawrth 2013 £'000
Delio gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r gronfa		
61,525	7	63,451
48		18
1		1
0		0
3,099	8	3,126
64,673		66,596
Cyfanswm y cyfraniadau a dderbyniwyd		
(40,541)	9	(41,714)
(1,035)	10	(2,592)
(1,011)	11	(1,068)
(42,587)		(45,374)
22,086		21,222
Net ychwanegiadau o ddelio gydag aelodau		
Enillion ar Fuddsoddiadau		
10,228	12	11,929
(291)	13	(335)
(1,474)	15	116,102
(4,656)	14	(5,720)
3,807		121,976
Enillion net ar fuddsoddiadau		
Asedau Net y Gronfa		
1,023,778		1,049,671
22,086		21,222
3,807		121,976
1,049,671		1,192,869
Ar 31 Mawrth		

DATGANIAD ASED AU NET AR 31 MAWRTH 2013

31 Mawrth 2012 £'000		Nodiadau	31 Mawrth 2013 £'000
1,036,066	Asedau buddsoddi	15	1,170,051
17,624	Adneuon arian parod	15	17,316
1,053,690			1,187,367
(10,274)	Ymrwymadau buddsoddi	15	(4,297)
9,496	Asedau cyfredol	20	13,682
(3,241)	Ymrwymadau cyfredol	21	(3,883)
1,049,671			1,192,869

Nid yw'r Datganiadau Cyllidol yn cynnwys ymrwymadau'r Gronfa i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill i holl gyfranwyr presennol y Gronfa ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ond yn hytrach mae'n crynhoi trafodion ac asedau net y Gronfa. Ystyrir ymrwymadau'r Gronfa ym mhriadau cyfnodol yr actiwari o'r Gronfa (y mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2010) ac fe'u hadlewyrchir yn lefelau cyfraniadau'r cyflogwyr a bennir gan y prisiad hwn, fel bydd y Gronfa eto yn gallu cwrdd â 100% o ymrwymadau'r dyfodol. Ar hyn o bryd mae gwaith yn cael ei wneud ar brisiad 31 Mawrth 2013 a disgwylir y canlyniadau ganol mis Tachwedd 2013. Dangosir y gwerth presennol actiwariaidd ar gyfer buddiannau a addawir yn Nodyn 19.

NODIADAU AR GYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd (“y gronfa”) yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac fe'i gweinyddir gan Gyngor Gwynedd. Y Cyngor yw'r endid adrodd ar gyfer y gronfa bensiwn hon. Crynodeb o'r gronfa yw'r disgrifiad a ganlyn. Am fwy o fanylion, dylid cyfeirio at Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd 2012/13 a'r pwerau statudol sy'n tanategu'r cynllun, sef Deddf Blwydd-dal 1972 a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL).

a) Cyffredinol

Deddf Blwydd-dal 1972 sy'n llywodraethu'r gronfa. Gweinyddir y gronfa yn unol â'r deddfau eilaidd a ganlyn:

- Rheoliadau CPLIL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau CPLIL (Gweinyddu) 2008 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau CPLIL (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009.

Mae'n gynllun pensiwn sy'n seiliedig ar gyfraniadau a weinyddir gan Gyngor Gwynedd i roi pensiynau a buddion eraill i weithwyr pensiynadwy Cyngor Gwynedd, dau awdurdod lleol arall a chyrrff ar yr atodlen, cyrff a benderfynir a chyrrff eraill a ganiateir sydd o fewn cyn ardal Cyngor Sir Gwynedd. Nid yw athrawon, swyddogion yr heddlu a gweithwyr y gwasanaeth tân wedi'u cynnwys gan eu bod yn rhan o gynlluniau pensiwn cenedlaethol eraill. Mae'r gronfa'n cael ei goruchwylio gan y Pwyllgor Pensiynau, sef un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd.

b) Aelodaeth

Mae bod yn aelod o'r CPLIL yn rhywbeth gwirfoddol ac mae gweithwyr yn rhydd i ddewis p'un a ydynt am ymuno â'r cynllun, parhau'n aelod o'r cynllun neu wneud eu trefniadau personol y tu allan i'r cynllun. Ymysg y sefydliadau sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd mae:

- Cyrff ar yr atodlen, sy'n awdurdodau lleol a chyrrff tebyg ble mae gan eu staff hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r gronfa.
- Cyrff a benderfynir, sy'n gyngor dinas, tref neu blwyf. Mae ganddynt yr hawl i benderfynu os caiff eu gweithwyr ymuno â'r CPLIL ac i fabwysiadu'r penderfyniad yn unol â hynny.
- Cyrff a ganiateir, sy'n sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y gronfa dan gytundeb mynediad rhwng y gronfa a'r sefydliad perthnasol. Mae'r cyrrff a ganiateir yn cynnwys cyrrff gwirfoddol, elusennol a thebyg neu gontractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol wedi i'r swyddogaeth gael ei allanoli i'r sector preifat.

Mae'r cyrff canlynol yn gyflogwyr gweithredol yn y Gronfa Bensiwn:

Cyrff ar yr atodlen	
Cyngor Gwynedd	Parc Cenedlaethol Eryri
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Ysgol Bryn Eilian
Cyngor Sir Ynys Môn	Ysgol Emrys ap Iwan School
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (cyn Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru)	Ysgol Pen y Bryn
Grwp Llandrillo – Menai	Ysgol Uwchradd Eirias
Cyrff a Benderfynir	
Cyngor Cymuned Llanllyfni	Cyngor Tref Ffestiniog
Cyngor Dinas Bangor	Cyngor Tref Llandudno
Cyngor Tref Abergele	Cyngor Tref Llangefni
Cyngor Tref Bae Colwyn	Cyngor Tref Porthaethwy
Cyngor Tref Biwmares	Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel
Cyngor Tref Caergybi	Cyngor Tref Tywyn
Cyngor Tref Caernarfon	
Cyrff a Ganiateir	
CAG Coleg Harlech	Cymdeithas Gogledd Cymru'r Deillion
CAIS	Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
Canolfan Cyngori Conwy	Gyrfaedd Cymru Gogledd Orllewin
Canolfan Cyngori Ynys Môn	Mantell Gwynedd
Cwmni Cynnal	Medrwn Môn
Cwmni'r Frân Wen	Menter Môn
Cydbwyllgor Claddu Caergybi	
Cyrff Cymunedol a Ganiateir	
Cartrefi Conwy	Cartrefi Cymunedol Gwynedd
Corff Trosglwyddai a Ganiateir	
Eden Foods	Jewsons

c) **Cyllid**

Mae'r buddion yn cael eu cyllido gan gyfraniadau ac enillion ar fuddsoddiadau. Mae aelodau gweithredol y gronfa'n talu cyfraniadau yn unol â Rheoliadau CPLIL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 ac maent yn amrywio o 5.5% i 7.5% o dâl pensiynadwy'r aelod ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2013. Mae cyfraniadau'r gweithwyr yn cael eu cyfatebu â chyfraniadau gan y cyflogwyr sy'n cael eu gosod yn seiliedig ar y prisiaid actiwaraid a gynhelir bob tair blynedd. Gwnaed y prisiaid diwethaf ar 31 Mawrth 2010. Ar hyn o bryd, mae cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwyr yn amrywio o 5.1% i 29.1% o'r tâl pensiynadwy.

d) **Buddion**

Mae buddion pensiwn dan y CPLIL yn seiliedig ar y tâl pensiynadwy terfynol a hyd y gwasanaeth pensiynadwy; gweler y crynodeb isod:

	Gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2008	Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2008
Pensiwn	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/80 x cyflog pensiynadwy terfynol	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/60 x cyflog pensiynadwy terfynol
Lwmp Swm	Lwmp swm awtomatig o 3 x cyflog. Yn ogystal, gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o pensiwn a ildir.	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o pensiwn a ildir.

Darperir amrediad o fuddion eraill dan y cynllun yn cynnwys ymddeoliad cynnar, pensiwnau anabledd a buddion marwolaeth. Am fwy o fanylion, cyfeiriwch at lawlyfr cynllun Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd ar gael gan Adain Pensiwnau Cyngor Gwynedd.

Mae'r buddion yn gysylltiedig â mynegai er mwyn glynu at y raddfa chwyddiant cyfredol. Ym mis Mehefin 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'r dull mynegi yn newid o'r Mynegai Prisiau Manwerthu i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Daeth y newid hwn i rym ar 1 Ebrill 2011.

NODYN 2 – SAIL DARPARIAETH

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2013. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Côt Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2012/13 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw'r cyfrifon yn rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Gweler gwerth actiwaraid cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo, ble bo'u gwerth wedi'i gyfrifo'n seiliedig ar Safon Cyfrifyddu Genedlaethol (IAS) 19, yn Nodyn 19 y cyfrifon hyn.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL

Cyfrif y gronfa – cydnabyddiaeth refeniw

a) Incwm o Gyfraniadau

Cyfrifir cyfraniadau arferol, gan weithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd, yn seiliedig ar groniad ar y raddfa ganrannol a argymhellir gan actiwari'r gronfa yn y cyfnod cyflogres y maent yn perthyn iddo.

Cyfrifir am gyfraniadau ychwanegol cyflogwyr a chyfraniadau straen pensiwn yn y cyfnod ble mae'r ymrwymadau dan sylw yn codi. Ystyrir bod unrhyw swm sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn, ond nad ydyw wedi'i dalu, yn ased ariannol cyfredol. Ystyrir bod unrhyw swm nad ydyw'n ddyledus hyd flynyddoedd yn y dyfodol yn ased ariannol tymor hir.

b) Trosglwyddiadau o gynlluniau eraill ac i gynlluniau eraill

Mae'r gwerthoedd trosglwyddo'n cynrychioli'r symiau a dderbyniwyd ac a dalwyd yn ystod y flwyddyn i aelodau sydd naill ai wedi ymuno neu sydd wedi gadael y gronfa yn ystod y flwyddyn ariannol ac maent yn cael eu cyfrifo yn unol â'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (gweler nodiadau 8 a 10).

Mae trosglwyddiadau unigol i mewn i'r gronfa ac allan ohoni'n cael eu gwneud yn seiliedig ar dderbynion a thaliadau, ac fel arfer mae hyn yn digwydd pan dderbynnir neu pan ryddheir ymrwymadau aelod.

Cyfrifir am drosglwyddiadau i mewn i'r gronfa gan aelodau sy'n dymuno defnyddio'r enillion o'u cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (gweler isod) i brynu buddion y cynllun ar sail derbynion ac maent wedi'u cynnwys dan Trosglwyddiadau i Mewn (gweler nodyn 8).

Cyfrifir am drosglwyddiadau swmp (grwp) yn seiliedig ar groniadau yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

c) Incwm buddsoddi

i) Incwm llog

Cydnabyddir incwm llog yng nghyfrif y gronfa wrth iddo gronni, gan ddefnyddio'r gyfradd llog sy'n berthnasol i'r offeryn ariannol ar y dyddiad pan geir y llog neu ar darddiad y llog. Mae incwm yn cynnwys amorteiddiad unrhyw ddisgownt neu bremiwm, costau trafodi neu wahaniaethau eraill rhwng swm cario cychwynnol yr offeryn a'i swm pan fo wedi aeddfedu sydd wedi'i gyfrifo yn seiliedig ar y raddfa llog berthnasol.

ii) Incwm difidend

Cydnabyddir incwm difidend ar y dyddiad pan fo'r cyfranddaliadau'n cael eu dyfynnu fel rhai cyn-ddifidend. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iii) Dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno yn cynnwys eiddo

Cydnabyddir dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno ar y dyddiad pan maent yn cael eu cyflwyno. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

- iv) Newid yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad
Cydnabyddir newidiadau yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad (yn cynnwys eiddo buddsoddi) fel incwm ac maent yn cynnwys yr holl elw/colledion a wireddwyd ac na wireddwyd yn ystod y flwyddyn.

Cyfrif y gronfa – eitemau sy'n creu costau

d) Buddion sy'n daladwy

Mae'r buddion pensiwn a lwmp swm sy'n daladwy'n cynnwys yr holl symiau a wyddys eu bod yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cyfeirir at unrhyw swm sy'n ddyledus ond nad ydyw wedi'i dalu yn y datganiad asedau net fel ymrwymadau cyfredol.

e) Trethiant

Mae'r gronfa'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig dan adran 1(1) Atodlen 36 Deddf Cyllid 2004 ac o ganlyniad mae'r llog a dderbynnir yn eithriedig rhag treth incwm y DU a rhag treth ar enillion cyfalaf ar yr enillion a geir o'r buddsoddiadau a werthir. Mae treth atal yn daladwy ar incwm a geir o fuddsoddiadau tramor yn y wlad ble maent yn tarddu, oni bai bod eithriad wedi'i ganiatáu. Cyfrifir am dreth anadferadwy fel cost i'r gronfa fel mae'n codi.

f) Costau gweinyddol

Cyfrifir am yr holl gostau gweinyddol yn seiliedig ar groniad. Mae holl gostau staff y tîm gweinyddu pensiwnau'n cael eu codi'n uniongyrchol ar y gronfa. Telir am gostau rheoli, llety a gorbenion eraill o'r gronfa yn unol â pholisïr Cyngor.

g) Costau rheoli buddsoddiadau

Cyfrifir am yr holl gostau rheoli buddsoddiadau yn seiliedig ar groniad.

Cytunir ar ffioedd y rheolwyr buddsoddi a'r ceidwad allanol yn y mandadau perthnasol sy'n llywodraethu eu penodiadau. Yn fras, mae'r rhain yn seiliedig ar werth marchnad y buddsoddiadau dan eu rheolaeth ac felly maent yn cynyddu neu'n lleihau wrth i werth y buddsoddiadau hyn newid.

Yn ogystal, mae'r gronfa wedi negodi gyda'r rheolwyr a ganlyn y dylai elfen o'u ffi fod yn gysylltiedig â'u perfformiad:

Capital International – Ecwiti Byd-eang (gorffennwyd yn Gorffennaf 2012)

Fidelity - Ecwiti Byd-eang

Ni thalwyd unrhyw ffioedd oedd yn gysylltiedig â pherfformiad i'r rheolwyr yn ystod 2012/13 nag yn 2011/12.

Mae cost cael cyngor ar fuddsoddiadau gan ymgynghorwyr allanol wedi'i gynnwys dan ffioedd rheoli buddsoddiadau.

Yn ogystal, mae cyfran o gostau'r Cyngor sy'n gysylltiedig â'r amser a dreulir gan swyddogion yn rheoli buddsoddiadau yn cael ei godi ar y gronfa.

Datganiad asedau net

h) Asedau ariannol

Mae asedau ariannol wedi'u cynnwys yn y datganiad asedau net yn seiliedig ar eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ased ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y gronfa gytundeb ei fod yn cael yr ased. O'r dyddiad hwn, bydd y gronfa'n cydnabod unrhyw enillion neu golledion a ddaw yn sgil newidiadau yng ngwerth teg yr ased.

Mae gwerth y buddsoddiadau fel y'u dengys yn y datganiad asedau net wedi'u pennu fel a ganlyn:

- i) Buddsoddiadau a ddyfynnir ar y farchnad
Penderfynir gwerth buddsoddiad lle bo pris marchnad ar gael yn rhwydd ar sail dyfarniad y pris marchnad ar ddiwrnod olaf y cyfnod cyfrifo.
- ii) Gwarantau llog sefydlog
Cofnodir gwarantau llog sefydlog ar werth marchnad net yn seiliedig ar eu cynhyrchion cyfredol.

- iii) **Buddsoddiadau heb eu dyfynnu**
Mae gwerth teg buddsoddiadau ble nad yw'r dyfyniadau marchnad ar gael yn hawdd, yn cael eu pennu fel a ganlyn:
Mae'r gweithdrefnau sydd yn eu lle yn caniatáu i'r Pennaeth Cyllid gyflawni ei ddyletswyddau'n llawn, ac yn cynorthwyo'r Cyngor i gynnal trefniadau rheolaeth ariannol sy'n cydymffurfio â'r gofynion llywodraethu yn *Natganiad CIPFA ar Rôl y Prif Ariannol Swyddog mewn Llywodraeth Leol*. Y Pennaeth Cyllid yw'r Swyddog sydd yn gyfrifol am adrodd yn unol ag Adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Lleol 1988 petai'r Cyngor wedi, neu mae'n debygol o wneud, gwariant anghyfreithlon.

3.8 Hyfforddi a Datblygu Aelodau a Rheolwyr

Hyfforddiant Aelodau

Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer hyfforddi a datblygu aelodau. Mae trefn anwytho yn ei le ar gyfer y cyfnod ar ôl pob etholiad ac mae rhaglen o sesiynau hyfforddiant (gyda dyddiadau wedi eu pennu ymlaen llaw) wedi ei gynllunio ar gyfer pob blwyddyn. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn ymateb i'r disgwyliad newydd bod y Cyngor yn cynnig adolygiad blynyddol o anghenion hyfforddi a datblygu aelod ac, yn amodol ar ymateb aelodau i'r cynnig, byddwn yn cynnig y cyfle i lunio cynlluniau datblygu personol iddynt.

Cynllun Datblygu a Hyfforddi Swyddogion

Mae rhaglen hyfforddi yn ei le ar gyfer pob swyddog o'r Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi dylunio matrices hyfforddi ar gyfer swyddogion ac wedi dynodi 6 categori hyfforddi: Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol, Penaethiaid, Rheolwyr, Arweinwyr Maes, Goruchwylwyr, Staff a Gweithwyr Uniongyrchol. Defnyddiwyd nodweddion penodol ar gyfer adnabod categori hyfforddi priodol aelod o staff. Mae rhaglen hyfforddi wedi ei lunio ar gyfer pob categori.

Mae'r broses Adolygu Perfformiad yn rhan o System Rheoli Perfformiad Cyngor Gwynedd sy'n cefnogi gwerthoedd y Cyngor. Disgwylir i holl swyddogion y Cyngor fod yn destun gwerthusiad o leiaf unwaith y flwyddyn.

3.9 Partneriaethau a Chydweithio

Yn y flwyddyn diwethaf, mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi ail-edrych ar drefniadau ei bartneriaethau strategol. Arweiniodd y Prosiect Rhesymoli Partneriaethau at greu un strwythur partneriaeth strategol newydd ar draws Gwynedd a Mon yn y prif feysydd strategol (Strategaeth Gymunedol, Plant a Phobl Ifanc, Iechyd, Gofal a Lles a Diogelwch Cymunedol). Mae'r drefn hynny yn dechrau gweithredu yn 2013 a byddwn yn rhoi sylw i effeithlonrwydd y trefniadau hynny yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cyngor wedi datblygu'r meini prawf llwyddiant canlynol sydd angen eu bodloni pan yn ystyried unrhyw fenter i gydweithio:

- Manteision busnes cadarnhaol i'r Cyngor yn nhermau ariannol, perfformiad a gwella gwydnwch gwasanaeth.
- Gwell elw ar ein buddsoddiad, o safbwynt amser swyddogion ac aelodau a chostau eraill, o gymharu â chyfleoedd amgen am fuddion busnes a allai fod yn gydweithiol eu natur neu beidio.
- Gwarchod a chefnogi statws yr iaith Gymraeg yng Ngwynedd a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r sir.
- Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd derbyniol.
- Cadw ein rôl comisiynu.
- Dosbarthiad teg o gyfleoedd cyflogaeth.
- Lefelau derbyniol o risg.
- Yn nhermau daearyddiaeth, cydweithio ar draws ardaloedd sy'n dderbyniol i Gyngor Gwynedd (h.y. nid y patrwm cydweithio rhanbarthol o reidrwydd).
- Amserlenni realistig.

Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd wedi ei lywio gan waith y rheolwyr gweithredol o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol, yn ogystal â sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu eraill ac arolygiaethau.

Sefydlwyd **Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu** yn ystod y flwyddyn, er mwyn cadw golwg parhaus, mwy disgybledig ar faterion llywodraethu, codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, a hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Grŵp yn cynnwys Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, Uwch Reolwr y Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol a'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg.

Cyfrannodd y canlynol i lunio asesiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu yn ystod y flwyddyn:

- Yr ystyriaeth a roddwyd i anghenion llywodraethu yn y broses o baratoi Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013 – 2017, gan gynnwys ystyriaeth o'r risgiau strategol arwyddocaol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Cynhaliwyd cyfres o weithdai ar gyfer Aelodau'r Cabinet yn ystod Ionawr 2013 i drafod y prif faterion sydd angen sylw gan y Cyngor ar lefel strategol, gan gynnwys materion llywodraethu.
- Adolygiad o'r trefniadau llywodraethu gan y Pennaeth Democratiaeth a Chyfrethiol.
- Asesiadau gan aelodau a prif swyddogion wrth ddatblygu cyfundrefn "Ffordd Gwynedd", sef yr un weledigaeth gyffredin a chlir i bawb yn y Cyngor ynglŷn â'r diwylliant corfforaethol sydd ei angen os am sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Un canlyniad disgwyliedig o "Ffordd Gwynedd" yw sicrhau cyfundrefn perfformiad sy'n mesur os ydym yn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd ac yn rhoi gwerth am arian iddynt.
- Gwaith Archwilio Mewnol, wedi ei grynhoi yn Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn Ebrill 2013. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y sicrwydd cyffredinol canlynol: ***"Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2012/13, yn fy marn i mae gan Cyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a cryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol. Er hyn, mae angen datblygu ymhellach y prosesau ffurfiol o safbwynt cofnodi risgiau yn unedau busnes y Cyngor"***.
- Adolygiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru o'r gwasanaeth Archwilio Mewnol. Cyflwynwyd hwn i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2012.
- Ystyriaeth o ganlyniadau gwaith archwilwyr a rheoleiddwyr allanol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn a'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).
- Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cadw trosolwg ar drefniadau rheolaeth fewnol y Cyngor yn rheolaidd trwy'r flwyddyn, drwy ystyried gwaith archwilwyr mewnol ac allanol.
- Cafodd Strategaeth Ariannol 2013 – 2017 ei herio gan y Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor llawn cyn iddo gael ei fabwysiadu.
- Trefniadau Gwrth-dwyll, Gwrth-Lygreddigaeth a Gwrth-Lwgrwobrwyo'r Cyngor wedi cael eu hasesu, gan ddefnyddio fframwaith asesu CIPFA. Cafodd Strategaeth newydd ei ddatblygu yn dilyn yr asesiad yma a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ar 29 Ionawr 2013.
- Y Pwyllgor Pensiynau wedi craffu Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2012.
- Roedd y broses o baratoi Cynllun Archwilio Mewnol 2013/14 yn cynnwys asesiad o'r Fframwaith Llywodraethu, fel y'i crynhoir yn y Côt Llywodraethu Lleol, er mwyn adnabod meysydd sydd i dderbyn sylw gan Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r Côt ei hun.

- Asesiad gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu o'r Fframwaith Llywodraethu Lleol, er mwyn adnabod y meysydd llywodraethu y mae angen rhoi sylw iddynt yn y blynyddoedd nesaf, gan nodi bod y mwyafrif o'r materion hyn yn faterion a fydd yn cymryd mwy na blwyddyn i'w datrus.

Rydym wedi cael ein cyngori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Archwilio, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod.

Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL

Mae'r prosesau a ddisgrifir mewn rhannau blaenorol o'r datganiad hwn yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i adnabod y materion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw:

Mater sydd wedi ei adnabod	Trefniadau i Ymateb	Cyfrifoldeb Pwy?
<p>Trefniadau Ymgysylltu. Mae angen cryfhau'r cyswllt rhwng y Cyngor a'r etholwyr drwy Aelodau rheng flaen drwy sefydlu Cynulliadau Ardal newydd. Bydd hyn hefyd yn ymgorffori ymateb y Cyngor i ymgynghoriadau, a galluogi'r Cyngor i arddangos sut yr ydym yn gwrando ar ac yn ymateb i negeseuon.</p>	<p>Bydd un o brosiectau'r weledigaeth "Ffordd Gwynedd", sef "Ymgysylltu", yn mynd i'r afael â hyn.</p>	<p>Cyfarwyddwr Corfforaethol</p>
<p>Gwneud Penderfyniadau. Angen sylw i'r Dinesydd yn y prosesau penderfynu.</p>	<p>Mae hyn y greiddiol i egwyddorion "Ffordd Gwynedd". Tra mae yna broses ar gyfer sicrhau fod hyn yn digwydd dengys asesiad a wnaed ar gyfer paratoi ar gyfer Ffordd Gwynedd efallai nad yw'n gweithio'n gyfangwbl fel y dylai ac felly bwriad un o'r prosiectau yn y cynllun "Ffordd Gwynedd" yw sicrhau fod y gyfundrefn Cabinet yn effeithiol.</p>	<p>Swyddog Monitro</p>
<p>Hyfforddi. Mae angen diweddarau trefniadau hyfforddi aelodau a swyddogion, yn arbennig am y rolau newydd yng nghydstun safonau a chodau.</p>	<p>Mae trefniadau sylfaenol ar gyfer hyfforddi aelodau yn eu lle. Yn ystod 2013/14, byddwn yn datblygu cyfundrefn i ymateb i ofynion aelodau am gynlluniau datblygu personol i'w cynorthwyo yn eu gwaith.</p>	<p>Pennaeth Strategol a Gwella / Swyddog Monitro</p>
<p>Craffu. Mae angen i Craffu ganolbwyntio fwyfwy ar ganlyniadau i'r Dinesydd.</p>	<p>Wedi ei gynnwys yn un o brosiectau "Ffordd Gwynedd", sef atgyferthu trefniadau Craffu fydd yn canolbwyntio ar effaith gwasanaethau ar ein pobl.</p>	<p>Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol</p>
<p>Trefniadau Asesu Effaith. Mae gan y Cyngor drefniadau yn eu lle i asesu effaith mewn gwahanol feysydd, ond nid yw'r trefniadau yn rhoi un trosolwg ar gyfer y materion i gyd mewn cyfuniad.</p>	<p>Mae gennym drefniadau asesu effaith ond yn ystod y flwyddyn byddwn yn asesu yn benodol i ba raddau y maent yn effeithiol.</p>	<p>Uwch Reolwr Archwilio a Risg gyda chymorth y Grwp Asesu Trefniadau Llywodraethu</p>
<p>Cyfundrefn Rheoli Risg. Er fod y trefniadau i adnabod a chofrestru risgiau corfforaethol a thrawsadrannol yn effeithiol, mae gwendidau wedi eu hadnabod yn y trefniadau ar lefel adran.</p>	<p>Bydd y Gwasanaethau Archwilio a Risg, gyda chymorth swyddogion Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd, yn hyrwyddo cyfundrefn a chanllawiau ar gyfer pob Pennaeth Adran.</p>	<p>Uwch Reolwr Archwilio a Risg</p>


Rhan 6: BARN

Rydym yn bwriadu cymryd camau i ddelio gyda'r materion uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.



HARRY THOMAS
PRIF WEITHREDWR CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD 10 Medi 2013



Cyng. DYFED WYN EDWARDS
ARWEINYDD CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD 16 Medi 2013



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2012-13

Cyhoeddwyd: Medi 2013

Cyfeirnod y ddogfen: GCA2013

Statws yr Adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti'n berthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig) yn drydydd parti berthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

Cynnwys

Mae Archwilydd Penodedig, yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.

Adroddiad Cryno

Cyflwyniad	4
Statws yr archwiliad	4
Adroddiad archwilio arfaethedig	4
Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad	5
Annibyniaeth a gwrthrychedd	6

Atodiadau

Llythyr Sylwadau Terfynol	7
Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i'r Cyngor Gwynedd	10
Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd	12

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

1. Mae Archwilydd Penodedig yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2013 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
2. Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
3. Y symiau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Cyngor Gwynedd yw £3.775 miliwn ar gyfer eitemau incwm a gwariant a balansau cyfalaf gweithio, a £3.750 miliwn ar gyfer balansau eraill. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
4. Mae Safon Ryngwladol ar Archwilio (ISA) 260 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni hysbysu'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu corff am faterion penodol sy'n codi o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol, a hynny mewn da bryd fel y gallant weithredu'n briodol.
5. Mae'r adroddiad hwn yn nodi er mwyn eu hystyried y materion hynny sy'n codi o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Gwynedd, ar gyfer 2012-13, y mae'n ofynnol eu hysbysu o dan ISA 260.

Statws yr archwiliad

6. Gwnaethom dderbyn y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 ar 28 Mehefin, cyn y terfyn amser statudol, sef 30 Mehefin 2013, a bellach rydym i raddau helaeth wedi cwblhau'r gwaith archwilio.
7. Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae tîm yr archwiliad eisoes wedi trafod y materion hyn gyda swyddog cyllid sy'n gyfrifol am y Cyngor (Dafydd Edwards).

Adroddiad archwilio arfaethedig

8. Bwriad yr Archwilydd Penodedig yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn [Atodiad 1](#).
9. Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn [Atodiad 2](#).

Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad

Camddatganiadau nas cywirwyd

10. Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol, sy'n parhau heb eu cywiro.

Camddatganiadau a gywirwyd

11. Mae yna gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe'u nodir gydag esboniadau yn [Atodiad 3](#).

Materion sylweddol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

12. Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion sylweddol sy'n codi. Roedd rhai materion yn codi yn y meysydd hyn eleni.

Mae gennym un pryder ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a'ch proses o gyflwyno adroddiadau ariannol

13. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdod adrodd yn cynnwys ei gyfran o weithgareddau gyd-bwyllgor yn ei ddatganiadau ariannol. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn pum trefniadau cyd-bwyllgor ond nid yw'n cyfrif ar eu cyfer yn unol â'r Cod. Mae hyn yn cael ei ddatgelu yn y cyfrifon
14. Noder nad yw'r mater hwn yn ymwneud â thalu cyfraniad y Cyngor i'r Cyd-bwyllgor, ond yn fater cyfrifyddu.

Rydym yn nodi un gwendid perthnasol yn eich rheolaethau mewnol

15. Mae safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 19 (Buddion Gweithwyr) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff datgelu yn eu cyfrifon yr asedau, rhwymedigaethau a thrafodion, ynghyd â gwybodaeth benodol am tybiaethau sylfaenol, o ran buddiannau ymddeol.
16. Mae'r actiwari yn paratoi prisiad tair blynyddol a'r prisiad blynyddol o rwymedigaethau'r gronfa bensiwn, ar sail IAS 19, sy'n darparu datganiadau refeniw a mantolen i'w cynnwys yn y datganiadau ariannol. Mae hyn yn cael ei baratoi gan ddefnyddio ystod o ddata, a ddarperir gan yr awdurdod gweinyddol, a rhagdybiaethau actiwaraid.
17. Nodwyd bod y data a ddarperir i'r actiwari o ran data aelodaeth wedi bod yn destun ailddatgan ac yn dal i fod yn destun adolygiad pellach.
18. Y prif reswm dros y newidiadau canlyniadau o'r angen i adlewyrchu swyddi lluosog a ddelir gan yr unigolyn ar wahân yn y system pensiwn. Yn ogystal, mae'n bosib bod

achosion lle nad yw'r manylion terfynu wedi eu darparu ac mae aelodau yn cael eu cam ddatgan yn weithredol yn hytrach na gohiriedig.

19. Gallai hyn gael effaith sylweddol ar y prisiad tair blyneddol a prisiad blyneddol IAS 19 a ddarperir gan yr actiwari. Fodd bynnag, ar gyfer y cyfrifon 2012-13 rydym yn fodlon nad yw'n cael effaith sylweddol.
20. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn sicrhau bod ei systemau cyflogres a phensiynau yn cael eu cysoni'n llawn a bod y manylion yn cael eu cadw'n gywir, yn y ddwy system, ar sail barhaus i sicrhau y gall yr actiwari paratoi'r prisiad actiwaraidd yn seiliedig ar ddata aelodaeth cadarn.

Daethom ar draws rhai anawsterau yn ystod yr archwiliad.

21. Y mater y cyfeirir atynt ym mharagraffau 15 i 20 wedi arwain at oedi i'r archwiliad a'r angen i wneud gwaith ychwanegol.

Nid oes unrhyw faterion eraill y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt

22. Nid oes unrhyw faterion eraill i'ch hysbysu amdanynt. Yn benodol:
 - Trafodwyd a hysbyswyd y rheolwyr am faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.
 - Mae yna faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu chi amdanynt.
 - Mae yna faterion eraill penodol y mae safonau archwilio yn ei gwneud hi'n ofynnol hysbysu'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu amdanynt.

Annibyniaeth a gwrthrychedd

23. Fel rhan o'r broses gwblhau, rhaid i ni wneud datganiad ar ein hannibyniaeth.
24. Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac yn ein barn broffesiynol ni, rydym yn annibynnol ac nid oes bygythiad i'n gwrthrychedd. Nid oes unrhyw gysylltiadau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Cyngor Gwynedd a fyddai'n effeithio ar ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein tyb ni.

Atodiad1

Llythyr Sylwadau Terfynol

Mr Anthony Barrett
Yr Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
CAERDYDD
CF11 9LJ
26 Medi 2013

Annwyl Mr Barrett,

SYLWADAU YN YMWNEUD Â DATGANIADAU ARIANNOL 2012/13

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 at y diben o fynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt a'u bod wedi eu paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

SYLWADAU RHEOLWYR

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Côt Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am gynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a Roddir

Rydym wedi darparu'r canlynol i chi:

- mynediad llawn i:
 - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;

-
- gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
 - chyswllt anghyfyngedig â staff yr oedd yn angenrheidiol, yn eich barn chi, cael tystiolaeth archwilio ganddynt.
 - canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll;
 - ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir rydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Cyngor Gwynedd ac yn ymwneud â:
 - rheolaeth;
 - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll effeithio'n berthnasol ar y datganiadau ariannol.
 - ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a wneir gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
 - ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu bosibl o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; ac
 - manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

SYLWADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau sylweddol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a honiadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes yn y datganiadau ariannol gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan.

Un pryder ynglŷn ag adroddiadau ariannol: Cyd-bwyllgorau

Nodwyd sefyllfa datganiadau blynyddoedd blaenorol 2 gyd-bwyllgor mae Cyngor Gwynedd yn arwain yng nghyfrifon 2012/13 (cyn-archwiliad) a ddaru'r cyd-bwyllgorau perthnasol ddelio gyda hynny yn eu cyfarfodydd ym Mehefin / Gorffennaf 2013.

O ran cyfrifon Cyngor Gwynedd ei hun, mae'n ofynnol yn ôl y Côt Ymarfer CIPFA perthnasol i drafodion gwariant ac incwm gros a net yr awdurdodau priodol gael eu hadlewyrchu'n oddrychol yn y cyfrifon. Fodd bynnag, er mwyn gwella cysondeb mewn safonau adrodd rhwng awdurdodau'r rhanbarth hon, cytunwyd rhwng yr wyth awdurdod lleol yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru bod yr awdurdod arweiniol yn adlewyrchu'r sefyllfa gros a net llawn yn ei gyfrifon, gyda'r awdurdodau cyfrannol eraill yn adlewyrchu'r sefyllfa net yn unig. Er efallai ddim yn union yn unol â'r cod, mae cyfrifon pob awdurdod lleol yn adlewyrchu eu gwir sefyllfa cyfraniadau net.

Un gwendid mewn rheolaeth fewnol: Ymrwymadau Pensiwn

Tra mae'n anochel fod y ffigyrau a gynhyrchir ar gyfer taliadau pensiwn y dyfodol yn amcangyfrifon bras, rydym yn cytuno gyda'r archwiliwr y dylai'r rheiny fod ar sail y data gorau sydd ar gael ynghylch staff cyflogedig, tâl, ayb.

Ymhellach i ymarferiad rhagweithiol i wella'r fath data ar gyfer prisiad teirblynyddol 2013, daeth yn amlwg erbyn yr haf fod modd gwella'r data am staff cyflogedig a gyflwynwyd eisoes yn Ionawr (ar gyfer ffigyrau "Safon Cyfrifo Rhyngwladol 19" yn datganiadau ariannol 2012/13 y cyflogwyr).

Oherwydd cyfyngiad hanesyddol o fewn y systemau cyfrifiadurol, mae yna rhai achosion o weithwyr sydd â mwy nac un swydd gyda'r Cyngor lle mae'r swyddi ychwanegol heb eu hadnabod yn briodol fel rhan o'r broses o adrodd yn flynyddol. Mae gwaith yn parhau i ddatrys yr anghysondebau yma fel bod adroddiadau cyfraniadau pensiwn blynyddol yn y dyfodol yn cyd-fynd rhwng y systemau cyflogau a phensiynau.

SYLWADAU GAN PWYLLGOR ARCHWILIO CYNGOR GWYNEDD

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Pwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd ar 26 Medi 2013.

Yn gywir,

.....

.....

DAFYDD L EDWARDS
PENNAETH CYLLID

CYNGHORYDD TREFOR O EDWARDS
CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Dyddiad

Dyddiad

Atodiad 2

Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i'r Cyngor Gwynedd

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Cyngor Gwynedd; a
- Cronfa Bensiwn Gwynedd

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, a y Datganiad Llif Arian Parod. Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2012-13 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys datganiadau cyfrifyddu y Gronfa Bensiwn Gwynedd, sy'n rhoi darlun gwir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Gwynedd a Gwynedd gronfa bensiwn a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Eglurhaol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2013 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2012-13.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa pensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 ac o swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2012-13.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Eglurhaol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

27 Medi 2013

Atodiad 3

Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros y cywiriad
Ddim yn berthnasol	I gynnwys Mantolen ar 01.04.11 mewn perthynas ag addasiad cyfnod blaenorol	Er mwyn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer
Ddim yn berthnasol	Newid yn y cyflwyniad o Nodyn 3 sydd yn ymwneud â ail addasiad cyfnod blaenorol	Er mwyn gwella darllenadwyedd
£1,978,000	Er mwyn tynnu allan ar y Gwariant Refeniw a Gyllidir o Gyfalaf yn unol â Statud (hy yr elfen rheilffordd sy'n ymwneud â Network Rail) ymwenedd â Pont Briwet i adlewyrchu triniaeth cyfrifeg menter ar y cyd	Er mwyn sicrhau bod y datganiadau ariannol yn adlewyrchu cyfran Cyngor Gwynedd yn unig, sef yr elfen lon o asedion y fenter ar y cyd
£2,383,000	Er mwyn dangos yn gywir y ddarpariaeth gwastraff wedi rhannu rhwng tymor byr a tymor hir (2011/12)	Er mwyn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer
£1,160,000	Er mwyn dangos yn gywir y ddarpariaeth gwastraff wedi rhannu rhwng tymor byr a tymor hir (2012/13)	Er mwyn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer



WALES **AUDIT** OFFICE

SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Ffôn: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Ffacs: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

E-bost: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Cronfa Bensiwn Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2012-13

Cyhoeddwyd: Medi 2013

Cyfeirnod y ddogfen: GPFA2013

Statws yr Adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cronfa Bensiwn Gwynedd fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partion perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

Cynnwys

Mae Archwilydd Penodedig, yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.

Adroddiad Cryno

Cyflwyniad	4
Statws yr archwiliad	4
Adroddiad archwilio arfaethedig	4
Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad	5
Annibyniaeth a gwrthrychedd	6

Atodiadau

Llythyr Sylwadau Terfynol	7
Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i'r Cronfa Bensiwn Gwynedd	10
Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd	12

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

1. Mae Archwilydd Penodedig yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2013 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
2. Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
3. Y symiau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Cronfa Bensiwn Gwynedd yw £500,000 ar gyfer eitemau incwm a gwarant a balansau cyfalaf gweithio, a £8.775 miliwn ar gyfer balansau eraill. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
4. Mae Safon Ryngwladol ar Archwilio (ISA) 260 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni hysbysu'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu corff am faterion penodol sy'n codi o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol, a hynny mewn da bryd fel y gallant weithredu'n briodol.
5. Mae'r adroddiad hwn yn nodi er mwyn eu hystyried y materion hynny sy'n codi o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd, ar gyfer 2012-13, y mae'n ofynnol eu hysbysu o dan ISA 260.

Statws yr archwiliad

6. Gwnaethom dderbyn y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 ar 28 Mehefin 2013, cyn y terfyn amser statudol, sef 30 Mehefin, a bellach rydym i raddau helaeth wedi cwblhau'r gwaith archwilio.
7. Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae tîm yr archwiliad eisoes wedi trafod y materion hyn gyda swyddog cyllid sy'n gyfrifol am y Cyngor (Dafydd Edwards).

Adroddiad archwilio arfaethedig

8. Bwriad yr Archwilydd Penodedig yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn [Atodiad 1](#).
9. Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn [Atodiad 2](#).

Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad

Camddatganiadau nas cywirwyd

10. Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol, sy'n parhau heb eu cywiro.

Camddatganiadau a gywirwyd

11. Mae yna gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe'u nodir gydag esboniadau yn [Atodiad 3](#).

Materion sylweddol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

12. Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion sylweddol sy'n codi. Roedd rhai materion yn codi yn y meysydd hyn eleni.

Mae gennym un pryder ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a'ch proses o gyflwyno adroddiadau ariannol

13. Fel y nodwyd yn y blynyddoedd blaenorol, nid oes gan y Cyngor broses mewn lle i sicrhau ei fod wedi cronni ar gyfer pob un o'r fuddiannau sy'n daladwy (mewn cyfandaliadau neu fuddiannau marwolaeth) ar gyfer ymddeoliadau a marwolaethau hyd at 31 Mawrth. O ganlyniad, nododd fy ngwaith archwilio nad oedd y Cyngor wedi cronni ar gyfer costau o £ 710,000.

Rydym yn nodi un gwendid perthnasol yn eich rheolaethau mewnol

14. Fel rhan o'n gwaith rydym wedi darganfod nad yw cofnodion aelodaeth sydd yn y system gweinyddu pensiynau yn gyfoes. Cyfrifoldeb y cyrff Cyflogwyr yw hysbysu'r awdurdod gweinyddu o newidiadau yn statws yr aelodau, ee dechreuwyr ac yn gadawyr ayyb. Gwelir bod cofnod aelodaeth cyrff lleiaf y Cynllun yn gyffredinol yn gyfredol. Nid yw hyn yn wir ar gyfer y tri prif gyrff cyflogwyr, sef Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, er bod hynny am resymau gwahanol.
15. Un o ganlyniadau hyn yw bod y data a ddarperir i'r actiwari, i ddarparu'r prisiad actiwaraidd bob tair blynedd ac datgeliadau pensiwn blynyddol IAS 19 ar gyfer eu cynnwys yn natganiadau ariannol y cyrff cyflogwr perthnasol, o bosib, ddim yn gywir.
16. Mae'n hanfodol bod y Cyngor, yn ei rôl fel yr awdurdod gweinyddu ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd, yn gweithio gyda chyrff cyflogwyr i sicrhau bod y data'n cael eu diweddarau a'u cynnal wedi hynny, mewn amser i'r prisiad tair blynedd nesaf a fydd yn digwydd yn y misoedd nesaf.

-
- 17.** Ar wahân i'r gwerth presennol actiwaraidd y buddion ymddeol a addawyd yn cael eu datgelu yn nodyn 19, mae'n werth nodi nad yw'r mater hwn yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol y gronfa bensiwn.

Nid oes unrhyw faterion eraill y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt

- 18.** Nid oes unrhyw faterion eraill i'ch hysbysu amdanynt. Yn benodol:
- Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.
 - Trafodwyd a hysbyswyd y rheolwyr am faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.
 - Mae yna faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwyllo'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu chi amdanynt.
 - Mae yna faterion eraill penodol y mae safonau archwilio yn ei gwneud hi'n ofynnol hysbysu'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu amdanynt.
- 19.** Mae hefyd yn werth nodi bod y mater yn ymwneud â chyfrifo y newid yng ngwerth y farchnad a godwyd yn y gorffennol wedi cael sylw erbyn hyn ac mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol mewn lle i wirio cofnod hwn yn y datganiadau ariannol.

Annibyniaeth a gwrthrychedd

- 20.** Fel rhan o'r broses gwblhau, rhaid i ni wneud datganiad ar ein hannibyniaeth.
- 21.** Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac yn ein barn broffesiynol ni, rydym yn annibynnol ac nid oes bygythiad i'n gwrthrychedd. Nid oes unrhyw gysylltiadau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Cronfa Bensiwn Gwynedd a fyddai'n effeithio ar ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein tyb ni.

Atodiad1

Llythyr Sylwadau Terfynol

Mr Anthony Barrett
Yr Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
CAERDYDD
CF11 9LJ
26 Medi 2013

Annwyl Mr Barrett,

SYLWADAU YN YMWNEUD Â DATGANIADAU ARIANNOL 2012/13

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 at y diben o fynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt a'u bod wedi eu paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

SYLWADAU RHEOLWYR

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Côt Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am gynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a Roddir

Rydym wedi darparu'r canlynol i chi:

- mynediad llawn i:
 - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;

-
- gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
 - chyswllt anghyfyngedig â staff yr oedd yn angenrheidiol, yn eich barn chi, cael tystiolaeth archwilio ganddynt.
 - canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll;
 - ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir rydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Cronfa Bensiwn Cyngor Gwynedd ac yn ymwneud â:
 - rheolaeth;
 - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll effeithio'n berthnasol ar y datganiadau ariannol.
 - ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a wneir gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
 - ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu bosibl o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; ac
 - manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

SYLWADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau sylweddol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a honiadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes yn y datganiadau ariannol gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan.

Ymhellach i ymarferiad rhagweithiol gan awdurdod gweinyddu'r Gronfa i wella data'r cyflogwyr ar gyfer prisiad teirblynyddol 2013, daeth yn amlwg erbyn yr haf fod y data am staff cyflogedig a gyflwynwyd yn Ionawr (ar gyfer ffigyrau "Safon Cyfrifo Rhyngwladol 19" yn datganiadau ariannol 2012/13 y cyflogwyr) ddim yn gyfredol. Fel mae Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi, nid oes ardrawiad ar ddatganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn.

Er hynny, yn dilyn datblygiadau a wnaed i systemau cyflogres yr awdurdodau unedol mae awdurdod gweinyddu'r Gronfa yn parhau i weithio ar y dasg sylweddol o wahanu cofnodion pensiwn i rai sydd yn cynrychioli swyddi unigol. Mae hyn yn golygu asesu oriau gwaith a chofnodion cyfraniadau sydd yn mynd yn ôl cryn amser. Rydym wedi cysylltu efo'r tri cyflogwr mawr ac yn gweithio gyda nhw i wella'r sefyllfa ar gyfer y prisiad teirblynyddol yn ogystal ag ar gyfer datganiadau ariannol 2013/14.

SYLWADAU GAN PWYLLGOR ARCHWILIO CYNGOR GWYNEDD

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Pwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd ar 26 Medi 2013.

Yn gywir,

.....
DAFYDD L EDWARDS
PENNAETH CYLLID

.....
CYNGHORYDD TREFOR O EDWARDS
CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Dyddiad

Dyddiad

Atodiad 2

Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i'r Cronfa Bensiwn Gwynedd

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Cyngor Gwynedd; a
- Cronfa Bensiwn Gwynedd

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, a y Datganiad Llif Arian Parod. Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2012-13 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys datganiadau cyfrifyddu y Gronfa Bensiwn Gwynedd, sy'n rhoi darlun gwir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Gwynedd a Gwynedd gronfa bensiwn a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Eglurhaol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2013 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2012-13.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa pensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 ac o swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2012-13.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Eglurhaol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

27 Medi 2013

Atodiad 3

Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros y cywiriad
£710,000	Addasiad i nodyn 9 - Nid oedd cronriad wedi wedi'u wneud gogyfer lwmp symiau unigolion oedd yn gadael ar 31/03/13.	Er mwyn sicrhau bod datganiadau ariannol yn adlewyrchu trafodion mewn cyfnod cywir
£650,000	Addasiad i Nodyn 16a - y contract deilliadol wedi cael ei gorddatgan a chredydwy'r tanddatgan gan y swm hwn	Er mwyn sicrhau bod datgeliadau datganiad ariannol yn cael eu hadrodd yn gywir
£10.811 Miliwn	Addasiad i Nodyn 16c - i ddangos y swm hwn yn gywir fel buddsoddiad Lefel 2 yn hytrach na Lefel 1	Er mwyn sicrhau bod y datganiadau ariannol yn adrodd y ffigurau cywir



WALES **AUDIT** OFFICE

SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Ffôn: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Ffacs: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

E-bost: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk

CYFARFOD:	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD:	26 MEDI 2013
TEITL:	RHEOLAETH TRYSORLYS 2012/13
PWRPAS:	Mae'n ofynnol dan God Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor
ARGYMHELLIAD:	DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH
AWDUR:	DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

Crynodeb Gweithredol

Yn ystod 2012/13 arhosodd gweithgarwch benthycy'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol, £673,244 oedd cyfanswm y llog a dderbyniwyd ar adneuron, oedd yn llai na'r £729,030 roedd yn y gyllideb. Nid oedd unrhyw fanciau yr oedd y Cyngor wedi'u defnyddio ar gyfer adneuron wedi methu ad-dalu.

1. Cyflwyniad a Cefndir

Cafodd Cod Ymarfer CIPFA ar reolaeth trysorlys ei fabwysiadu gan y Cyngor ar y 1^{af} o Fawrth 2011 ac mae'r Cyngor hwn yn cydymffurfio'n llawn â'i ofynion. Mae'r Cod yn mynnu i mi adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn erbyn y disgwyliadau. Y Pwyllgor Archwilio yw'r corff priodol i ystyried yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn cymharu ein gwir berfformiad ar gyfer 2012/13 yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd ym mis Chwefror 2012 ar gyfer y flwyddyn ariannol (a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar y 1^{af} o Fawrth 2012). Edrycha'r adroddiad ar:

- y cefndir economaidd;
- y gofyn benthycy a rheoli dyledion;
- gweithgarwch buddsoddi; a
- chydymffurfiaeth â Dangosyddion Darbodus.

Atgyfnerthir gweithgarwch rheolaeth trysorlys y Cyngor gan God Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys ("y Cod"), sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu Dangosyddion Darbodus a Datganiad Strategol Rheolaeth Trysorlys ar y gweithgarwch ariannu a buddsoddi tebygol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r Cod hefyd yn argymhell y dylid hysbysu aelodau ynghylch gweithgareddau Rheolaeth Trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Dirprwyir craffu polisi, strategaeth a gweithgarwch y trysorlys i'r Pwyllgor Archwilio.

Diffinnir Rheolaeth Trysorlys fel: *“The management of the local authority’s investments and cash flows, its banking, money market and capital market transactions; the effective control of the risks associated with those activities; and the pursuit of optimum performance consistent with those risks.”*

Erys y cyfrifoldeb cyffredinol am reolaeth trysorlys gyda’r Cyngor. Nid yw unrhyw weithgaredd rheoli’r trysorlys heb risg; mae adnabod a rheoli risg yn effeithiol yn rhan annatod o amcanion rheolaeth trysorlys y Cyngor.

2. Cefndir Economaidd

Sefydlogodd y rhagolygon byd-eang yn bennaf oherwydd bod y banciau canolog wedi cadw cyfraddau llog isel a pholisi ariannol ehangol am gyfnod estynedig. Adferodd asedau’r farchnad ecwiti yn sydyn a’r FTSE 100 yn cofnodi cynnydd o 9.1% dros y flwyddyn. Roedd hyn er bod twf economaidd y cenhedloedd G7 naill ai’n dawel neu’n siomedig.

Yn y DU, crebachodd yr economi yn y chwarteri cyntaf, ail a phedwaredd o flwyddyn galendr 2012. Y twf trawiadol o 0.9% yn y trydydd chwarter, gyda chymorth Gemau Olympaidd yr haf, a ganiataodd i allu cofnodi twf o 0.2% dros flwyddyn galendr 2012. Ni ddaeth y cynnydd disgwylidig mewn masnach net oherwydd y gostyngiad yng ngwerth y bunt, ond parodd gynnydd ym mhrisiau nwyddau a fewnforiwyd, yn enwedig nwyddau ag elw isel, megis bwyd ac ynni. Roedd osgoi ‘dirwasgiad triphlyg’ yn ddibynnol ar arolygon calonogol y sector gwasanaethau yn trosi’n ddigon o weithgaredd economaidd fyddai’n goresgyn y crebachiadau yn y sectorau gweithgynhyrchu ac adeiladu a oedd yn dioddef.

Roedd amgylchiadau ariannol aelwydydd a’u gallu prynu wedi’u cyfyngu oherwydd bod twf mewn cyflogau wedi aros yn isel ar 1.2% ac wedi’i drechu gan chwyddiant. Cwmpodd Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) o dan 3% a disgynnodd i 2.4% ym mis Mehefin cyn dringo i 2.8% ym mis Chwefror 2013. Roedd prisiau uwch bwyd, ynni a chlodiant yn rhai o’r prif gyfranwyr ddaru gadw chwyddiant uwchben targed CPI Banc Lloegr o 2%.

Roedd diffyg twf a’r gostyngiad mewn chwyddiant yn ddigon o berswâd i Fanc Lloegr gynnal y Gyfradd Banc ar 0.5% a hefyd i ganiatáu pryniant asedau o £50 biliwn ychwanegol (QE) ym mis Gorffennaf gan fynd â chyfanswm QE i £375 biliwn. Trafodwyd y posibilrwydd o dorri’r gyfradd mewn rhai o gyfarfodydd Pwyllgor Polisi Ariannol y Banc, ond ni chafodd hyn ei weithredu oherwydd bod yr anfanteision posib yn gorbwyso’r manteision o leihad yn y Gyfradd Banc. Yn y Gyllideb ym mis Mawrth, adolygwyd polisi’r Banc i gynnwys y 2% o gyfrifoldeb chwyddiant CPI ynghyd â’r hyblygrwydd i ymrwymo i’r targedau canolradd.

Gwytnwch y farchnad lafur, gyda chyfradd diweithdra’r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) yn syrthio i 7.8%, oedd y syndod mwyaf gan ystyried y cyd-destun economaidd heriol. Roedd llawer o’r cynnydd mewn cyflogaeth oherwydd cynnydd mewn hunan gyflogaeth a gweithio rhan-amser.

Cadwodd y Canghellor at ei gynlluniau cyllidol gan fwyaf gyda’r rhaglenni caledi yn ymestyn i 2018. Ym mis Mawrth, hanerodd y Swyddfa Cyfrifoldeb y Gyllideb (OBR) ei ragamcanion twf yn 2013 i 0.6% ac arweiniodd hynny at leihau’r rhagamcanion ar gyfer refeniw treth a chynnydd yn y diffyg yn y gyllideb. Erbyn hyn, mae disgwyl i’r Llywodraeth fenthg £146 biliwn yn ychwanegol ac yn gweld y ddyled gros yn cynyddu uwchlaw 100% o’r Cynnyrch Mewnwlad Crynswth (GDP) erbyn 2015-16. Roedd gostyngiad y ddyled fel canran o’r GDP, a dargedwyd gan y glymblaid yn 2015-16, wedi’i wthio i ddwy flynedd

heibio'r cyfnod hwn. Gyda matrices y ddyled genedlaethol allan o drefn â'r gyfradd tair seren, nid oedd syndod felly bod statws sofran y DU wedi'i hisraddio gan Moody's i Aa1. Cynhaliwyd statws AAA gan Fitch a S&P, er eu bod hwy wedi'i osod ar Statws Negyddol a Rhagolygon Negyddol yn ôl eu trefn.

Cychwynnodd menter Cyllid ar gyfer Benthycy'r Llywodraeth (FLS) ym mis Awst a roddodd fynediad i'r banciau at arian rhatach ar y sail y byddai'n arwain atynt hwy yn pasio'r fantais hon i'r economi ehangach. Bu gwelliant yn y llif credyd i fenthycwyr morgais ond roedd dal yn is na'r disgwyl i fusnesau bach a chanolig.

Roedd y pedwar banc mawr yn y DU – Barclays, RBS, Lloyds a HSBC – a sawl sefydliad byd-eang gan gynnwys JP Morgan, Citibank, Rabobank, UBS, Credit Suisse and Deutsche dan ymchwiliad yn y sgandal ynglŷn â rigio'r gyfradd Libor a arweiniodd at ddirwyon gan reoleiddwyr y DU a'r Unol Daleithiau a setliadau gyda hwy. Adferodd prisiau cyfranddaliadau'r banciau yn dilyn y gostyngiad cychwynnol pan ddaeth y newyddion i'r amlwg.

Ewrop: Bu i ranbarth yr Ewro ddioddef pwl newydd o straen wrth i gostau benthycy llywodraethau'r Eidal a Sbaen gynyddu'n gyflym a gorfu i Sbaen hefyd geisio'n swyddogol am '*bail-out*' i fanciau'r wlad. Tawelodd y marchnadoedd wedi datganiad yr ECB y byddai'n gwneud beth bynnag a oedd ei angen i sefydlogi rhanbarth yr ewro a chyhoeddiad y banc canolog ym mis Medi am ei gyfleuster *Outright Monetary Transactions* (OMT) a oedd yn rhoi amser ar gyfer gwneud y newidiadau cyllidol gofynnol. Ni chafwyd gwasgfa yn y farchnad a hynny er yr etholiadau Eidalaid a arweiniodd at frwydr wleidyddol, na '*bail-out*' Ynys Cyprus a reolwyd yn wael a olygai bod adnewwyr heb sicrwydd yn cael '*bail-in*'. Llesteiwyd twf gan brosesau cydbwysedd a oedd ar droed yn economïau'r euro a bu i'r rhan fwyaf ohonynt grebachu yn Ch4 2012.

UDA: Ymestynnodd Cronfa Ffederal yr UDA ei pholisi QE trwy '*Operation Twist*', drwy brynu bondiau â dyddiadau hwy arnynt gydag enillion o drysorfeydd â dyddiadau byrrach arnynt yn yr UDA. Ailgyfeiriwyd polisi gan y Gronfa Ffederal i ganolbwyntio ar y gyfradd ddi-waith gydag addewid i gadw'r cyfraddau'n isel hyd oni bydd diweithdra'n syrthio islaw 6.5%. Mae trafodaethau ynghylch ymestyn terfyn uchaf dyledion a chyllid y wlad yn parhau heb eu datrys.

Enillion Gilt a Chyfraddau'r Farchnad Ariannol: Diweddodd yr enillion gilt ar lefel is nac oeddynt ym mis Ebrill. Erbyn mis Medi, roedd enillion gilt dwy flynedd wedi syrthio i 0.06%, gyda rhai yn darogan y gallai enillion tymor byr droi'n negyddol. Gostyngodd enillion 10 mlynedd bron i 0.5% gan ddiweddu'r flwyddyn ar 1.72%. Roedd y gostyngiad hwn yn llai amlwg yn yr hirdymor; roedd enillion 30 mlynedd ar ddiwedd y flwyddyn yn 3.11%, oddeutu tua 0.25% yn is nac oeddynt ym mis Ebrill. Er y tebygolrwydd y byddai'r Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) yn adolygu ei gyflwyniad giltiau at i fyny yn 2012/13, roedd nifer o ffactorau yn cefnogi giltiau: Banc Lloegr yn parhau i wneud pryniannau giltiau dan raglen QE estynedig; banciau, cwmnïau yswiriant a chronfeydd pensiwn yn gwneud pryniannau oherwydd eu bod yn cael eu gyrru gan ofynion cyfalaf ac yn ffafrio bondiau llywodraeth fel harbwr diogel.

Un canlyniad uniongyrchol o'r Cynllun Ariannol ar gyfer Benthycy oedd gostyngiad sydyn yn y cyfraddau roedd y banciau'n benthycy arnynt gan lywodraeth leol. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol roedd y cyfraddau Libid 3 mis, 6 mis a 12 mis yn 1%, 1.33% a 1.84%, cyn syrthio i 0.44%, 0.51% a 0.75% yn ôl eu trefn.

3. Y Gofyn Benthycia a Rheoli Dyledion

Cyfradd Sicrwydd Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)

Cyflwynwyd y Gyfradd Sicrwydd gan PWLB ym mis Tachwedd 2012, sy'n caniatáu i'r awdurdod fenthycia ar lefel llog 0.2% is na'r Raddfa Safonol.

Gweithgareddau Benthyc yn 2012/13

	Balans ar 01/04/2012 £'000	Benthyciadau Newydd £'000	Dyledion Aeddfed £'000	Trosglwyddo i Tymor Byr £'000	Balans ar 31/03/2013 £'000	Cyfradd cyfartaledd %
Gofyn Cyllido Cyfalaf	152,241				165,924	
Benthycia Tymor Byr	1,341	8	(1,349)	17,437	17,437	4.58
Benthycia Tymor Hir	113,000	248	0	(17,437)	95,811	6.05
CYFANSWM BENTHYCIADAU	114,341	256	(1,349)	0	113,248	5.83
Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill	49	0	(20)	0	29	2.42
CYFANSWM DYLEDION ALLANOL	114,390	256	(1,369)	0	113,277	5.83
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Benthycia £m					(1,113)	

Amcangyfrifwyd bod yr angen sylfaenol i fenthycia, a fesurwyd drwy'r Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR), yn £165.9m ar 31/3/2013. Roedd gofynion benthycia'r Cyngor yn ystod y flwyddyn yn £0m.

Benthyciadau Mewnol

O ystyried y toriadau sylweddol i gyllid llywodraeth leol yn rhoi pwysau ar gyllid Cynghorau, y strategaeth a ddilynwyd oedd lleihau'r taliadau llog ar ddyled heb gyfaddawdu sefydlogrwydd hirdymor y portffolio. Roedd y differyn rhwng cost y ddyled newydd tymor hwy a'r adenillion a gynhyrchwyd ar adenillion buddsoddi tros dro'r Cyngor yn sylweddol (rhwng 3% a 4%). Casglwyd mai'r defnydd o adnoddau mewnol yn lle benthycia oedd y modd mwyaf cost effeithiol o ariannu £10.91m o wariant cyfalaf.

Mae hyn, am y tro, wedi gostwng y risg cyffredinol trwy leihau dyledion allanol a buddsoddiadau dros dro. Disgwylir i'r sefyllfa hon barhau yn 2013/14, fodd bynnag, ni fydd modd cynnal hyn dros y tymor canolig. Disgwylia'r Cyngor y bydd yn rhaid benthyc £5m er dibenion cyfalaf erbyn 2014/15.

Mae adolygiad 2011 i God Rheolaeth Trysorlys CIPFA erbyn hyn angen y dangosydd darbodus sy'n ymwneud ag Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog i gyfeirio aeddfedrwydd benthyciadau LOBO at y dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu taliad, h.y. y dyddiad galw nesaf Adlewyrchir y newid hwn yn Atodiad 1, paragraff (c).

4. Gweithgarwch Buddsoddi

Mae Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru yn gofyn i awdurdodau lleol ganolbwyntio ar sefydlogrwydd a hylifedd yn hytrach na chynnyrch.

Gweithgarwch Buddsoddi yn 2012/13

Buddsoddiadau	Balans ar 01/04/2012 £'000	Buddsoddiadau a wnaed £'000	Aeddfediadau / Buddsoddiadau a werthwyd £'000	Balans ar 31/03/2013 £'000	Cyfradd cyfartaledd %
Buddsoddiadau Tymor Byr	35,883	203,821	(204,075)	35,629	1.05
Buddsoddiadau mewn Cronfeydd wedi'u Cyfuno	0	0	0	0	0
CYFANSWM BUDDSODDIADAU	35,883	203,821	(204,075)	35,629	1.05
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Buddsoddiadau £m				(254)	

Roedd diogelwch cyfalaf yn parhau i fod yn brif amcan buddsoddi i'r Cyngor. Cafodd hyn ei gynnal drwy ddilyn polisi'r Cyngor ynglŷn â gwrthbartion sydd wedi'i nodi yn Natganiad Strategol Rheolaeth Trysorlys 2012/13. Roedd y buddsoddiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Adneuo gydag awdurdodau lleol eraill;
- Buddsoddiadau mewn Cronfeydd Marchnad Arian Net Sefydlog a Newidiol gyda statws credyd AAA;
- Cyfrifon ar alw ac adneuo gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu sydd o bwysigrwydd systematig i system fancio eu gwlad (y DU, Awstralia, Canada, Y Ffindir, Ffrainc, Yr Almaen, Yr Iseldiroedd, Sweden, Y Swistir ac UDA).

Risg Credyd

Caiff ansawdd credyd gwrthbartion ei asesu a'i fonitro wrth gyfeirio at statws credyd; amnewid diffyg credyd (credit default swaps); GDP y wlad y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddi; dyled net y wlad fel canran o'i GDP; unrhyw fecanweithiau cefnogi posib ynghyd â phris y cyfranddaliadau. Isafswm y statws credyd tymor hir ar gyfer gwrthbartion a bennwyd ar gyfer strategaeth trysorlys 2012/13 oedd A-/A-/A3 ar draws asiantaethau credyd-raddio Fitch, S&P a Moody's.

Ym mis Mehefin, israddiwyd gan Moody's lu o fanciau sydd â gweithgareddau marchnadoedd cyfalaf byd-eang, gan gynnwys banciau'r DU sydd ar restr benthyciadau'r Cyngor - Barclays, HSBC, Royal Bank of Scotland/Natwest, Lloyds TSB Bank/Bank of Scotland, Santander UK plc – ynghyd â sawl banc nad ydynt wedi'u lleoli yn y DU, ond ni chwmpodd yr un o'u statws islaw trothwy lleiafswm statws credyd A-/A3 y Cyngor.

Mae ansawdd credyd gwrthbartïon wedi cael ei gynnal fel y dengys y Dadansoddiad Sgoriau Credyd isod. Mae'r tabl yn Atodiad 2 yn egluro'r sgôr credyd.

Dadansoddiad Sgor Credyd 2012/13

Dyddiad	Cyfartaledd Gwerth – Sgôr Risg Credyd	Cyfartaledd Gwerth – Statws Credyd	Cyfartaledd Amser – Sgôr Risg Credyd	Cyfartaledd Amser – Statws Credyd	Cyfartaledd y cyfnod (diwrnodau)
31/03/2012	4.98	A+	4.93	A+	27
30/06/2012	5.19	A+	3.00	AA	36
30/09/2012	3.74	AA-	3.48	AA	68
31/12/2012	5.54	A	5.31	A+	146
31/03/2013	5.17	A+	4.97	A+	81

Hylifedd

Yn unol â Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru, bu i'r Cyngor gynnal lefel ddigonol o hylifedd drwy ddefnyddio Cronfeydd Arian Marchnad, adneuron dros nos a chyfrifon ar alw.

Cynnyrch

Ceisiodd y Cyngor optimeiddio enillion yn gymesurol â'r amcanion sefydlogrwydd a hylifedd. Cynhaliwyd Cyfradd Banc y DU ar 0.5% drwy gydol y flwyddyn.

Ystyriodd y Cyngor ymateb priodol i reoli risg i amodau credyd ansicr a oedd yn dirywio yn Ewrop, sef byrhau aeddfediadau buddsoddiadau newydd. Arhosodd cyfraddau arian y farchnad tymor byr hefyd ar lefelau isel iawn a cafodd hyn effaith sylweddol ar incwm o fuddsoddiadau.

Cyllideb y Cyngor ar gyfer incwm buddsoddi am y flwyddyn oedd £0.729m. Cyfartaledd balansau arian sydd yn cynrychioli reserfau'r Cyngor, balansau gweithredol, ayb, oedd £74.578m yn ystod y cyfnod ac ennillwyd llog gwerth £0.673m.

Diweddariad ynglŷn â'n Buddsoddiadau ym Manc Heritable

Disgwylir y bydd 88c/£ yn cael ei adennill. Hyd yn hyn, mae 77.25% wedi'i adennill, a disgwylir 10.8% arall yn 2013/14.

Cyhoeddwyd arweiniad pellach ar driniaeth cyfrifeg y trafodion gan CIPFA yn Mai 2013 a'i defnyddwyd ar gyfer cyfrifon 2012/13.

5. **Cydymffurfiaeth**

Gall y Cyngor gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'i **Ddangosyddion Darbodus** ar gyfer 2012/13, a gymeradwywyd ar 1 Mawrth 2012 fel rhan o Ddatganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys y Cyngor. Gweler manylion yn Atodiad 1.

Yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA, mae'r adroddiad hwn yn darparu adroddiad cryno i aelodau ar weithgaredd rheolaeth trysorlys yn ystod 2012/13. Nid oes unrhyw un o'r Dangosyddion Darbodus wedi'u torri a defnyddiwyd dull darbodus o ran gweithgarwch buddsoddi gan roi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd dros enillion.

Gall y Cyngor gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'i **Ddatganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys** a'i **Arferion Rheolaeth Trysorlys** yn ystod 2012/13.

6. **Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR)

Dangosir amcangyfrifon o uchafswm gofyn benthycy allanol cronus y Cyngor ar gyfer 2012/13 hyd at 2014/15 yn y tabl isod:

	Awdur- dodwyd 31/3/2013 £000	Gwir 31/3/2013 £000	Amcan- gyfrif 31/3/2014 £000	Amcan- gyfrif 31/3/2015 £000
Gros CFR	162,030	165,924	170,160	175,216
Llai: Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill	(29)	(29)	(15)	0
Benthycy CFR	162,001	165,895	170,145	175,216
Llai: Proffil Benthycy Presennol	(112,811)	(113,248)	(112,191)	(116,035)
Gofyn Benthycy Gros / Benthycy mewnol	49,190	52,647	57,954	59,181
Reserfau i'w defnyddio	(58,880)	(65,725)	(60,587)	(53,077)
Darpariaeth Tymor Hir	0	(9,865)	(9,865)	(9,865)
Gofyn Benthycy Gros / Cynhwysedd Buddsoddi	(9,690)	(22,943)	(12,498)	(3,761)

Mae'r Cod Darbodus Diwygiedig (Tachwedd 2012), yn datgan y dylai'r prif swyddog cyllid wneud trefniadau ar gyfer monitro'r ddyled gros a'r gofyn cyllido cyfalaf ac yr adroddir am unrhyw wriad wrth y swyddog, gan y gall unrhyw wriad fod yn arwyddocaol a dylai arwain at ymchwiliad a chymryd camau pellach fel bo'n briodol.

	Awdurdodwyd 31/03/2013 £000	Gwir 31/03/2013 £000	Amcangyfrif 31/03/2014 £000	Amcangyfrif 31/03/2015 £000
CFR	162,030	165,924	170,160	175,216
Dyled gros	(112,840)	(113,227)	(112,206)	(116,035)
Gwahaniaeth	49,190	52,647	57,954	59,181
Benthycwyd mwy na'r CFR?	Na	Na	Na	Na

Cydymffurfiaeth â Dangosyddion Darbodus**(a) Terfyn Awdurdodedig a Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor osod Terfyn Benthycy Awdurdodedig, yn annibynnol o'i statws dyledus. Mae hwn yn derfyn statudol na ddylid ei dorri. Gosodwyd Terfyn Benthycy Awdurdodedig y Cyngor yn £190m ar gyfer 2012/13.

Mae'r Ffin Weithredol wedi'i seilio ar yr un amcangyfrifon â'r Terfyn Awdurdodedig ond yn adlewyrchu'r achos mwyaf tebygol, darbodus ond nid yr achos gwaethaf heb gynnwys yr ychwaneg o fewn y Terfyn Awdurdodedig. Gosodwyd y Ffin Weithredol ar gyfer 2012/13 yn £170m.

Mae'r Pennaeth Cyllid yn cadarnhau na thorriwyd y Terfyn Awdurdodedig na'r Ffin Weithredol yn ystod y flwyddyn. Cyrhaeddwyd brig o £114.39m o ran benthyca.

	Ffin Weithredol (Awdurdodedig) 31/03/2013 £m	Terfyn Benthyca (Awdurdodedig) 31/03/2013 £m	Gwir Dyled Allanol 31/03/2013 £m
Benthyca	169.75	189.75	113.25
Ymrwymadau tymor hir eraill	0.25	0.25	0.03
Cyfanswm	170.00	190.00	113.28

(b) Terfynau Uchaf o ran Effaith Cyfraddau Llog Sefydlog a Chyfraddau Llog Cyfnewidiol

Mae'r dangosyddion hyn yn caniatáu'r Cyngor i reoli i ba raddau y caiff ei effeithio gan newidiadau yng nghyfraddau llog.

Mae'r terfyn uchaf ar gyfer cyfradd gyfnewidiol yn caniatáu defnyddio dyledion cyfraddau cyfnewidiol i leddfu effaith i newidiadau mewn cyfraddau byrdymor ar ein portffolio o fuddsoddiadau.

	Terfynau ar gyfer 2012/13 %	Uchafswm yn ystod 2012/13 %
Terfyn Uchaf ar gyfer Cyfraddau Sefydlog	100%	100%
Cydymffurfio â'r Terfynau:	Ydi	Ydi
Terfyn Uchaf ar gyfer Cyfraddau Cyfnewidiol	50%	0%
Cydymffurfio â'r Terfynau:	Ydi	Ydi

(c) Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog

Mae'r dangosydd yn cyfyngu crynodiadau uchel o ddyledion cyfradd sefydlog sydd angen eu hamnewid pan fo ansicrwydd ynglŷn â chyfraddau llog.

Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau Cyfradd Sefydlog	Terfyn Uchaf %	Terfyn Isaf %	Gwir Fenthyciadau Cyfradd Sefydlog fel ar 31/03/2013 £'000	% y Benthyciadau Cyfradd Sefydlog fel ar 31/03/2013	Cydymffurfio â'r Terfynau a Osodwyd?
dan 12 mis	25%	0%	17,541	15.40%	Ydi
12 mis ac o fewn 24 mis	25%	0%	1,203	0.99%	Ydi
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	50%	0%	3,020	3.96%	Ydi
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	75%	0%	6,970	5.21%	Ydi
10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd	100%	0%	23,661	22.58%	Ydi
20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd	100%	0%	34,594	27.71%	Ydi
30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd	100%	0%	0	0.00%	Ydi
40 mlynedd ac o fewn 50 mlynedd	100%	0%	27,352	24.15%	Ydi
Dros 50 mlynedd	100%	0%	0	0.00%	Ydi
CYFANSWM			113,865	100.00%	

Mae'r adolygiad 2011 i'r Cod Rheolaeth Trysorlys gan CIPFA yn gofyn i'r Dangosydd Darbodus ynglŷn ag aeddfedrwydd Benthyciadau Tymor Hir i ddefnyddio'r dyddiad cynharach y gallai'r benthyciwr gofyn am ad-daliad, h.y. y dyddiad galw nesaf.

(d) **Gwariant Cyfalaf**

Gosodwyd y dangosydd hwn i sicrhau bod lefel y gwariant cyfalaf arfaethedig yn aros o fewn terfynau cynaliadwy ac, yn benodol, i ystyried yr effaith ar y Dreth Gyngor.

Gwariant Cyfalaf	Amcangyfrif 2012/13 £m	Gwir 2012/13 £m	Amcangyfrif 2013/14 £m	Amcangyfrif 2014/15 £m
Cronfa Gyffredinol	61.44	40.33	48.50	34.47

Bydd gwariant cyfalaf yn cael ei gyllido neu ei ariannu, a bydd yn cael ei gyllido neu ei ariannu, fel a ganlyn:

Cyllido Cyfalaf	Awdur- dodwyd 2012/13 £m	Gwir 2012/13 £m	Amcan- gyfrif 2013/14 £m	Amcan- gyfrif 2014/15 £m
Derbyniadau cyfalaf	1.89	2.34	1.57	1.10
Grantiau'r Llywodraeth	31.13	21.15	25.68	15.28
Cyfraniadau Refeniw	13.92	5.93	12.87	7.23
Cyfanswm Cyllido	46.94	29.42	40.12	23.61
Benthyca wedi'i gefnogi	4.89	4.37	4.17	4.17
Benthyca heb ei gefnogi	9.61	6.54	4.21	6.69
Cyfanswm Ariannu	14.50	10.91	8.38	10.86
Cyfanswm Cyllido ac Ariannu	61.44	40.33	48.50	34.47

Dengys y tabl na ellir ariannu cynlluniau gwariant cyfalaf yr Awdurdod yn llwyr o ffynonellau ar wahân i fenthyca allanol.

(e) Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net

Dangosydd yng nghyswllt fforddiadwyedd yw hwn, ac mae'n amlygu'r goblygiadau refeniw ar gyfer gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig drwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sydd ei hangen i gwrdd â chostau cyllido. Mae'r gymhareb wedi'i seilio ar gostau net incwm o fuddsoddiadau.

	Awdurdodwyd 2012/13 %	Gwir 2012/13 %	Amcangyfrif 2013/14 %	Amcangyfrif 2014/15 %
Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net	5.65	5.20	5.16	5.24

(f) Mabwysiadu Cod Rheolaeth Trysorlys CIPFA

Mae'r dangosydd hwn yn dangos bod y Cyngor wedi mabwysiadu egwyddorion yr arferion gorau.

Mabwysiadu Cod Ymarfer Rheolaeth Trysorlys CIPFA
Cymeradwyodd y Cyngor y cynnig i fabwysiadu Cod Rheolaeth Trysorlys CIPFA yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 1 Mawrth 2012.

(g) Terfyn Uchaf ar gyfer cyfanswm symiau a fuddsoddir am gyfnod hwy na 364 diwrnod

Pwrpas y terfyn hwn yw ceisio atal y posibilrwydd o golled allai godi os yw'r Cyngor yn gorfod ceisio ad-daliad cynnar o'r symiau a fuddsodwyd.

	Awdur- dodwyd 2012/13 £m	Gwir 2012/13 £m	Awdur- dodwyd 2013/14 £m	Awdur- dodwyd 2014/15 £m
Terfyn Uchaf ar gyfer cyfanswm symiau a fuddsoddir am gyfnod tros 364 diwrnod	40.00	0.00	40.00	40.00

Ymateb polisi'r Cyngor ers dechrau'r argyfwng credyd yn 2007 yw cadw aeddfedrwydd buddsoddiadau at flwyddyn fel uchafswm. Ni fuddsoddyd unrhyw brif symiau am gyfnod hwy na 364 diwrnod.

Dadansoddiad o'r Sgôr Credyd

Sgorio:

Statws Credyd Tymor Hir	Sgôr
AAA	1
AA+	2
AA	3
AA-	4
A+	5
A	6
A-	7
BBB+	8
BBB	9
BBB-	10
Heb ei sgorio	11
BB	12
CCC	13
C	14
D	15

Mae'r gwerth cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint yr adnau. Mae'r amser cyfartalog yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl aeddfedrwydd yr adnau.

Roedd y Cyngor yn anelu at sgôr o 7 neu is, er mwyn adlewyrchu'r flaenoriaeth or-redol am ddiogelwch yr arian a buddsoddir a'r trothwy isaf cyfradd credyd A- i gwrthbartion buddsoddi.

CYNGOR GWYNEDD

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD	26 MEDI 2013
TEITL	ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU
PWRPAS YR ADRODDIAD	ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 3 MEDI 2013
AWDUR	TREVOR O EDWARDS, CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD AC YSTYRIED YR ARGYMHELLION

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynwyd crynodebau gweithredol 12 o adroddiadau i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 18 Gorffennaf 2013, sef adroddiadau oedd wedi eu rhyddhau'n derfynol rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2013. Derbyniodd 2 o'r adroddiadau hyn farn 'C'.

1.2 Felly, yn y Pwyllgor penderfynwyd:

a) Bod gwaith y Gweithgor i barhau a bod y canlynol i wasanaethu arno y tro nesaf – Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cynghorwyr Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan a Michael Sol Owen.

2 CYFARFOD Y GWEITHGOR

2.1 Cynhaliwyd cyfarfod y Gweithgor ar 3 Medi yn Ystafell Glyder Fawr, gyda Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorwyr Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan a Michael Sol Owen a Dewi Morgan, Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn bresennol.

2.2 Yr adroddiadau a dderbyniodd farn 'C' yn ystod y cyfnod dan sylw oedd:

TEITL	ADRAN	GWASANAETH
Siopau Gwynedd	Gofal Cwsmer	Cyswllt Cwsmer
Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden	Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden	Hamdden

2.3 Mynychodd swyddogion i drafod y ddau adroddiad.

2.4 Rhoddwyd sylw i'r crynodebau hyn yn eu tro gan aelodau'r Gweithgor. Roedd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn cynnig cefndir pellach, gan gynnwys cyflwyno pwyntiau perthnasol o'r adroddiad llawn. Roedd Uwch Reolwyr wedi cael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sydd yn codi, ac yn anad dim y gwaith sydd wedi ei wneud ers cyhoeddi'r adroddiad archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

2.5 Siopau Gwynedd

2.5.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad yma oedd:

Gwelwyd bod gwybodaeth gyfredol ar ffurf pamffledi, ffurflenni neu cylchgronau ym mhob o dair Siop Gwynedd ac yn hygyrchol i'r cyhoedd. Gwelwyd bod ymwelwyr sydd yn cyfarfod yn yr adeiladau yn llofnodi cofnod i mewn ac allan o'r adeilad ond nid oedd trefniant ar gyfer eu hysbysu am drefniadau mewn achos o dân, h.y. os oes ymarferiad tân wedi ei gynllunio ynghyd â manau cyfarfod mewn achos o argyfwng.

Y prif wendid a ddarganfuwyd yn ystod yr archwiliad oedd diffyg trefniadau yn y broses o dderbyn, cofnodi a bancio incwm. Nid oedd Siop Gwynedd Caernarfon wedi derbyn fflôt serch ei bod wedi bod ar agor i'r cyhoedd ers mis Ionawr 2013. Dengys bod gwendidau wrth lunio cynllun prosiect Siop Gwynedd Caernarfon oherwydd bu i sawl ffactor hanfodol gael eu methu - mae hyn yn cynnwys methiant i ddarparu hyfforddiant priodol i'r staff ar faterion megis trefniadau ariannol a methiant i ddarparu iddynt y ddogfennaeth briodol ar gyfer cofnodi a bancio incwm. Yn ychwanegol, gwelwyd bod yr incwm a dderbynnir yn cael ei gadw mewn bocs arian a bod gan yr holl staff fynediad ato sydd yn golygu petai methiant i gysoni incwm ar gyfer bancio y buasai amheuaeth ar bob aelod o staff. Mae hyn yn gam mawr yn ôl wrth ystyried bod rheolaethau cadarn, systemau priodol a gwahaniad dyletswyddau digonol wedi bodoli yn y cyn-swyddfeydd arian.

Mae Arweinydd Tîm Siop Gwynedd a'r Hyfforddai Proffesiynol Cyswllt Cwsmer bellach wedi derbyn hyfforddiant ar sut i lenwi ffurflenni derbyn incwm gan y Rheolwr Archwilio Cynorthwyol ac mae trefniadau ar y gweill i sicrhau bod yr hyfforddiant yn cael ei raedru i holl staff Siopau Gwynedd yn y dyfodol agos. Yn ogystal, mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda Archwilio Mewnol i sicrhau bod trefniadau cadarn ac eglur yn cael eu sefydlu ar gyfer bancio incwm drwy dynnu haenau di-angen o'r broses. Dywedodd y Rheolwr Cyswllt Cwsmer, yn dilyn sefydlu'r trefniadau bancio arfaethedig, y buasai yn gwerthfawrogi petai Archwilio Mewnol yn ymweld â Siopau Gwynedd yn ddi-rybudd i sicrhau bod eu trefniadau yn unol â'r disgwyl.

O safbwynt gofal cwsmer, mae angen gwella trefniadau derbyn adborth gan gwsmeriaid i alluogi staff a rheolwyr y siopau i adnabod gwendidau a cryfderon y gwasanaeth. Hefyd, mae angen gwneud yn siwr bod staff yn derbyn hyfforddiant ar sut i ddelio gyda cwynion gan ymwelwyr, gan gynnwys hyfforddiant ar sut i gofnodi cwynion a wneir ar lafar.

2.5.2 Rhoddwyd cefndir i gyd-destun yr archwiliad gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg. Nodwyd fod sefydlu Siop Gwynedd mewn tri lleoliad (yn Nolgellau a Phwllheli i ddechrau, ac yna yng Nghaernarfon) wedi bod yn brosiectau sylweddol, ac roedd cryn waith wedi ei wneud gan y swyddogion i sefydlu trefniadau a ffordd o weithio newydd. O safbwynt cyflwyno hyfforddiant i swyddogion newydd sy'n cychwyn yn y Cyngor, eglurodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod trefn o roi hyfforddiant anwytho i holl staff newydd er mwyn cyflwyno polisiau a gweithdrefnau corfforaethol iddynt, ond mai cyfrifoldeb y rheolwyr wedyn yw trefnu hyfforddiant sy'n berthnasol i swyddi penodol.

2.5.3 Croesawyd Idris Jones, Rheolwr Cyswllt Cwsmer a Joanne Parry, Rheolwr Cynorthwyol Cyswllt Cwsmer i'r cyfarfod er mwyn trafod y materion oedd yn codi o'r adroddiad.

2.5.4 Esboniodd y Rheolwr Cyswllt Cwsmer fod rhaglen yn ei le i wella'r sefyllfa a amlygwyd yn yr adroddiad, gyda Siop Gwynedd Caernarfon wedi agor ers mis Ionawr eleni. Roedd yn fenter fawr i gael pethau yn eu lle erbyn er mwyn agor ar amser, a bu'n rhaid penodi swyddogion newydd. Er fod nifer o'r swyddogion a benodwyd yn wreiddiol â phrofiad o weithdrefnau'r Cyngor a meysydd arbennig, roedd rhai ohonynt wedi gadael wedyn er mwyn dilyn gyrfaedd yn rhywle arall.

Hyfforddi

- 2.5.5 Eglurodd y Rheolwr Cyswllt Cwsmer fod rhaglen hyfforddi helaeth yn ei le, ac nad oedd yn ymarferol ei gyflwyno yn ei gyfanrwydd i bawb cyn iddynt ddechrau'r gwaith, ond roedd hyfforddiant unigol yn cael ei gynnig i swyddogion lle roedd angen penodol yn cael ei adnabod. Mae rhaglen hyfforddi fanwl wedi ei baratoi i swyddogion Siopau Gwynedd, a dangoswyd copi ohono i aelodau'r Gweithgor gan y Rheolwr Cynorthwyol fel tystiolaeth. Nodwyd yn arbennig fod 4 aelod o staff gymharol newydd, a fod staff Siop Gwynedd Caernarfon yn derbyn hyfforddiant bellach ar y system gyfrifiadurol Treth Cyngor / Budd-dal.
- 2.5.6 Mae staff newydd yn cael eu penodi yn anad dim ar eu sgiliau gofal cwsmer, gyda'r egwyddor y gellid eu dysgu am agweddau technegol y swydd, tra fod y sgiliau gofal cwsmer yn gynhenid. Mae staff newydd yn dysgu wrth wyllo pobl eraill wrth eu gwaith am yr wythnosau cyntaf, ac yna'n cael eu goruchwyllo yn ofalus wrth ddelio gyda chwsmeriaid. Unwaith ac am byth ydi'r hyfforddiant cychwynnol, ond caiff ei ddiweddarau wyneb yn wyneb, ar bapur (os yn fater pwysig lle mae angen cofnod ffurfiol) neu mewn cyfarfodydd tîm. Nid oes un ffordd penodol wedi ei adnabod ar gyfer hyfforddiant adnewyddu sgiliau.
- 2.5.7 Awgrymodd un aelod y dylid cynnig sesiynau hyfforddiant i'r holl staff ar unwaith, ond pwysleisiwyd gan y Rheolwr Cyswllt Cwsmer fod rhaid cydbwysu hynny yn erbyn yr angen i wasanaethu'r cyhoedd.

Cynllun Llaur

- 2.5.8 Cafwyd trafodaeth am gynllun llaur Siopau Gwynedd. Esboniodd y Rheolwr Cynorthwyol Cyswllt Cwsmer fod y gwaith mwy neu lai yr un peth yn y tri lleoliad, a droriau pwrpasol yn eu lle i gadw ffurflenni. Er hyn, roedd ambell aelod yn awgrymu y dylid cael mwy o gysondeb, fel nad oedd staff sy'n llenwi mewn Siop Gwynedd anghyfarwydd iddynt yn chwilota am ffurflenni, taflenni gwybodaeth ayb ac felly'n rhoi delwedd wael i'r cyhoedd.

Dyletswyddau Rheolwr Safle

- 2.5.9 Adroddwyd gan y Rheolwr Cynorthwyol fod Siopau Gwynedd Dolgellau a Phwllheli wedi cymryd y cyfrifoldeb o sicrhau diogelwch y safle, a hynny yn cael ei wneud ar gyfer yr holl adeilad – nid ardal Siop Gwynedd yn unig. Nodwyd mai cyfrifoldeb yr Uned Eiddo ydi penodi rheolwr safle, ond pwysleisiwyd mai'r Gwasanaeth Siop Gwynedd sydd wedi eu penodi yn "Rheolwr Safle" yn Nolgellau a Phwllheli – nid unigolyn enwebedig.

Trefniadau Bancio

- 2.5.10 Cytunwyd mai swm cymharol fychan o arian sydd yn cael ei gasglu yn Siopau Gwynedd, ac roedd y trefniant yn wahanol yng Nghaernarfon i'r hyn yn digwydd ym Mhwllheli a Dolgellau gan fod swyddfa gefn yr Arianwyr yn parhau yn weithredol yn swyddfa Penrallt, Caernarfon. Cadarnhawyd fod Arweinyddion Tîm Caernarfon wedi derbyn hyfforddiant ar drefniadau ariannol gan y Rheolwr Archwilio Cynorthwyol.
- 2.5.11 Mae fflôt ym mhob un o Siopau Gwynedd erbyn hyn.

Sylw Cyffredinol am yr Archwiliad

- 2.5.12 I gloi, mynegodd y Rheolwr Cyswllt Cwsmer ei fod o'r farn fod geiriad yr adroddiad archwilio braidd yn llawdrwm pan yn dweud fod diffygion yn y trefniadau prosiect, pan oedd llawer o waith wedi ei wneud ond nad oedd modd cwblhau pob elfen o'r prosiect cyn i Siop Gwynedd Caernarfon agor. Mewn ymateb, dywedodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ei fod yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r gwaith caled oedd wedi ei wneud i agor Siop Gwynedd.

- 2.5.13** Diolchwyd i'r Rheolwr Cyswllt Cwsmer a'r Rheolwr Cynorthwyol Cyswllt Cwsmer am y drafodaeth. Roedd y Gweithgor yn awyddus i bwysleisio mai cydweithio i wella trefniadau ymhellach oedd y nod, gan mai llwyddiant i Siop Gwynedd yr oedd pawb am ei weld. Cytunodd y Rheolwr Cyswllt Cwsmer, gan egluro fod trafodaeth eisoes wedi ei gynnal gydag Archwilio Mewnol er mwyn cynnal profion penodol, dilynol er mwyn cael barn annibynnol ar rai trefniadau.
- 2.5.14** Roedd y Gweithgor yn croesawu'r ysbryd o gydweithio, a'r agwedd gadarnhaol tuag at gryfhau rheolaeth risg yn Siopau Gwynedd.

2.6 Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden

2.6.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Gwelir bod enghreifftiau o ymarfer da a rheolaeth gadarn oddi fewn trefniadau bancio yn rhai o'r Canolfannau Hamdden. Fodd bynnag, gwelir bod nifer o'r meysydd a archwiliwyd angen sylw pellach. Un ohonynt yw atgoffa swyddogion bod angen dau aelod o staff i arwyddo dogfennau perthnasol. Mae nifer o gamgymeriadau wedi eu darganfod ac oherwydd hyn dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

- 2.6.2 Nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod hwn yn faes o risg uchel, gan fod arian parod yn cael ei dderbyn a gwendidau sylweddol sydd wedi arwain at golledion wedi eu hadnabod yn y gorffennol. Gofynnwyd iddo beth oedd ei farn am y diffygion sydd yn parhau i gael eu gweld yn rhai o'r trefniadau. Esboniodd ei farn mai diffyg gwerthfawrogiad o werth rhai o'r rheolaethau yma efallai sydd i gyfrif. Tra fod pawb yn glir am yr amcan o amddiffyn arian cyhoeddus, efallai nad oedd dealltwriaeth gan bawb o sut y mae rhai o'r rheolaethau unigol yn cyfrannu at hynny.
- 2.6.3 Er enghraifft, mae'n bosib fod ail swyddog yn arwyddo dogfennau banc am fod gweithdrefnau ariannol y Cyngor yn gofyn hynny, nid am fod hyn yn cael ei weld fel tystiolaeth o wiriad fel ffordd o leihau'r risg o dwyll. Nid yw gwybod beth sydd angen ei wneud yn ddigon – mae angen deall pam hefyd.
- 2.6.4 Croesawyd Gwenno Williams, Uwch Reolwr Gweithredol i'r cyfarfod.
- 2.6.5 Dywedodd yr Uwch Reolwr Gweithredol ei bod yn falch o'r adroddiad, fod yr archwiliwr wedi bod yn drylwyr iawn ac fod gwersi i'w dysgu o'r adroddiad. Dwy flynedd yn ôl roedd adroddiad yn yr un maes wedi cael barn 'CH', felly mae cynnydd wedi ei wneud, ond mae angen gwella ymhellach.
- 2.6.6 Eglurodd yr Uwch Reolwr fod y Tîm Technegol yn Darparu a Hamdden yn cyflwyno hyfforddiant i staff ar y trefniadau bancio ymysg pethau eraill. Mae'r Swyddog Technegol wedi trafod y rhaglen hyfforddi gyda'r archwiliwr yn dilyn yr archwiliad ac wedi esbonio'r hyn sydd wedi ei roi mewn lle.
- 2.6.7 Cafwyd cyfarfod o reolwyr y canolfannau ar 1 Gorffennaf. Cytunwyd bryd hynny sut i symud ymlaen i weithredu gwelliant yn y rheolaethau mewnol yn y canolfannau.
- 2.6.8 Aeth yr Uwch Reolwr trwy'r argymhellion fesul un er mwyn esbonio'r hyn sydd wedi ei wneud; roedd y cynllun gweithredu eisoes yn nodi fod y gwasanaeth wedi cytuno i bob un ohonynt. Wrth drafod yr argymhellion fesul un, nodwyd y pwyntiau canlynol :
- Mae gan bob ganolfan y fersiwn ddiweddaraf o'r IMS (llawlyfr rheoli'r canolfannau hamdden) erbyn hyn. Yn gyffredinol, mae'r IMS yn eithaf hen, ac yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.
 - Fod y rheolwr gymharol newydd mewn un ganolfan wedi derbyn hyfforddiant bellach, ac felly'n deall yn well erbyn hyn yr hyn sydd ei angen.
 - Lle roedd diffygion mewn dealltwriaeth wedi eu hadnabod, mae rheolwyr a swyddogion canolfannau hamdden wedi eu hyfforddi. Roedd yr hyfforddiant yma yn cynnwys yn angen i ddau berson arwyddo'r dogfennau perthnasol. Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, dywedodd fod yr hyfforddiant nid yn unig yn pwysleisio fod angen dau lofnod, ond hefyd pam.

- Ar hyn o bryd, mae angen i swyddogion y canolfannau baratoi memorandwm pan mae gwahaniaeth o dros £3 yn y bancio. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad i ychwanegu yn yr IMS bod angen i reolwyr angen wirio'r memoranda hyn. Mae templed newydd wedi cael ei baratoi ar gyfer y cyfryw femoranda. Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod os oedd y trothwy o £3 yn rhy isel erbyn hyn, dywedodd yr Uwch Reolwr Gweithredol ei bod yn hapus â'r lefel bresennol.
- Mae rheolaeth syml, ond a ddylai fod yn effeithiol, wedi ei gyflwyno rhag i fagiau'r cwmni diogelwch redeg allan eto. Caiff taflen bapur A4 ei fewnosod yn y pentwr o fagiau gwag, tua 7 o'r gwaelod, fel rhybudd i archebu mwy.
- Mae cloeon addas yn eu lle erbyn hyn yn y ganolfan lle adnabuwyd diffygion yn ystod yr archwiliad.

2.6.9 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Gweithredol am y diweddariad. Roedd y Gweithgor yn fodlon y byddai'r camau adeiladol sydd wedi eu cyflwyno yn gymorth i wella rheolaeth fewnol ymhellach o fewn y trefniadau bancio.

CYNGOR GWYNEDD

PWYLLGOR

PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDDIAD

26 MEDI 2013

TEITL

CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

PWRPAS YR ADRODDIAD

**AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO
MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 AWST 2013**

AWDUR

**DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A
RISG**

GWEITHREDIAD

**DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y
CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION
SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R
GWASANAETHAU PERTHNASOL ER
GWEITHREDIAD**

I. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Gorffennaf 2013 hyd at 31 Awst 2013.

2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

- 2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Awst 2013:

Disgrifiad	Nifer
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol	10
Adroddiadau Eraill (memoranda ayb)	1
Adolygiadau Grant	2

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng ngorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Awst 2013, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	BARN	ATODIAD
Ysgolion Uwchradd - Diogelwch Gwybodaeth	Addysg	Ysgolion	B	Atodiad 1
Ysgolion Uwchradd - Rheolaeth Gyllidebol	Addysg	Ysgolion	B	Atodiad 2
Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch	Corfforaethol		C	Atodiad 3
Polisi Buddiannau Swyddogion	Corfforaethol		C	Atodiad 4
Rhoddion a Lletygarwch Aelodau	Democratiaeth a Chyfreithiol	Swyddog Monitro	B	Atodiad 5
Trwyddedau Meddalwedd (Corfforaethol)	Gofal Cwsmer	Technoleg Gwybodaeth	B	Atodiad 6
Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion)	Gofal Cwsmer	Technoleg Gwybodaeth	C	Atodiad 7
Eiddo'r Cyngor - Offer Ymladd Tân	Gofal Cwsmer	Tir ac Eiddo'r Cyngor	B	Atodiad 8
Costau Teithio Gweithwyr Cefnogol	Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden	Ar draws yr adran	B	Atodiad 9
Y Gwasanaeth Cynllunio	Rheoleiddio	Cynllunio	B	Atodiad 10

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

- Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.
- Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.
- Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.
- Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

2.2.3 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd yr archwiliadau isod lle cynhyrchwyd memorandwm yn hytrach nag adroddiad llawn, a ni roddwyd categori barn:

- **Cyfrannu at baratoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol** (*Corfforaethol*). Cymeradwywyd y datganiad drafft gan y Pwyllgor Archwilio ar 18 Gorffennaf, ac mae'r fersiwn derfynol wedi ei gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon sydd wedi ei gyflwyno i'r cyfarfod yma.

2.3 Grantiau

2.3.1 Adolygwyd gweithdrefnau gweinyddol y grantiau canlynol yn ystod y cyfnod:

- Grant Refeniw 2012-13 y Cyfnod Sylfaen (*Addysg*)
- Grant y Fenter Brechwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd (*Addysg*)

2.3.2 Nid yw'r ffaith fod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r grantiau yma yn golygu na fydd archwilwyr allanol o Swyddfa Archwilio Cymru neu gyrff eraill yn cynnal archwiliadau o'r grantiau yma hefyd. Fodd bynnag, disgwylir fod y gwaith y mae Archwilio Mewnol, a'r sicrwydd y bu'n bosib ei ddatgan am yr amgylchedd reolaeth, yn golygu y bydd angen llai o waith archwilio gan y cyfundrefnau hyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu lleihad yn y ffoedd y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei dalu am archwiliadau allanol.

2.4 Archwiliadau Dilyniant

2.4.1 Ni gwblhawyd gwaith dilyniant yn ystod y cyfnod dan sylw

2.4.2 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2013

Cyfarpar gan Cyn-aelodau
Trefniadau TG i aelodau
Cofnodi a Rheoli Gwyliau

Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2013

Telerau Contractau - Gwiriadau DBS
Gwiriadau DBS Staff
Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth
Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden
Prosesu Data Cyflenwyr Ynni

Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2014

Siopau Gwynedd
Rheoli Newid i Systemau TG

Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2014

Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion)
Polisi Buddiannau Swyddogion
Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch

3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Medi 2013.

3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Rheoli cyllidebau cynnal adeiladau Ysgolion Uwchradd - gwerth am arian (*Addysg*)
- Y Drefn Gwynion Corfforaethol (*Corfforaethol*)
- Papurau Eithriedig a Chyfrinachedd (*Strategol a Gwella*)
- Swyddogaethau yn y Broses Monitro Gwariant Cyfalaf (*Strategol a Gwella*)

3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Grant Amddifadedd Disgyblion (*Addysg*)
- Grant Blas am Oes (*Addysg*)
- Grant Gofal Plant Tu Allan i Ysgol (*Addysg*)
- Gwirio Mesuryddion Perfformiad (*Corfforaethol*)
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) (*Corfforaethol*)
- Rheolaeth Gyllidebol (*Corfforaethol*)
- Grant Gwisg Ysgol (*Cyllid*)
- Canolfannau Croeso (*Economi a Chymuned*)
- Porthladdoedd (*Economi a Chymuned*)
- Swyddogion Adfywio Bro (*Economi a Chymuned*)
- "Canlyniadau'n Cyfrif" (*Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden*)
- Cynlluniau Galluogi (*Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden*)
- Grantiau Cyngor Chwaraeon (*Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden*)
- Prosiect Tai Gwag nôl i ddefnydd (*Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden*)
- Taliadau Uniongyrchol (*Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden*)
- Dilyniant - Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth (*Gofal Cwsmer*)
- Gweithiau Adenilladwy (*Priffyrdd a Bwrdeistrefol*)
- Tocynau Teithio Rhad - Taliadau i gwmnïau bysiau (*Rheoleiddio*)
- Hyfforddi Aelodau (*Strategol a Gwella*)

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Gorffennaf 2013 i 31 Awst 2013, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

YSGOLION UWCHRADD - DIOGELWCH GWYBODAETH Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod ysgolion uwchradd Gwynedd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a bod Penaethiaid, Athrawon, Staff Ategol a Llywodraethwyr yr Ysgolion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau parthed prosesu, cadw, diogelu a gwaredu gwybodaeth yn enwedig data personol sensitif.

Cwmpas yr Archwiliad

Dewiswyd sampl o 5 ysgol uwchradd yng Ngwynedd i'w harchwilio.

Ymwelwyd â'r ysgolion i gyfarfod y Penaethiaid i drafod gofynion y Ddeddf Diogelu Data ac i gwblhau profion, er mwyn datgan sicrwydd bod yr ysgolion yn cydymffurfio â'r Ddeddf.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd fod gan ysgolion uwchradd drefniadau digonol er mwyn sicrhau bod data personol/cyfrinachol yn cael eu cadw'n ddiogel ar safle'r ysgol gyda mynediad at y data yn gyfyngedig. Yn ogystal, gwelwyd fod cofrestriad cyfredol â'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer yr ysgolion.

Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd gan rhai o'r ysgolion yn y sampl polisiâu/dogfennau disgwylidig sy'n berthnasol i ddiogelwch gwybodaeth yn weithredol yn yr ysgol, ac nad oedd swyddogion Tîm Rheolaeth a Llywodraethwyr yr ysgolion wedi derbyn hyfforddiant sy'n berthnasol i ddiogelu data a rhyddid gwybodaeth.

Barn yr Archwiliad

(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Ysgolion Uwchradd - Diogelwch Gwybodaeth gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- Dylid sefydlu dogfen Diogelu Data a dogfen Canllawiau Cadw Cofnodion yn weithredol yn yr ysgolion uwchradd, gan ddefnyddio'r templedi a ddarparwyd gan yr Adran Addysg fel arweiniad.
- Dylid sefydlu Polisi Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn weithredol yn yr ysgolion uwchradd, gan ddefnyddio templedi a ddarparwyd gan yr Adran Addysg fel arweiniad.
- Dylid sefydlu Polisi Tynnu Lluniau yn weithredol yn yr ysgol, gan ddefnyddio templedi a ddarparwyd gan yr Adran Addysg fel arweiniad.
- Dylid symud ymlaen gyda trefniadau i ddarparu hyfforddiant Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth i Tîm Rheolaeth a Llywodraethwyr ysgolion uwchradd.
- Dylid darparu canllawiau i staff ysgolion uwchradd o sut y dylid trin gwybodaeth gyfrinachol sy'n cael ei drosglwyddo oddi ar safle'r ysgol.
- Dylid cynhyrchu datganiad a'i amlygu i staff ysgolion uwchradd mai eu cyfrifoldeb hwy yw sicrhau eu bod yn diogelu manylion cyfrinachol a throsglwyddwyd oddi ar safle'r ysgol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

YSGOLION UWCHRADD - RHEOLAETH GYLLIDEBOL Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau rheolaethau gyllidebol priodol yn bodoli yn ysgolion uwchradd Gwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Dewiswyd sampl o 4 ysgol uwchradd yng Ngwynedd i'w harchwilio ar gyfer yr archwiliad. Ymwelwyd â'r ysgolion i gynnal archwiliadau fod rheolaethau gyllidebol priodol yn bodoli yn yr ysgolion.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod rheolaeth gyllidebol gyffredinol dda yn y 4 ysgol yr ymwelwyd â hwy. Er hynny, gwelwyd fod achosion yn parhau i godi lle nad yw archebion swyddogol yn cael eu creu, neu yn cael eu creu ar ôl i'r anfonebau cael eu derbyn, oherwydd bod staff yr ysgolion yn archebu nwyddau/gwasanaethau heb hysbysu'r Rheolwyr/Swyddogion Gweinyddol. Gwelwyd nad yw'r cyfeirebau cyfrif yn y system FMS yn cyd fynd yn union â chyfriflyfr y Cyngor. Gwelwyd hefyd fod angen gwneud newidiadau i'r system FMS yn rhai o'r ysgolion i sicrhau nad oes gan gyn weithwyr fynediad i'r system yn ogystal â bod angen gwella'r rheolaeth dros reoli trwyddeddeiriau mynediad i'r system FMS.

Barn yr Archwiliad

(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol rheolaeth gyllidebol mewn Ysgolion Uwchradd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- **Dylid sicrhau fod cyfeiriad at gostau cynlluniau cyllideb yn cael eu gwneud yng Nghynllun Datblygu yr un ysgol nad yw'n gwneud hynny ar hyn o bryd.**
- **Dylid sicrhau, pan fo unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i'r gyllideb yn ystod y flwyddyn, fod y penawdau priodol yn cael eu diwygio yn y system FMS.**
- **Dylid sicrhau unwaith mae'r corff llywodraethol wedi mabwysiadu'r gyllideb am y flwyddyn fod y gyllideb yn cael ei rewi yn y system FMS gan ddefnyddio'r cyfleuster 'Fix'.**
- **Dylid sicrhau os gwneir unrhyw newidiadau i benawdau yn y system FMS gan yr ysgolion eu bod yn hysbysu Uned Gyllid y Cyngor yn syth fel eu bod yn gallu diwygio cyfriflyfr y Cyngor.**
- **Dylid sicrhau fod y canolfannau cost a chyfeirebau cyfrif yn y system FMS yn cael eu tacluso, fel eu bod yn cyd-fynd â'r rhai yng nghyfriflyfr y Cyngor. Dylid hefyd gwirio fod cyfeirebau cyfrif priodol yn bodoli ar gyfer gwahanol fathau o wariant.**

ASESIADAU RISG IECHYD A DIOGELWCH Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod Rheolwyr Gwasanaeth a Rheolwyr Safle yn ymwybodol o'u rôl wrth asesu risg iechyd a diogelwch a bod ganddynt gyfrifoldeb dros sicrhau bod risgiau wedi eu hadnabod a bod camau priodol wedi eu cymryd i'w lliniaru. Hefyd, sicrhau bod asesiadau risg addas a digonol wedi eu cynhyrchu ac yn weithredol. Nid oedd yr archwiliad yma yn cynnwys adolygiad o drefniadau mewn ysgolion fydd yn destun archwiliad ar wahân.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio asesiadau risg sampl o wasanaethau / sefydliadau gan sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu ac yn cynnwys elfennau perthnasol. Yn ogystal, gwirio bod swyddogion perthnasol wedi mynychu hyfforddiant i'w cynorthwyo i gwblhau asesiadau risg ac wedi cyfleu'r wybodaeth yn briodol i'r aelodau o staff perthnasol.

Cefndir

Yn ôl cyfraith iechyd a diogelwch mae gofynion penodol ar gyfer sefydliadau, sef:

- Darparu polisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig;
- Asesu risgiau i gyflogeion, cwsmeriaid, partneriaid ac unrhyw bobl eraill a all gael eu heffeithio gan eu gweithgareddau;
- Trefnu bod mesurau ataliol ac amddiffynnol yn cael eu cynllunio, eu trefnu, eu rheoli, eu monitro, a'u hadolygu'n effeithiol;
- Sicrhau y gallent gael cyngor cymwys ar iechyd a diogelwch;
- Ymgynghori â chyflogeion am y risgiau a wynebant yn y gwaith a mesurau ataliol ac amddiffynnol cyfredol.

Llofnodwyd Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch Cyffredinol y Cyngor gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr ym mis Mawrth 2010 yn cydnabod yr uchod gan nodi

“Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddatblygiad a gwelliant parhaus a'i nod yw cynllunio, trefnu rheoli, monitro ac adolygu mesurau iechyd a diogelwch er mwyn creu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.”

O ran trefniadaeth fewnol y Cyngor, **mae'r cyfrifoldeb o sicrhau bod asesiadau risg wedi eu cwblhau, eu cofnodi, eu hadolygu'n rheolaidd a bod unrhyw fesurau rheoli risg wedi eu gweithredu wedi ei ddirprwyo i'r Rheolwr Gwasanaeth.** Yn ogystal, mae ganddynt y cyfrifoldeb o sicrhau bod gweithwyr sydd o dan eu rheolaeth hwy yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau hwy ac i sicrhau eu bod yn gweithio o fewn y systemau gweithio diogel sydd wedi eu hadnabod. Mae'n hanfodol felly bod y Rheolwyr Gwasanaeth yn ymwybodol o'r gofynion yma ac wedi gweithredu arnynt.

Prif Ddarganfyddiadau

Edrychwyd ar sampl eang o wasanaethau ar gyfer yr archwiliad yma a gwelwyd bod amrediad eang o gydymffurfiaeth yn bodoli h.y. bod enghreifftiau o ymarfer da mewn rhai gwasanaethau a diffyg cydymffurfiaeth yn llwyr mewn un gwasanaeth.

Un o brif ddarganfyddiadau archwiliad yw nad oedd un rheolwr yn ymwybodol o'r gofyn a'r cyfrifoldeb dros iechyd, diogelwch a lles y gwasanaeth. Mae'n hanfodol fod pob Rheolwr yn sicrhau fod ganddynt y prosesau priodol mewn lle fel y gellid gwarchod aelodau o staff, y cyhoedd ac unrhyw un arall sy'n dod mewn cysylltiad â hwy yn eu gweithgareddau.

O'r gwasanaethau / safleoedd eraill, gwelwyd bod asesiadau risgiau yn bodoli yn ogystal â threfniant ym mhob un heblaw am un gwasanaeth i'w hadolygu'n amserol. O'r gwasanaethau/safleoedd a oedd wedi paratoi asesiadau risg, gwelwyd bod y mwyafrif ohonynt yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, dylid atgoffa'r rheolwyr o'r angen i sicrhau bod eu cynnwys yn cael ei gyfleu i'r aelodau o staff mewn modd lle gellid sicrhau eu bod wedi eu deall yn ddigonol i allu eu gweithredu'n effeithlon.

Barn yr Archwiliad

(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- **Dylai pob Rheolwr Gwasanaeth / Safle sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u gofynion fel Rheolwr drwy gwblhau asesiadau risg ar gyfer eu gwasanaeth / safle a sicrhau bod eu staff wedi eu darllen, deall ac yn cydymffurfio â hwy.**
- **Dylid sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n amserol h.y. unai'n flynyddol neu pan fo newid mewn risg.**
- **Dylid cyfleu'r wybodaeth sydd wedi ei gynnwys yn yr asesiad risg i'r aelodau o staff mewn modd lle gellid fod yn hyderus eu bod wedi deall y cynnwys a'r pwysigrwydd o weithredu'n unol â hwy.**
- **Dylid edrych i mewn i'r posibilrwydd o greu hyfforddiant am bwysigrwydd adnabod risg a'i liniaru.**
- **Dylid ceisio sicrhau bod pob elfen o'r gwaith yn cael ei gynnwys yn yr asesiadau risg gan gynnwys yr elfennau sydd ddim yn amlygu eu hunain yn syth e.e. symud a thrin, gweithio yn yr awyr agored.**
- **Dylid cynnwys yr elfen o risg i ymwelwyr ac aelodau o'r cyhoedd yng nghynnwys asesiadau risg.**
- **Dylid ystyried y risgiau i gontractwyr mewn asesiad risg.**
- **Dylid sicrhau bod asesiadau risg yn cyfeirio at ddulliau o liniaru'r risg o weithio'n unig a thrais.**
- **Dylid sicrhau bod y mesurau rheoli a gynhwysir yn yr asesiadau risg yn glir ac yn eglur fel nad oes unrhyw gamddealltwriaeth o'r gofynion.**

POLISI BUDDIANNAU SWYDDOGION Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod swyddogion y Cyngor yn ymlynu at y Polisi Buddiannau Staff a'r Côd Ymddygiad statudol sy'n rhan o gytundeb gwaith pob swyddog.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwiriwyd bod cofrestrau priodol yn bodoli ar gyfer cofnodi unrhyw fuddiant neu ddatganiad, bod pob swyddog dros bwynt cyflog sy'n gyfatebol â phwynt 44 neu uwch a phob swyddog perthnasol arall (e.e. swyddogion sydd yn gosod contractau) wedi cofrestru a bod y gofrestr ar gael yn gyhoeddus ar gais.

Prif Ddarganfyddiadau

Yn dilyn newid i'r Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a ddaeth yn weithredol o 12 Ionawr 2010 nid yw swyddi bellach yn cael eu cyfyngu ar sail eu cyflog. Yn hytrach mae dau gategori o swyddi yn cael eu cyfyngu yn wleidyddol sef swyddi penodol a swyddi sensitif. Felly mae angen ddiweddarau'r Polisi Buddiannau Swyddogion yn ogystal â'r cofrestrau. Dylid nodi bod y newidiadau gwleidyddol yma ddim yn effeithio ar yr angen i gofrestru buddiannau ac mae'r trothwy ar gyfer cofrestru gwirfoddol yn parhau i fod yn PO44.

Mae'r gyfraith yn datgan y dylid cadw cofrestr o'r swyddi 'sensitif' ond roedd yn amlwg bod y rhestr gyfredol o'r swyddi 'sensitif' angen ei ddiweddarau oherwydd nid yw sawl swydd yn bodoli o fewn y Cyngor mwyach. Cytuna'r Rheolwr Cydymffurfiaeth ac laith y buasai yn ddefnyddiol i gadw rhestr o'r swyddi penodol hefyd.

Nid oedd cymal penodol wedi ei gynnwys yng nghytundebau gwaith/swydd ddisgrifiadau'r swyddogion â swyddi cyfyngedig gwleidyddol.

Barn yr Archwiliad

(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn y Polisi Buddiannau Swyddogion gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- **Dylid ail ymweld â'r polisi a'i ddiweddarau i gyd-fynd â'r newid yn y Ddeddfwriaeth.**
- **Dylid sicrhau nad yw'r cyhoedd yn cael mynediad i'r gofrestr ar gyfer swyddogion o dan PO44 h.y. y gofrestr wirfoddol.**
- **Dylid sicrhau bod cymal penodol yn cael ei gynnwys yn swydd ddisgrifiadau/cytundebau swydd swyddogion sydd â chyfyngiadau gwleidyddol.**

RHODDION A LLETYGARWCH AELODAU Democratiaeth a Chyfreithiol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod aelodau yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad y Cyngor drwy gofrestru unrhyw rodd neu letygarwch sydd â gwerth dros £25, neu gyfres o roddion sydd yn cyrraedd y trothwy hwn, os derbynnir y rhoddion/lletygarwch ai peidio, ac bod trefniadau mewnol priodol yn bodoli dros gynnal a diweddarau'r gofrestr.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio'r gofrestr rhoddion a lletygarwch a sicrhau bod aelodau'n hysbysu'r Swyddog Monitro o unrhyw rodd neu letygarwch a dderbynnir neu a wrthodir sydd dros y trothwy o £25 er sicrhau fod egwyddorion sylfaenol y protocol a'r Cod Ymddygiad yn cael eu gweithredu yn unol â'r gofynion.

Prif Ddarganfyddiadau

Yn dilyn cyflwyniad y Côt Ymddygiad Aelodau yn 2008 a chanllawiau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 2012 roedd angen adolygu'r protocol a'i ddiweddarau. Mabwysiadwyd y Protocol Rhoddion a Lletygarwch Aelodau diwygiedig yn y Cyngor Llawn ym mis Mai 2013.

Ail-luniwyd y protocol a chytunwyd y byddai'r trothwy o gofrestru rhodd neu letygarwch yn parhau i fod yn £25 a bod angen ei gofrestru hyd yn oed os ydynt yn ei wrthod gan gofnodi hyn. Cyflwynwyd yr angen i gofrestru o fewn 28 diwrnod o dderbyn y cais/rhodd. Yn ogystal bydd adroddiad blynyddol ar gynnwys y gofrestr yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau fel rhan o'i waith monitro safonau o fewn y Cyngor.

O ganlyniad i'r etholiad ym Mai 2012 cafwyd diwrnod anwytho ar gyfer holl Aelodau'r Cyngor. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys cyflwyniad i'r Côt Ymddygiad sydd yn cyfeirio at gofrestru rhoddion a lletygarwch.

Nid oes ffurflen 'Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch Aelodau' ar gael ar y fewnrwyd nac ar safle we'r Cyngor.

Nid oedd modd cael sicrwydd bod pob Aelod yn cyflwyno datganiadau oherwydd natur y cofrestru. Dim ond un Aelod oedd yn cofrestru rhodd neu letygarwch yn rheolaidd, gydag Aelodau eraill yn datgan yn achlysurol. Er hyn efallai bod gan yr Aelodau eraill ddim rheswm i gofrestru rhodd neu fuddiant gan eu bod heb dderbyn unrhyw gynigion.

Barn yr Archwiliad

(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn Rhoddion a Lletygarwch Aelodau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- **Dylid diweddarau'r Mewnrwyd a'r Cyfansoddiad sydd ar y wefan i sicrhau bod y protocol cyfredol yn cael ei gynnwys.**
- **Dylid sicrhau bod y ffurflen 'Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch Aelodau' yn cael ei gynnwys ar wefan y Cyngor yn ogystal â'r Mewnrwyd.**
- **Dylid ystyried cynnig cwrs adfywio ar y Protocol Rhoddion a Lletygarwch ar gyfer y Cynghorwyr.**

TRWYDDEDAU MEDDALWEDD (CORFFORAETHOL) Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd asesu pa weithrediad sydd wedi ei gynllunio ar gyfer y dasg o sefydlu rhestr asedau meddalwedd, sicrhau fod ystyriaethau priodol wedi eu rhoi i gasglu'r holl ddata perthnasol, bod asesiadau addas o'r risgiau masnachol a bod camau priodol wedi eu cynllunio i sicrhau y bydd y rhestr yn cael ei chadw'n gyfredol a chywir a hynny mewn modd ymarferol.

Cwmpas yr Archwiliad

Trafodwyd y cynlluniau arfaethedig gyda'r Uwch Reolwr - TG a Thrawsnewid Busnes a'r Arweinydd Tîm Rheolwyr Cyfrif (TG). Nid oedd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r trefniadau o fewn ysgolion, sydd yn destun archwiliad ar wahân.

Prif Ddarganfyddiadau

Ar adeg yr archwiliad yma, nid oedd camau cadarnhaol wedi eu cymryd yn dilyn y penderfyniad i sefydlu rhestr gorfforaethol o asedau a thrwyddedau meddalwedd y Cyngor, ond gwelwyd fod trafodaethau wedi eu cynnal er mwyn cynllunio'r camau cychwynnol. O'r hyn y mae'r archwiliwr wedi ei drafod gyda chynrychiolwyr y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, mae'r gwaith cynllunio hyd yma yn rhesymol ac fe all yr archwiliwr roi sicrwydd am y broses yn seiliedig ar yr agweddau canlynol yn cael eu gwireddu:

- Bod y cyfrifoldeb am reoli cefnogaeth a thrwyddedau holl systemau'r Cyngor wedi ei ganoli i swyddog/uned penodol.
- Bod sicrwydd am yr arbenigedd ar gyfer didoli'r wybodaeth fydd yn cael ei gasglu fel ei fod yn cael ei gofnodi, a'i addasu pan yn berthnasol, mewn modd priodol.
- Bod yr holl systemau allweddol a'r meddalwedd cefnogol o leiaf yn cael eu cynnwys yn y broses casglu cychwynnol, gyda'r gweddill yn dilyn hynny.
- Bod amserlen yn cael ei phennu ar gyfer cwblhau camau penodol ar gyfer y broses o sefydlu'r rhestr asedau meddalwedd a thrwyddedau.
- Bod prosesau rheoli newid yn cael eu ffurfioli i gynnwys cyfeiriad at y rhestr meddalwedd ar gyfer unrhyw newid fyddai yn gallu effeithio cydymffurfriad y Cyngor gyda chytundeb trwydded, a bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y rhestr asedau meddalwedd.
- Bod prosesau adolygu cyfnodol o'r cofnodion fydd o fewn y rhestr.

Barn yr Archwiliad

(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn y cynlluniau ar gyfer rheoli trwyddedau meddalwedd corfforaethol, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- **Dylid gweithredu ar y cynlluniau i ganoli'r cyfrifoldeb dros gaffael cefnogaeth i holl systemau'r Cyngor.**
- **Dylid sicrhau fod yr arbenigedd mewn lle ar gyfer didoli'r wybodaeth fydd yn cael ei gasglu ar gyfer sefydlu'r rhestr asedau meddalwedd gan y byddai diffygion yn y maes yma yn tanseilio'r ymarferiad.**
- **Dylid sefydlu amserlen briodol ar gyfer cyflawni tasgau'r ymarferiad o sefydlu rhestr asedau meddalwedd.**
- **Dylid ffurfioli'r prosesau rheoli newid i gynnwys cyfeiriad at y rhestr meddalwedd ar gyfer unrhyw newid fyddai yn gallu effeithio cydymffurfriad y Cyngor gyda chytundeb trwydded, a bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu hadlewyrchu yn gywir yn y rhestr asedau meddalwedd.**

TRWYDDEDAU MEDDALWEDD (YSGOLION) Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod gan ysgolion Gwynedd reolaeth briodol dros drwyddedau meddalwedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Cynhaliwyd yr adolygiad yma drwy ohebu gyda swyddogion o'r Adran Addysg a Cynnal ynghyd â chasglu gwybodaeth gan yr ysgolion ar ffurf holiadur. Noder allan o'r 119 ysgol yn y Sir, derbyniwyd ymateb gan 25 ysgol (21%). Ni gynhaliwyd archwiliad o gynnwys cyfrifiaduron na chofnodion trwyddedau meddalwedd unrhyw ysgol fel rhan o'r gwaith yma.

Prif Ddarganfyddiadau

Rhaid bod yn wylidwrus wrth fynegi barn cyffredinol ar sefyllfa ysgolion oherwydd bod y canran o ymatebion i'r holiadur a anfonwyd i'r ysgolion mor isel. Fodd bynnag mae'r amrywiad yn nghynnwys yr atebion yn amlygu'r amrywiad sydd yn sefyllfaoedd yr ysgolion yn y maes yma.

Mae templedi o bolisiau rheoli meddalwedd wedi eu cynhyrchu gan yr Adran Addysg a wedi eu mabwysiadu gan rai ysgolion. Mae rhai ysgolion eraill wedi datblygu eu polisiau eu hunain yn seiliedig ar ymarfer da. Ymddengys y buasai'n briodol ailgyflwyno'r templed i'r ysgolion gyda'r amcan o gael polisi rheoli meddalwedd ffurfiol ym mhob ysgol.

Mae sgôp i gyflwyno ffurf i ysgolion adnabod cynnwys eu cyfrifiaduron fel bod modd iddynt gysoni gyda'r cytundebau defnydd mewn lle. Ar adeg yr archwiliad, mae adnodd sydd yn cynnig datrysiaid yn y maes yma yn cael ei dreialu.

Yn ystod trafodaethau mewn perthynas â'r gwaith yma, gwelwyd yr opsiynau amrywiol sydd yn cael eu cynnig gan wneuthurwyr meddalwedd ar gyfer sefydlu cytundeb defnydd gydag ysgolion. Ar adeg yr archwiliad, deallir fod un gwneuthurwr sylweddol wedi cyflwyno cynllun trwyddedu newydd sydd â photensial i roi ysgolion mewn sefyllfa o anghydymffurfiad â deddfwriaeth hawlfraint yn sgîl y dull y mae rhai eitemau o feddalwedd sydd eisoes wedi ei archebu ac wedi ei osod ar galedwedd. Deallir fod ysgolion yn wynebu sefyllfa o golled ariannol yn sgîl ail-archebu meddalwedd ond mae angen mantoli hynny yn erbyn y gost amcangyfrifedig y ddirwy am dorri cytundebau defnydd.

Barn yr Archwiliad

(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn y cynlluniau ar gyfer rheoli trwyddedau meddalwedd mewn ysgolion gan fod gwallau ble gellir tynhau'r trefniadau; ni ddatgelwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- Dylid hybu polisiau rheoli meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd o fewn ysgolion drwy dynnu sylw tuag at yr esiamplau o bolisiau sydd eisoes wedi eu cynhyrchu.
- Dylid adnabod yr ysgolion sydd â mesurau mewn lle ar gyfer rheoli meddalwedd a thrwyddedau a chasglu gwybodaeth ar gyfer eu gweithdrefnau a'u rhannu gydag ysgolion eraill er mwyn codi'r lefel o reolaeth ar draws yr holl ysgolion.
- Dylid hyrwyddo pecynnau archwilio cynnwys cyfrifiaduron ysgolion o safbwynt meddalwedd fel bod modd seilio ymarferiad sicrhau cydymffurfiaeth â chytundebau trwyddedau defnydd ar ddata cywir.

EIDDO'R CYNGOR - OFFER YMLADD TÂN

Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yma oedd sicrhau bod offer ymladd tân prif adeiladau'r Cyngor yn cael eu gwasanaethu yn unol â'r disgwyl a bod trefniant caffael priodol yn bodoli yn y broses o benodi contractwr i gwblhau'r gwaith o wasanaethu'r offer.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio dogfennaeth berthnasol i sicrhau bod yr offer ymladd tân yn cael eu gwasanaethu. Yn ogystal, gwirio tystiolaeth ar gyfer y drefn caffael a ddefnyddiwyd.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod yr offer ymladd tân yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol yn unol â'r gofyn gan berson cymwys. Fodd bynnag, ni welwyd bod cofnod o hyn yn cael ei gofnodi bob amser yn y Llyfr Log Tân, na chofnod o'r profion gweledol wythnosol gan aelod o staff.

Mae ychydig o wendidau wrth brosesu'r anfonebau ar gyfer gwaith cynnal sydd y tu allan i'r cytundeb gwasanaethu, gan gynnwys achlysuron lle mae yr un swyddog wedi cwblhau'r gwiriadau ac wedi ardystio'r anfoneb ac achlysur arall lle nad oedd swyddog wedi llofnodi'r blychau ar y slip codio i gadarnhau bod y gwiriadau wedi eu gwneud.

Barn yr Archwiliad

(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn Eiddo'r Cyngor - Offer Ymladd Tân gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- **Dylid sicrhau bod profion gweledol wythnosol yn cael eu cynnal ar y diffoddwyr tân a bod cofnod i gadarnhau hynny yn y Llyfr Log Tân.**
- **Dylid gofyn i'r contractwyr gofnodi yn y Llyfr Log Tân eu bod wedi profi'r diffoddwyr tân.**
- **Dylid sicrhau bod profion gweledol yn cael eu cynnal yn wythnosol ar y pibellau dŵr a bod cofnod o hynny yn y Llyfr Log Tân.**
- **Dylid gofyn i gontractwr gofnodi yn y Llyfr Log Tân pan fyddent wedi cwblhau gwaith gwasanaethu ar y pibellau dŵr.**
- **Dylid sicrhau bod y gwiriadau cywir yn cael eu cynnal wrth brosesu anfonebau h.y. bod gwahaniad dyletswyddau yn y drefn o brosesu anfonebau sef bod swyddog(ion) yn cynnal y gwiriadau perthnasol cyn derbyn ardystiad gan swyddog awdurdodedig a chadarnhau bod y côd gwariant cywir yn cael ei gofnodi i osgoi unrhyw ystumiad yn y cyfrifon.**

COSTAU TEITHIO GWEITHWYR CEFNOGOL **Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw adolygu'r mesurau a threfniadau sydd mewn lle mewn perthynas â cheisiadau gan Weithwyr Cefnogol, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden am ad-daliad o gostau teithio, gan sicrhau fod y teithiau a wneir yn fuddiannol ac yn cyfateb ag anghenion y defnyddwyr gwasanaeth.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygu sampl o geisiadau costau teithio Gweithwyr Cefnogol o fewn gwasanaethau DERWEN - Tîm Integredig Plant Anabl, y Tîm Anabledd Dysgu a'r Tîm Iechyd Meddwl er mwyn sicrhau fod ceisiadau am gostau teithio yn cael eu cwblhau a'u prosesu yn gywir, gan gysoni gyda system costau teithio Puma a system gyflogau Cyborg. Gwirio fod y Gweithwyr Cefnogol yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser gyda'r defnyddwyr gwasanaeth.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelir bod enghreifftiau o ymarfer da oddi fewn rheolaeth costau teithio Gweithwyr Cefnogol. Gwelwyd fod gwahaniaethau yn y modd caiff costau teithio eu rheoli ar draws y 3 gwasanaeth, gydag uchafswm milltiredd wedi ei bennu er mwyn sicrhau rheolaeth ar y gyllideb. Bydd Gweithwyr Cefnogol Tîm DERWEN ac Anabledd Dysgu yn cyflwyno ceisiadau costau teithio yn wythnosol. Ceisiadau misol caiff eu cyflwyno gan Weithwyr Cefnogol Iechyd Meddwl. Mae'n ofyniad yn rhai o'r gwasanaethau hyn i gwblhau Adroddiadau Sesiwn yn dilyn sesiynau gyda'r Defnyddwyr Gwasanaeth. Gwelwyd fod cynlluniau gofal yn amlinellu'r gefnogaeth mae'r Defnyddiwr Gwasanaeth ei angen gan y Gweithwyr Cefnogol. Cadarnhawyd fod trefniadau mewn lle i'r Rheolwyr Llinell oruchwylio'r Gweithwyr Cefnogol yn rheolaidd. Gwelwyd bod rheolaethau cadarn mewn lle er mwyn gwirio'r ffurflenni cais am gostau teithio. Fodd bynnag wrth wirio'r ffurflenni gwelwyd fod gwallau wedi ymddangos yn y modd caiff rhai ffurflenni eu cwblhau.

Barn yr Archwiliad

(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Costau Teithio Gweithwyr Cefnogol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- **Dylai Gweithwyr Cefnogol hysbysu eu Rheolwyr pan fydd eu manylion yn newid, a dylid sicrhau fod y manylion yn cael ei basio ymlaen i'r sawl sydd yn gyfrifol am fewnbynnu ceisiadau i'r system gostau teithio er mwyn sicrhau fod eu manylion yn gyfredol yn y system PUMA.**
- **Dylai Rheolwyr Llinell sicrhau fod y ffurflenni cais am gostau teithio wedi eu cwblhau yn gyflawn a chywir wrth iddynt archwilio'r ceisiadau.**
- **Dylid cymryd gofal wrth wirio ffurflenni cais am gostau teithio er mwyn sicrhau fod y nifer milltiroedd hawlir ar gyfer teithiau unigol yn rhesymol a bod y cyfanswm milltiredd y mis wedi ei gyfrifo yn gywir. Os yw'r wybodaeth yn aneglur ar unrhyw gais dylid cael clirdeb cyn prosesu'r cais am daliad.**

Y GWASANAETH CYNLLUNIO Rheoleiddio

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw adolygu rheolaethau mewnol sydd yn bodoli ar gyfer gwasanaeth Rheolaeth Datblygu a Gorfodaeth gan roi pwyslais penodol ar yr elfen gofal cwsmer o'r Gwasanaeth Cynllunio er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnig y gwasanaeth gorau i'r cwsmer.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio'r trefniadau o fewn y Gwasanaethau Cynllunio, Canolfan Gyswllt Galw Gwynedd a Siop Gwynedd er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau priodol mewn ar gyfer derbyn a phrosesu ceisiadau cynllunio yn amserol, ymdrin â chwynion gorfodaeth ac ymholiadau cynllunio.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 26 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 18 o'r rheolaethau hyn. Y prif wendidau a welwyd yn ystod yr archwiliad oedd bod rhaid i Gwasanaeth Cynllunio a'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer ddiffinio yn union y math o alwadau fyddai'r Ganolfan Gyswllt a Siop Gwynedd yn delio â hwy drwy sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth newydd. Nid yw rhai adroddiadau sydd ar gael o fewn y system SEIBEL yn cael eu cynhyrchu a'u defnyddio i'w llawn potensial er mwyn monitro'r ymholiadau/galwadau sy'n cael eu derbyn gan Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer.

Barn yr Archwiliad

(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Y Gwasanaeth Cynllunio gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- **Dylai Rheolwr y Ganolfan Gyswllt sicrhau fod y Gwasanaeth Cynllunio yn derbyn adroddiad “Nifer ymholiadau wedi'i derbyn fesul proses” yn fisol.**
- **Dylai'r Gwasanaeth Cynllunio ddefnyddio'r adroddiad misol a dderbynnir i amlygu a thynnu sylw Rheolwr y Ganolfan Gyswllt at y math o ymholiadau sydd wedi eu pasio i'r Gwasanaeth Cynllunio yn ddiangen neu mewn camgymeriad.**
- **Dylai'r Rheolwr y Ganolfan Gyswllt ddefnyddio'r adroddiad “Nifer ymholiadau wedi'i derbyn fesul proses” i adolygu'r math o alwadau mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer yn eu cyfeirio at y Gwasanaeth Cynllunio er mwyn amlygu unrhyw wendid a galwadau sydd yn cael eu trosglwyddo yn ddiangen ac i drefnu sesiynau hyfforddiant ar gyfer staff Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer fel bo'r angen.**
- **Dylid ymdrechu i glirio'r ymholiadau sy'n parhau yn agored yn system SEIBEL**
- **Dylai'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a'r Gwasanaeth Cynllunio lunio a diffinio yn union y math o alwadau fyddai'r Ganolfan Gyswllt a Siop Gwynedd yn delio â hwy, a'r pwynt lle bydd galwadau yn cael eu trosglwyddo i'r Gwasanaeth Cynllunio, drwy sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth newydd.**

CYNGOR GWYNEDD

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO
DYDDIAD	26 MEDI 2013
TEITL	CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2013/14
PWRPAS YR ADRODDIAD	DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2013/14
AWDUR	DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG
GWEITHREDIAD	ER GWYBODAETH

I. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2013/14.

2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae cynllun archwilio mewnol 2013/14 wedi ei gynnwys yn yr atodiad, gyda statws y gwaith ar 30 Awst 2013 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

Statws yr Archwiliad	Nifer
Wedi ei gynllunio	56
Crëwyd Papurau Gwaith	4
Gwaith Maes ar y gweill	20
Disgwyl Adolygiad	2
Adroddiad Drafft	2
Adroddiad Terfynol	23
Cyfanswm	<u>107</u>

2.2 Targed perfformiad 2013/14 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2014. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

Diwedd chwarter 1	15%
Diwedd chwarter 2	35%
Diwedd chwarter 3	60%
Diwedd chwarter 4	95%

2.3 Gwelir o'r tabl uchod fod gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at ddiwedd Awst oedd **21.5%** - allan o'r **107** archwiliad unigol yng nghynllun 2013/14 roedd **23** wedi eu rhyddhau yn derfynol.

2.4 Er y bydd rhai adroddiad pellach wedi eu rhyddhau yn ystod mis Medi, nid oes disgwyl y bydd 15 archwiliad wedi ei ryddhau er mwyn cwrdd â'r targed chwarterol o gwblhau 38 allan o 107, sef 35%. Disgwylir y bydd y perfformiad felly yn parhau'n is na'r proffil a osodwyd, ond mae opsiynau wedi eu hystyried o fewn y gwasanaeth er mwyn adfer y sefyllfa erbyn diwedd y flwyddyn.

3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

3.1 Nid oes addasiadau pellach i'r cynllun i adrodd arnynt.

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2013/14, cynnig sylwadau arno a derbyn yr adroddiad.

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
CORFFORAETHOL						
1-CORFF-09/2014hyff	Trefniadau eithrio o'r gyfundrefn hyfforddi gorfforaethol	15.00	0.00	15.00	6.31	Wedi ei gynllunio
1-CORFF-09/2014sys	Cefnogi Adolygiadau "Systems Thinking"	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
1-CORFF-14/2014	Asesiadau Risg Iechyd a Diogelwch	25.00	0.00	25.00	25.12	Adroddiad Terfynol
1-CORFF-15/2014gi	Prosiect Strategol Gwella Iechyd	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio
1-CORFF-17/2014	Gweithio mewn Partneriaethau	35.00	0.00	35.00	16.39	Gwaith Maes ar y gweill
1-CPGV-01/2014a	Y Drefn Gwynion Corfforaethol	15.00	0.00	15.00	16.50	Adroddiad Drafft
1-CPGV-01/2014ags	Cyfrannu at baratoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol	15.00	0.00	15.00	9.43	Adroddiad Terfynol
1-CPGV-01/2014b	Côd Llywodraethu Lleol	10.00	0.00	10.00	1.03	Wedi ei gynllunio
1-CPGV-01/2014c	Llywodraethu Corfforaethol - Trefniadau Dirprwyo	20.00	0.00	20.00	0.95	Wedi ei gynllunio
1-CPGV-01/2014d	Polisi Buddiannau Swyddogion	10.00	0.00	10.00	11.09	Adroddiad Terfynol
1-CPGV-02/2014	Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol	40.00	0.00	40.00	5.18	Wedi ei gynllunio
2-ADN-CGC-DPA/2014	Diogelu Data - Cymalau mewn Swydd Ddisgrifiadau	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
AN-ACY-03/2014	Rheolaeth Gyllidebol	25.00	0.00	25.00	20.03	Gwaith Maes ar y gweill
AO-ARL-05/2014	NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol)	30.00	0.00	30.00	10.36	Gwaith Maes ar y gweill
BE-POL-07/2014	Gwirio Mesuryddion Perfformiad	25.00	0.00	25.00	15.62	Gwaith Maes ar y gweill
ADDYSG						
Adnoddau						
4-DAT-X-ADD/2014bao	Grant Blas am Oes	0.00	5.00	5.00	6.50	Gwaith Maes ar y gweill
4-DAT-X-ADD/2014brec	Grant y Fenter Brechwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd	7.00	0.00	7.00	7.21	Adroddiad Terfynol
4-DAT-X-ADD/2014ffe	Grant Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion	7.00	0.00	7.00		Wedi ei gynllunio
4-DAT-X-ADD/2014ffg	Grant Gofal Plant Tu Allan i Ysgol	10.00	0.00	10.00	7.30	Gwaith Maes ar y gweill
4-DAT-X-ADD/2014gap	Grant Amddifadedd Disgyblion	10.00	0.00	10.00	4.21	Gwaith Maes ar y gweill
4-DAT-X-ADD/2014ks23	Grant Refeniw 2012-13 y Cyfnod Sylfaen	5.00	0.00	5.00	6.43	Adroddiad Terfynol
4-DAT-X-ELWa/2014	Grant Addysg ôl-16	1.00	0.00	1.00		Wedi ei gynllunio
EADDA29/2014	Asesiadau Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
EADDU01/2014	Gweinyddu Grantiau a Benthyciadau Myfyrwyr	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
GwE						
4-GWE/2014	GwE	25.00	0.00	25.00		Wedi ei gynllunio
Ysgolion						
EADDA15/2014	Ystadegau a Chyfrifiadau Ysgolion	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
EADDA35/2014	Trefniadau Lesu Mewn Ysgolion	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
EADDAYC/2014a	Ysgolion Uwchradd - Rheolaeth Gyllidebol	20.00	0.00	20.00	22.72	Adroddiad Terfynol
EADDAYC/2014b	Ysgolion Uwchradd - Diogelwch Gwybodaeth	20.00	0.00	20.00	25.53	Adroddiad Terfynol
EADDAYC/2014c	Ysgolion Cynradd - Lwfansau Athrawon ac Amodau Gwaith Penaethiaid	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio
ADNODDAU DYNOL						
Hyfforddiant						
BE-POL-01/2014	Defnydd o Cetus - CALMS	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
CYLLID						
Ariannol						
AD-DY-01/2014kc	System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol	10.00	0.00	10.00	13.24	Adroddiad Terfynol
AE-TAL-01/2014e	System eGaffael	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio
AE-TAL-01/2014kc	System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
Cyfrifeg						
AN-ACY-02/2014kc	Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol	10.00	0.00	10.00	8.91	Adroddiad Terfynol
AN-ACY-13/2014kc	Cysoni Banc - Adolygiad o Reolaethau Allweddol	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
Pensiynau a Chyflogau						
AL-CYF-01/2014kc	System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
AL-CYF-01/2014ma	Cyflogau - Tâl Mamolaeth	10.00	0.00	10.00	8.09	Gwaith Maes ar y gweill
AL-CYF-01/2014ot	Cyflogau - Goramser	10.00	0.00	10.00	1.43	Wedi ei gynllunio
AL-CYF-05/2014bl	Cyflogau - Blaendaliadau	6.00	0.00	6.00	5.04	Gwaith Maes ar y gweill
AP-PEN-01/2014kc	Cronfa Bensiwn Gwynedd - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
AP-PEN-07/2014	Pensiynau - Cyfraniadau gan gyflogwyr	25.00	0.00	25.00		Wedi ei gynllunio
Refeniw						
AB-BD-01/2014	Gwiriadau Budd-dal ar Sail Risg	20.00	0.00	20.00	11.49	Gwaith Maes ar y gweill
AB-BD-01/2014kc	System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
AB-BD-08/2014	Grant Gwisg Ysgol	10.00	0.00	10.00	10.41	Gwaith Maes ar y gweill
AC-TR-01/2014dis	Treth Cyngor - Gostyngiadau ac Eithriadau	20.00	0.00	20.00	4.11	Crewyd Papurau Gwaith
AC-TR-01/2014kc	System Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
AC-TR-11/2014	Ad-daliadau Treth Di-Annedd	10.00	0.00	10.00	7.90	Adroddiad Terfynol
AC-TR-11/2014kc	System Treth Di-Annedd - Adolygiad o Reolaethau Allweddol	10.00	0.00	10.00	7.50	Adroddiad Terfynol
DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL						
Cofrestru						
BB-YSG-17/2014	Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio
Swyddog Monitro						
1-CPGV-03/2014	Rhoddion a Lletygarwch Aelodau	20.00	0.00	20.00	16.37	Adroddiad Terfynol
ECONOMI A CHYMUNED						
Adfywio Cymunedol						
BE-POL-10/2014bro	Swyddogion Adfywio Bro	10.00	0.00	10.00	3.03	Gwaith Maes ar y gweill
T-TAI-C04/2014est	Cymunedau'n Gyntaf - Estyniad i'r Hen Gynllun	10.00	0.00	10.00	9.58	Adroddiad Terfynol
Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau						
EDIW-TS-01/2014	Neuadd Buddug, Y Bala	4.00	0.00	4.00	4.26	Adroddiad Terfynol
Morwrol a Pharciau Gwledig						
EHAMM-02/2014	Porthladdoedd	20.00	0.00	20.00	16.14	Gwaith Maes ar y gweill
EHAMZ-01/2014	Parciau Gwledig	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
Prosiectau Sylweddol						
1-CTRT-04/2014a	Rheoli Contractau - Academi Hwyllo	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
DDAT-AH-01/2014	Trefniadau Sefydlu yr Academi Hwyllo	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
Strategaeth a Datblygu						
4-DAT-X-GRANT/2014r	Grantiau Gwasanaeth Ieuenctid - Grant Refeniw a Hyfforddiant	5.00	0.00	5.00	5.05	Adroddiad Terfynol
DDAT-AD-05/2014	Prosiectau Cynllun Datblygu Gwledig Cymru	12.00	0.00	12.00		Wedi ei gynllunio
Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer						
DDAT-MT-01/2014	Prosiect "Ein Treftadaeth"	22.00	0.00	22.00		Wedi ei gynllunio
DDAT-MT-02/2014cc	Canolfannau Croeso	15.00	0.00	15.00	20.62	Disgwyf Adolygiad

GOFAL CWSMER

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
Cynllunio Argyfwng						
BC-PER-01/2014	Cynllunio Argyfwng a Pharhad Busnes	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
Cyswilt Cwsmer						
BD-PW-08/2014	Siopau Gwynedd	10.00	0.00	10.00	12.14	Adroddiad Terfynol
Llyfrgelloedd						
EDIW-LL-07/2014	Gwynedd Ni	10.00	0.00	10.00	3.47	Crewyd Papurau Gwaith
Technoleg Gwybodaeth						
AW-TG-06/2014	Logio a Monitro	8.00	0.00	8.00	0.99	Wedi ei gynllunio
AW-TG-09/2014	Cydygyfeiriant Rhwydwaith	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio
AW-TG-12/2014	Diogelwch Glinfyrddau	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
AW-TG-17/2014cor	Trwyddedau Meddalwedd (Corfforaethol)	15.00	0.00	15.00	8.45	Adroddiad Terfynol
AW-TG-17/2014ysg	Trwyddedau Meddalwedd (Ysgolion)	15.00	0.00	15.00	10.08	Adroddiad Terfynol
Tir ac Eiddo'r Cyngor						
BA-EID-02/2014	Cynllun Rheoli Asedau	30.00	0.00	30.00		Wedi ei gynllunio
BA-EID-02/2014off	Eiddo'r Cyngor - Offer Ymladd Tân	10.00	0.00	10.00	9.89	Adroddiad Terfynol
GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN						
Ar draws yr adran						
GCC-03/2014	Trydydd Sector - Grantiau, Comisiynu a Chontractau	25.00	0.00	25.00		Wedi ei gynllunio
GDAPR-GC05/2014	Costau Teithio Gweithwyr Cefnogol	15.00	0.00	15.00	28.61	Adroddiad Terfynol
GRH-GW01/2014ff	Gwasanaethau Cymdeithasol - Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio
GRH-GW01/2014rba	"Canlyniadau'n Cyfrif"	7.00	0.00	7.00	3.92	Gwaith Maes ar y gweill
Busnes						
5-GOF-BUS/2014hub	Prosiect Cydweithio Rhanbarthol – Canolbwynt Comisiynu Gofal	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio
Cefnogi Pobl						
GDAPR-SP01/2014	Cefnogi Pobl	20.00	0.00	20.00	19.63	Adroddiad Terfynol
Digartrefedd a Thai Cefnogol						
T-TAI-D01/2014les	Cynllun Lesu Tai Sector Breifat	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
Hamdden						
E-DGO-01/2014	Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden	20.00	0.00	20.00	24.97	Adroddiad Terfynol

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
EHAMV-01/2014	Grantiau Cyngor Chwaraeon	15.00	0.00	15.00	7.87	Gwaith Maes ar y gweill
Oedolion						
GCC-07/2014	Taliadau Uniongyrchol	15.00	0.00	15.00	12.99	Gwaith Maes ar y gweill
GGWAS-H07/2014tel	Teleofal	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio
GGWAS-OED1/2014gal	Cynlluniau Galluogi	20.00	0.00	20.00	13.38	Gwaith Maes ar y gweill
Plant a Theuluoedd						
GGWAS-P02/2014	Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
GGWAS-P05/2014lwf	Plant - Lwfansau Ôl-ofal	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
Tai Sector Breifat						
T-TAI-G06/2014	Pobl Hŷn - Anabl - Addasiadau i Gartrefi	20.00	0.00	20.00	7.90	Gwaith Maes ar y gweill
T-TAI-G10/2014	Prosiect Tai Gwag nôl i ddefnydd	12.00	0.00	12.00	7.47	Gwaith Maes ar y gweill
PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL						
Fflyd						
PPR-GW03/2014	Rheolaeth Fflyd - Cytundeb Cydrannau NWPP	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
Gwaith Priffyrdd						
PPR-WK01/2014	Gweithiau Adenilladwy	20.00	0.00	20.00	5.33	Crewyd Papurau Gwaith
Rheoli Gwastraff a Strydoedd						
3-AMG-GORF/2014gang	Gangiau Cymunedol	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
PBW-05/2014	Gwastraff Masnachol	30.00	0.00	30.00	4.47	Crewyd Papurau Gwaith
RHEOLEIDDIO						
Amgylchedd						
DDAT-CC-01/2014txi	Taliadau i Gwmnioedd Tacsï	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio
Cynllunio						
DCYN-RD-01/2014cyn	Y Gwasanaeth Cynllunio	25.00	0.00	25.00	38.46	Adroddiad Terfynol
DCYN-RD-01/2014gor	Rheolaeth Datblygu - Gorfodaeth	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
Gwarchod y Cyhoedd						
T-YC-IA01/2014	Safonau Masnach	20.00	0.00	20.00	1.02	Wedi ei gynllunio
Trafnidiaeth a Gofal Stryd						
3-RHE-01/2014	Gorfodaeth a Thrafnidiaeth	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
DDAT-CC-01/2014	Tocynau Teithio Rhad - Taliadau i gwmnïau bysiau	25.00	0.00	25.00	21.79	Disgwyf Adolygiad
STRATEGOL A GWELLA						
Caffael ac Effeithlonrwydd						
BE-POL-08/2014	Strategaeth Caffael	40.00	0.00	40.00	0.96	Wedi ei gynllunio
Cyfeiriad Strategol						
BE-POL-11/2014	Cronfa SMAP	15.00	0.00	15.00	1.92	Wedi ei gynllunio
BE-POL-13/2014	Diogelwch Cymunedol	15.00	0.00	15.00	1.54	Wedi ei gynllunio
Democratiaeth						
BB-YSG-18/2014	Hyfforddi Aelodau	20.00	0.00	20.00	7.14	Gwaith Maes ar y gweill
BB-YSG-19/2014	Papurau Eithriedig a Chyfrinachedd	15.00	0.00	15.00	9.23	Adroddiad Drafft
Perfformiad a Chraffu						
1-CORFF-05/2014	Trefniadau Rheoli Prosiectau	26.00	0.00	26.00		Wedi ei gynllunio
1-CORFF-05/2014cm	Prosiect "Channel Migration"	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio
1-CORFF-05/2014tp	Prosiect "Total Place"	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
YMGYNGHORIAETH GWYNEDD						
Adeiladau ac Amgylcheddol						
PYM01/2014	Dilyniant i Astudiaethau ar Ymgynghoriaeth Gwynedd	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio